



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Cymru 2021-2022

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022



Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Cymru 2021-2022

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy www.gov.uk/official-documents

Dylech anfon unrhyw ymholaadau am y cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost i financial.accounting@food.gov.uk.

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	2
Rhagair y Prif Weithredwr	4

Adroddiad perfformiad 5

Trosolwg	6
Gweithgareddau a pherfformiad 2021/22	8
Y prif risglau ac elfennau ansicr	93
Dadansoddi Perfformiad.....	100

Saesneg yn unig o hyn ymlaen

Accountability report 111

Directors' report	112
Management commentary	115
Statement of Accounting Officer's responsibilities.....	118
FSA Governance Statement.....	119
Remuneration report	135
Remote Contingent Liabilities	166
The Certificate and Report of the Comptroller and Auditor General to the Welsh Parliament	168

Accounts 175

Financial statements	176
Notes to the Departmental Resource Accounts	180
Annex A	194

Rhagair y Cadeirydd



Rwy'n croesawu'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon hwn ac yn falch o weld y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Rhaid cydnabod y gwaith a aeth rhagddo trwy gydol y flwyddyn i reoli effaith COVID-19 a'r Ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd (UE), ond mae hefyd wedi bod yn braf gweld pwyslais cynyddol ar yr adferiad yn sgil y pandemig, a'r Asiantaeth yn addasu i'w rôl ehangach yn dilyn yr Ymadawiad â'r UE. Mae gwaith parhaus mewn meysydd sy'n amrywio o orsensitirwydd i fwyd i ddiwygio rheoleiddio, a buddsoddiad pellach mewn gwyddoniaeth ac ymchwil, yn bethau i'w croesawu.

Er ein bod wedi gwneud yn dda i fodloni heriau'r flwyddyn ddiwethaf, mae digwyddiadau byd-eang yn parhau i effeithio ar y system fwyd a rhoi pwysau ar ein hadnoddau. Er bod arwyddion o adfer yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r sefyllfa yn anodd o hyd i awdurdodau lleol a byddant yn parhau i wynebu cyfyngiadau a allai effeithio ar dimau bwyd lleol. Yn yr un modd, rydym yn dal i bryderu na allwn fod yn gwbl hyderus ynghylch atal digwyddiadau bwyd heb reolaethau mewnforio llawn.

Tua diwedd y flwyddyn adrodd hon, cyhoeddodd yr ASB ei strategaeth newydd sy'n nodi ein cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae systemau bwyd yn esblygu'n barhaus ac maent wedi gorfol newid o ganlyniad i ddigwyddiadau allanol, gan gynnwys y pandemig a'r rhyfel yn Wcráin. Mae busnesau yn meddwl yn wahanol am gadwyni cyflenwi, ac mae agweddu ac ymddygiad defnyddwyr mewn perthynas â bwyd hefyd yn newid.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r strategaeth newydd yn ailymrwymo'r ASB i'n cenhadaeth graidd, sef bwyd y gallwch ymddiried ynddo, ac mae'n nodi sut y byddwn yn cyflawni tri amcan allweddol: mae bwyd yn ddiogel; mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label; ac amcan newydd – i chwarae ein rhan, ochr yn ochr â phartneriaid eraill yn y llywodraeth, y diwydiant a chymdeithas sifil, i drawsnewid y system fwyd i sicrhau bod bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy.

Mae'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn cyfrannu at ordewdra a salwch eraill y gellir eu hosgoi, tra bod newid hinsawdd yn codi cwestiynau am sut y gallwn gynhyrchu bwyd mewn ffordd sy'n fwy caredig i'r blaned. Rydym yn pryderu bod prisiau bwyd cynyddol a chynnydd ehangach mewn costau byw yn golygu y gallai deiet iachach a mwy cynaliadwy ddod hyd yn oed yn fwy anghyraeddadwy i lawer o bobl.

Bydd Bwrdd yr ASB yn craffu ar y modd y mae'r ASB yn cyflawni'r strategaeth newydd a'n hamcanion corfforaethol a bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau blynnyddol yn y dyfodol.

Hoffwn ganmol pawb yn yr ASB am eu hymdrehchion drwy gydol y flwyddyn i gynnal safonau bwyd a hyder defnyddwyr yn ein bwyd. Yn ogystal â gwneud y gwaith bob dydd yn eithriadol o dda, rhaid i'r ASB barhau i fod yn ystwyth ac ymatebol i ddigwyddiadau mewn byd sy'n newid yn gyflym. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chydweithwyr yn yr ASB a'n partneriaid allanol i fodloni'r heriau hyn.



Yr Athro Susan Jebb OBE, PhD, FRCP (Anrh), FMedSci

Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Rhagair y Prif Weithredwr



Rwy'n falch o osod gerbron Senedd Cymru a Senedd San Steffan, a chyflwyno i Gynulliad Gogledd Iwerddon, Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r rhifyn hwn yn amlinellu ein perfformiad a'n gweithgareddau yn 2021/22 ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon am gost net o £130.5 miliwn.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu blwyddyn gynhyrchiol i'r ASB. Rydym wedi bod yn parhau i reoli'r newidiadau a ddaeth yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Llynedd, cymerodd yr ASB gyfrifoldeb am lawer o'r swyddogaethau dadansoddi risg a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Mae ein hadroddiad yn dangos ein bod wedi symud ymlaen â 428 o geisiadau byw am gynhyrchion rheoleiddiedig ac wedi darparu asesiadau risg a chyngor ar nifer o bynciau.

Rydym hefyd wedi symud ymlaen â diwygiadau ac wedi parhau â'n cyfrifoldebau rheoleiddio allweddol, o ddosbarthu gwelyau pysgod cregyn i gynnal arolygiadau hylendid cig, i ymchwilio i'r enghreifftiau mwyaf echrydus o dwyll bwyd. Gwelsom hefyd gynnydd o 21% yn nifer yr hysbysiadau am ddigwyddiadau bwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

Rhoddwyd ein Cynllun Adfer ar gyfer Awdurdodau Lleol ar waith yn ystod haf 2021 i helpu awdurdodau lleol i fynd yn ôl ar y trywydd iawn. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu dychwelyd i lefelau gweithgarwch fel yr oeddent cyn y pandemig, a chlirio'r ôl-groniad o arolygiadau bwyd tra'n targedu eu hadnoddau'n llwyddiannus at y busnesau risg uchaf wrth frwydro yn erbyn COVID-19, erbyn Ebrill 2023. Mae'r tair gwlaid wedi dangos arwyddion o adfer, ond mae rhai wedi adfer yn gyflymach nag eraill.


Hoffwn ddiolch i staff yr ASB, cydweithwyr mewn awdurdodau lleol, a'r holl fusnesau rydym yn gweithio'n agos â nhw am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn i sicrhau bwyd y gallwch ymddiried yn ddio.

A handwritten signature in black ink that reads "Emily Miles".

Emily Miles

Prif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad perfformiad



Trosolwg

Mae'r trosolwg hwn yn nodi ein pwrpas a threfn ein sefydliad.

Gair am yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Sefydlwyd yr ASB yn 2000, wedi sawl bridiad uchel ei broffil o salwch a gludir gan fwyd, a ni yw'r adran lywodraethol annibynnol sy'n gweithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ein cenhadaeth yw bwyd y gallwch ymddiried yn ddiogelu iechyd pobl, yn lleihau baich economaidd clefydau a gludir gan fwyd ac yn cefnogi economi a masnach y DU. Mae'r ASB, ynghyd â Safonau Bwyd yr Alban, yn ymdrechu i gyflawni'r amcanion hyn drwy sicrhau bod gan ein bwyd enw da am ddiogelwch a diliwsrwydd yn y DU a thramor.


Cenhadaeth, gweledigaeth, blaenoriaethau strategol a pherfformiad



Ein cenhadaeth

Bwyd y gallwch ymddiried yn ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd

Diogelu iechyd y cyhoedd a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd



Ein gweledigaeth

Mae ein gweledigaeth, sy'n cynnwys pedwar nod, yn ein galluogi i gyflawni ein cenhadaeth



Blaenoriaethau strategol

Dyma ein blaenoriaethau o ran gweithgarwch ar gyfer 2021/22:

- ein hymateb i COVID-19
- cyflawni ein rôl reoleiddiol wrth 'wneud ein gwaith bob dydd yn eithriadol o dda'



Perfformiad

Rydym yn mesur ein perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau hyn, gan adrodd yn fewnol ac yn allanol.

Esbonnir y cysylltiadau rhwng yr uchod yn fanylach yn y cyflwyniad i'r adran gweithgareddau a pherfformiad isod.

Beth yw trefn y sefydliad?

Mae ein hamcanion, ein pwerau a'n dyletswyddau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, yn bennaf Deddf Safonau Bwyd 1999. Ein prif nod statudol yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn perthynas â bwyta bwyd (gan gynnwys y risgiau sy'n deillio o'r ffordd y caiff ei gynhyrchu neu ei gyflenwi) a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o lunio polisi bwyd wedi'i ddatganoli, felly rydym yn cynnal perthynas waith gref â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, rydym yn gweithredu'n annibynnol ar weinidogion ac yn cael ein llywodraethu gan fwrdd annibynnol. Rydym yn gweithio'n agos gyda Safonau Bwyd yr Alban, corff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am bolisi bwyd a gweithredu yn yr Alban. Rydym bob amser yn cynnwys amgylchiadau neu ddata sy'n benodol i bob cenedl yn y dulliau a ddefnyddiwn a'r cyngor a ddarparwn.

Mae [ein strategaeth 2022 i 2027¹](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn cwmpasu ein rôl ym mhob gwlaid, gan adlewyrchu ein dull 'un ASB'.

Mae mwy na 1,300 o bobl yn gweithio i ni i sicrhau bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Maent yn cynnwys ystadegwyr, dadansoddwyr, ymchwilwyr, arolygwyr, arbenigwyr gorfodi, gweithwyr polisi proffesiynol, economegwyr, milfeddygon a mwy na 500 o staff rheng flaen, sy'n gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid cyflenwi gweithredol i arolygu lladd-dai a safleoedd cynhyrchu cynradd eraill.

Mae'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf yn sylfaen i'n gwaith.

¹ <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/rhagair-system-fwyd-syn-newid>

Gweithgareddau a pherfformiad 2021/22

Yn yr adran hon o'n hadroddiad blynnyddol, rydym yn datgan ein gweithgareddau a'n perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Ein cenhadaeth a'n gweledigaeth

Ein cenhadaeth gyffredinol yw sicrhau bwyd y gallwch ymddiried yn ddod ac, yn ystod y cyfnod adrodd, roedd ein gweledigaeth yn cynnwys y pedwar nod canlynol. Adolygydd y rhain gan y Bwrdd yn 2022, gan arwain at ein strategaeth newydd ar gyfer 2022-27 a fydd yn ein harwain wrth symud ymlaen.



Mae bwyd yn ddiogel



Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label



Gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus am beth i'w fwyta



Mae gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy, nawr ac yn y dyfodol*

*Dim ond yng Ngogledd Iwerddon y mae'r ASB yn gyfrifol am bolisi maeth, nid yng Nghymru nac yn Lloegr.

Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2021/22

Blaenoriaeth yr ASB yn ystod y cyfnod hwn fu sicrhau diogelwch bwyd, gan gadw'r mesurau diogelu cadarn a gynigir i ddefnyddwyr yn y DU tra'n cefnogi'r diwydiant i gynnal cyflenwad bwyd y genedl. Ein nod yw lleihau effaith yr ymadawiad â'r UE ar ddiogelwch bwyd a hygyrchedd bwyd. Yn ystod 2021/22, roedd cyflawni ein rôl reoleiddiol o ran 'gwneud y gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda' yn parhau i fod yn weithgarwch blaenoriaeth, a oedd yn cynnwys ein hymateb i COVID-19 a chyflawni ein gwaith yn ddidrafferth wrth i ni weithredu y tu allan i'r UE. Dyrannwyd y rhan fwyaf o'r cyllid a oedd ar gael er mwyn sicrhau bod swyddogaethau rheoleiddio craidd yr ASB yn cael eu cyflawni'n barhaus. Wrth symud ymlaen i 2022/23, bydd yr amcanion hyn yn parhau i esblygu i gyd-fynd â'n cyfrifoldebau newydd.





Gwneud y gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda

Yn fras, mae ein gwaith yn cynnwys tri maes:

- deall lefelau **hylendid a safonau bwyd** yn y tair gwlad
- **cyflawni** ein gofynion gweithredol, a chyflawni rhywfaint o bolisi maeth a deiet yng Ngogledd Iwerddon.
- sicrhau ein bod yn gallu darparu **adnoddau** yn fewnol ar gyfer y gwaith hwnnw drwy ddarparu'r bobl orau ar gyfer y swydd.

Nodir rhai o'n cyflawniadau ym mhob un o'r tri maes hyn ar y pedair tudalen nesaf. Yn ddiweddarach rydym yn adrodd yn fanylach ar y canlynol.

Hylendid a safonau

- Clefyd a gludir gan fwyd
- Agweddau'r cyhoedd tuag at yr ASB
- Gwyddoniaeth a gwyliadwriaeth
- Sganio'r gorwel
- Gwyliadwriaeth strategol a data
- Samplu
- Dyfodol labordai bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol y DU
- Ymchwil a thystiolaeth
- Dadansoddi a mewnwelediadau
- Proses dadansoddi risg
- Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Cydymffurfiaeth busnesau bwyd cig

Cyflenwi

- Cynhyrchion rheoleiddiedig
- Gwaith gweithredu awdurdodau lleol
- Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid
- Lles anifeiliaid
- Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd
- Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau
- Trawsnewid gweithredol
- Gorsensitifrwydd i fwyd
- Maeth: Gogledd Iwerddon

Ein pobl

- Ymgysylltu â staff
- Cefnogi ein staff
- Amrywiaeth a chynhwysiant

Hylendid a safonau

Mae'r adran hon yn adolygu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd gennym a sut mae'r gwaith hwnnw'n ein galluogi i gyflawni ein nodau.

Yn 2020 gwelwyd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau am achosion o glefydau a gludir gan fwyd ymmsg pobl a gadarnhawyd gan labordai ar gyfer tri o'r pedwar prif pathogen, sef prif fesur canlyniad diogelwch bwyd yr ASB, a hyn ar yr un pryd â phandemig COVID-19. Yn 2021 cynyddodd nifer yr adroddiadau am y pedwar o gymharu â 2020, gyda dau yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Gweler yr adran clefydau a gludir gan fwyd i gael mwy o wybodaeth (tudalen 20).

Lansiwyd tri chylch o arolwg blaenllaw'r ASB, Bwyd a Chi 2, yn ystod 2021/22, gan gasglu data o dros 400 o gartrefi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yng nghylch 3, roedd gan 60% o ymatebwyr rywfaint o wybodaeth am yr ASB, ac roedd 75% yn ymddiried yn yr ASB i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu'r ymchwil wyddonol a'r dystiolaeth sy'n sylfaen i ymroddiad yr ASB i fod yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, gwnaethom gynyddu nifer y staff gwyddoniaeth fwy na 40% yn ystod 2021/22.

Er mwyn llywio ein gwybodaeth am system fwyd y DU, bodloni gofynion deddfwriaethol, llywio asesiadau risg a darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol ar gyfer camau dilynol, gwnaethom gynnal ein gwaith samplu, gan brofi 11,065 o samplau, a chanfod 245 o achosion o ddiffyg cydymffurfio, gan wario £3.3 miliwn.

Gwnaethom gyflwyno rhaglen ymchwil a thystiolaeth gwerth dros £10 miliwn. Roedd hyn yn cynwys cyflawni'r gyllideb a ddyrannwyd ond hefyd tua £1 miliwn ar waith gwyddoniaeth a thystiolaeth allanol ychwanegol. Gwnaethom hefyd ddechrau PATH-SAFE, rhaglen drawslywodraethol gwerth £19 miliwn, a ariennir gan Drysorlys EF, i archwilio dulliau newydd ar gyfer gwella gwyliadwriaeth o ran clefydau a gludir gan fwyd ac ymrhtheddwrhif crobaidd.

Yng Nghymru a Lloegr, mae COVID-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar y rhaglen archwilio ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd cig. Yn ystod 2021/22, gwnaeth yr ASB flaenorriaethu archwiliadau a ohiriwyd yn flaenorol oherwydd COVID-19, gan gwblhau 249 o'r archwiliadau hyn. Nid oedd unrhyw archwiliadau gohiriedig yn weddill ac roedd nifer yr archwiliadau llawn a gwblhawyd yn erbyn y targed wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig ar ddiwedd 2021/22.

Wrth i ragor o arolygiadau hylendid bwyd ac ymyriadau gael eu cynnal, cynyddodd nifer y sgoriau hylendid bwyd a roddwyd i fusnesau 179% o gymharu â lefelau cyn y pandemig. Yn ogystal, cafodd 96.9% o sefydliadau sgôr hylendid bwyd boddhaol neu uwch (3 neu well).

Yng Ngogledd Iwerddon, gwnaethom barhau i gynnwl MenuCal, sef adnodd ar-lein rhad ac am ddim i gefnogi busnesau i gyfrifo calorïau a rheoli alergenau. Er gwaethaf y pandemig a'r gallu cyfyngedig i hyrwyddo'r adnodd, parhaodd defnyddwyr gweithredol MenuCal i dyfu. Yn y cylch diweddaraf o'r Arolwg Tracio Bwyta'n Dda Dewis yn Well (casglwyd data 2021+ rhwng mis Awst a mis Hydref 2021), roedd nifer uchel o ymatebwyr (87%) yn cydnabod y label goleuadau traffig, a barhaodd yn gyson ym mhob cylch. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (79%) yn deall y label goleuadau traffig. Fodd bynnag, dim ond 42% a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r label wrth siopa (-14% ers 2020²).

² Casglwyd data rhwng mis Mehefin a mis Awst 2020

Cyflenwi

Mae'r adran hon yn edrych ar y gwaith ymarferol a wneir gan yr ASB, neu ar ei rhan, o fewn y diwydiant cig, busnesau bwyd a gwaith gorfodi cyfreithiol. Ar y cyfan, llwyddodd yr ASB i ddarparu gwasanaeth cyson ar draws ein meysydd cyflenwi, er gwaethaf yr heriau parhaus a wynebwyd gennym yn ystod y flwyddyn adrodd. Disgrifir rhai o'n cyflawniadau isod.

Ym mis Rhagfyr 2021, roedd gennym 420 o geisiadau yn mynd rhagddynt drwy'r gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig, ar wahanol gamau o'r broses awdurdodi. Cawsom lefel uchel o gysylltiadau â'r gwasanaeth ar gyfer cynhyrchion Canabidiol (CBD) yn chwarter cyntaf 2021/22 a oedd yn cyd-fynd â therfyn amser yr ASB ar geisiadau CBD.

Cyflawnodd awdurdodau lleol ddisgwyliadau'r ASB a gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas ag arolygiadau ac ymyriadau, ac mae'n glir eu bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg yn unol â'r Cynllun Adfer ar gyfer awdurdodau lleol (y cynllun) y cytunwyd arno gan y Bwrdd ym mis Mai 2021.

Cyflwynodd ein tîm lles anifeiliaid y protocol 'Dangos bod Anifail yn Fyw' (*Demonstration of Life*). Cynllun gwirfoddol yw hwn gyda'r nod o leihau nifer yr anifeiliaid cnoi cil bach (defaid a geifr) sy'n cael eu lladd heb eu stynio ymlaen llaw, trwy dystio bod y dull stynio yn cydymffurfio â gofynion halal. Gwnaethom hefyd gyflwyno proses brysbenau cyfeiriadau i'w harchwilio, a oruchwylir gan banel o arbenigwyr sy'n asesu achosion lles anifeiliaid y gellid eu herlyn. Mae hyn yn sicrhau cymesuredd a chysondeb yn null yr ASB o ymdrin â'r achosion hyn.

Cyflawnodd ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) eu heuogfarn o'r dechrau i'r diwedd gyntaf, yn ogystal â gweithgareddau eraill i darfu ar ymddygiad troseddol sy'n ymwneud â bwyd.

Cyflawni ein rhaglenni blaenoriaeth

Ni newidiwyd ein tair rhaglen o waith blaenoriaeth ers blynnyddoedd blaenorol. Lle bo angen, fe wnaeth yr ASB ail-flaenoriaethu adnoddau i gefnogi cynnydd yn y meysydd hyn. Dyma'r tair rhaglen:



Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau

Parhaodd y Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau i ddatblygu pob un o'i thair ffrwd waith:

- dull rheoleiddio cymesur, wedi'i dargedu
- dulliau rheoleiddio ar lefel menter
- sicrwydd gwerthu bwyd ar-lein

Roedd hyn yn cynnwys datblygu a chwblhau'r cylluniau peilot yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer model safonau bwyd newydd sy'n seiliedig ar risg, datblygu ein dull o foderneiddio'r model gweithredu hylendid bwyd, gweithio gyda 10 prif manwerthwr y DU i ddatblygu prawf cysyniad i brofi rheoleiddio ar lefel busnes, a datblygu ein dealltwriaeth a'n sylfaen dystiolaeth i lywio gwaith yn y dyfodol o ran sicrwydd gwerthiannau bwyd ar-lein. Darparodd y rhaglen adroddiad cynhwysfawr i Fwrdd yr ASB ym mis Medi 2022³.

Y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol

Wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a chytuno ar Fodel Gweithredu'r Dyfodol sy'n amlinellu'r prif amcanion y bydd y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol yn eu cyflawni wrth foderneiddio'r modd y cynhelir rheolaethau swyddogol. Cymeradwywyd hyn yn llwyddiannus gan Fwrdd yr ASB ym mis Medi 2021, gan gytuno hefyd ar raglen waith y 12 mis nesaf. Parhaodd y rhaglen i gyflawni yn erbyn y rhaglen waith y cytunwyd arni drwy symud ymlaen â nifer o fentrau prosiect allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys digideiddio cymeradwyaethau cig, bwrw ymlaen â'r adolygiad cychwynnol o opsiynau strategaeth ddeddfwriaethol ar gyfer rheolaethau swyddogol a datblygu a threialu'r defnydd o fodel grwpio (*segmentation*) sy'n galluogi dull o amserlennu archwiliadau sy'n fwy seiliedig ar ddata a risg.

Gorsensitifrwydd i fwyd

Wedi rhoi'r ddeddfwriaeth bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) ar waith o 1 Hydref 2021 ac wedi cefnogi busnesau ac awdurdodau lleol i roi'r rheolau newydd ar waith yn llwyddiannus. Mae deddfwriaeth PPDS yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd labelu'r math hwn o fwyd gyda'r enw a'r rhestr gynhwysion, gan bwysleisio'r 14 prif alergen o fewn y rhestr. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adran rhaglenni blaenoriaeth ar dudalen 74.

³ <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/cyfarfodydd-bwrdd-yr-asb>

Ein pobl

Mae'r adran hon yn ystyried ein staff a'n gwaith ymgysylltu yn ystod 2021/22

Sgôr mynegai ymgysylltu'r ASB oedd 68%, ein sgôr uchaf ond un erioed. 77% oedd ein cyfradd ymateb i'r Arolwg Pobl, sef gostyngiad o 10% ers 2020, ond roedd yn dal i fod yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil o 62%. Gostyngodd y rhan fwyaf o feysydd ryw fymryn, heblaw am gyflog a buddion (-6%), Fy Rheolwr (+1%) a Fy Nhîm (+/- 0%).

Roedd iechyd, diogelwch a lles ein staff wedi parhau i fod yn flaenoriaeth trwy gydol y pandemig. Oherwydd natur y pandemig a'r gofynion ychwanegol parhaus ar staff, gwnaethom barhau i weithredu ystod o fesurau cymorth i alluogi staff i ddiogelu eu hunain ac eraill.

Parhaodd yr ASB hefyd i sicrhau bod ei chynnig 'Ein Ffyrdd o Weithio' (OWOW) hyblyg arobrynni ar gael i gefnogi ei staff. Arweiniodd y dull hwn o fod yn hyblyg o ran lleoliad gweithio at ymgyrchoedd reciwtio llwyddiannus, a oedd yn aml yn cynnwys ymgeiswyr wrth gefn.

Parhaodd ein cynrychiolaeth i gyd-fynd i raddau helaeth â'r boblogaeth economaidd weithgar. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i gynyddu cynrychiolaeth o ran pobl sydd ag anabledd. Gwnaethom barhau i roi rhaglen newydd, arloesol ar waith fel Mentora o Chwith (*Reverse Mentoring*) ac FSA Accelerate, sef rhaglen ddatblygu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cyhoeddir yr holl adroddiadau perfformiad ac adnoddau fel papurau Bwrdd⁴, lle cyflwynir diweddarriadau a chynnydd yn erbyn y mesurau hyn. Mae mwy o fanylion ar gael yn yr adran Ein pobl ar dudalen 82.

⁴ <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/cyfarfodydd-bwrdd-yr-asb>

Blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn



Wrth fwrw ymlaen â'n swyddogaethau cyffredinol, gwnaethom barhau â'n gwaith i symud yn ôl i 'fusnes fel arfer' ar ôl newidiadau mawr i'n gwaith o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE ac effeithiau pandemig COVID-19.



Adfer yn dilyn COVID-19


Roedd pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar yr ASB, yn enwedig yng nghyd-destun ein gwaith samplu a'r gwaith a wneir ar ein rhan gan awdurdodau lleol y tair gwlad.

Effeithiodd y pandemig yn ddifrifol ar allu arolygwyr i asesu cydymffurfiaeth y diwydiant. Adlewyrchwyd hyn yn nifer y busnesau bwyd a gafodd sgoriau hylendid bwyd yn ystod y pandemig (gweler yr adran Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar dudalen 45 i gael rhagor o fanylion).

Er y bu gostyngiad sylweddol, gwnaeth swyddogion gorfodi ymweld â safleoedd lletygarwch i gynnal ymwelliadau i asesu cydymffurfiaeth mewn perthynas â mesurau COVID-19. Er nad oedd yr ymwelliadau hyn bob amser wedi'u cyfuno â gwiriadau hylendid bwyd, roedd gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i asesu a oedd safle'n ddiogel o ran COVID-19 ac yn dilyn arferion cynhyrchu bwyd diogel.

Ail-ddechreuodd awdurdodau lleol gynnal arolygiadau mewn busnesau bwyd, gan flaenoriaethu'r busnesau hynny sydd â hanes o ddiffyg cydymffurfio, neu lle y gwnaeth cwynion dynnu sylw at broblemau posib. Roedd trafodaethau cynnar gyda Grwpiau Cyswllt Bwyd Awdurdodau Lleol yn awgrymu bod awdurdodau lleol wedi dod ar draws lefelau diffyg cydymffurfio uwch na chyn y pandemig. Mae angen mwy o ddata cyn y gellir dod i gasgliadau cadarn am effaith y pandemig ar safonau hylendid ehangach.

Roedd gwaith samplu a gynhaliwyd gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y pandemig yn rhoi hyder rhesymol bod diogelwch sylfaenol y rhan fwyaf o gynhyrchion bwyd wedi'i gynnal. Fodd bynnag, nid oedd nifer sylweddol o'r cynhyrchion a brofwyd yn bodloni'r safonau gofynnol mewn o leiaf un maes, o ran ansawdd a chywirdeb gwybodaeth i ddefnyddwyr. Roedd hyn yn tynnu sylw at yr angen am fonitro parhaus a rhagor o fuddsoddiad mewn ystod ehangach o weithgareddau samplu.

Ffigur 1: Effaith ariannol COVID-19 ar yr ASB yn 2021/22

Yn 2017, gwnaethom gyflwyno Ein Ffyrdd Ni o Weithio (OWOW), sef ein pecyn gweithio hyblyg arobryn, gan arbed bron i £2 filiwn i'r trethdalwr ar gostau swyddfa bob blwyddyn. Parhaodd i roi'r hyblygrwydd i'n staff nad ydynt ar y rheng flaen weithio o swyddfeydd a chartrefi ledled y DU.

Asesu'r risg a berir gan fwyd

Gwnaethom barhau i reoli ein contract ymchwil, 'Asesu sut mae COVID-19 yn goroesi ar arwynebau bwyd a deunyddiau pecynnau bwyd'. Nod y prosiect hwn yw mesur sut mae'r feirws yn goroesi mewn ystod o amgylchoedd a gynlluniwyd i ddynwared bwyd yn symud trwy amgylchedd manwerthu. Bydd y canlyniadau'n llywio asesiadau risg yn y dyfodol o ran y risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 trwy fwyd a deunydd pecynnau bwyd. Dechreuodd y prosiect hwn ym mis Chwefror 2021, a chyhoeddodd yr ASB yr adroddiad terfynol ar gyfer y prosiect ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r adroddiad wedi cael ei adolygu gan gymheiriad a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod cyfnod adrodd 2022/23.

Fel rhan o'n gwaith asesu risg, gwnaethom gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar geisiadau am organebau a addaswyd yn enetig, ceisiadau am fwyd newydd a mewnforion o ranbarth Fukushima yn Japan. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran asesu risg ar dudalen 51.



Ymadael â'r UE

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, parhaodd yr ASB i fewnoli prosesau a gynhaliwyd yn flaenorol gan yr UE i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein blaenoriaeth: Mae bwyd yn diogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Yr UE yw ein cyflenwr mwyaf ar gyfer mewnfyrion bwyd o bell ffordd o hyd, gan gyfrif am fwy na 90% o'r holl gynhyrchion cig eidion, llaeth, wyau a phorc a fewnforir i'r DU, a bron i ddwy ran o dair (65%) o'r holl fwyd a bwyd anifeiliaid nad yw'n dod o anifeiliaid. Dangosodd dadansoddiad o lefelau cydymffurfio mewn gwiriadau rheolaethau mewnfyrion a gynhaliwyd rhwng 2020 a 2021 nad oedd unrhyw newid ystyrlon yn safon y nwyddau a fewnforir, o ganlyniad i'r pandemig neu ymadawiad y DU â'r UE.

Hyd nes y cyflwynir rheolaethau mewnfyrion llawn ar gyfer nwyddau'r UE sy'n dod i mewn i Brydain Fawr, tua diwedd 2023, bydd awdurdodau diogelwch bwyd y DU yn parhau i reoli risgau trwy raghsbysiadau, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2022 ar gyfer rhai mewnfyrion bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel. Yn ogystal, rhoeddwyd rhagor o gapasiti a gallu ar waith fel rhan o waith cynllunio Ymadael â'r UE i nodi digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid, ac ymateb yn effeithiol iddynt.

Mae ymadawiad y DU â'r UE yn golygu nad oes gan y DU bellach fynediad llawn at System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) y Comisiwn Ewropeaidd, er ei bod yn parhau i gael hysbysiadau sy'n ymwneud â'r DU. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi llunio trefniadau amgen gyda phartneriaid rhyngwladol eraill, yn ogystal â buddsoddi mewn dulliau gwyliadwriaeth newydd. Mae lefelau'r hysbysiadau sy'n dod i law gan wledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE, ac sy'n cael eu hanfon atynt, wedi aros yn sefydlog.

Er gwaethaf y pwysau ar y gadwyn cyflenwi bwyd yn sgil y pandemig ac ymadawiad y DU â'r UE, nid oedd unrhyw dystiolaeth o droseddwyr yn camfanteisio'n sylweddol. Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw gynnydd canfyddadwy mewn trosebau bwyd dros y cyfnod hwn.

Diweddarriad ar ôl cyfnod pontio'r UE

Cafodd gwaith yr ASB i feithrin swyddogaethau newydd a pharatoi ar gyfer canlyniadau Ymadael â'r UE ei gyflawni'n llwyddiannus. Gwnaethom ni a Safonau Bwyd yr Alban ymgymryd â chyfrifoldebau newydd o 1 Ionawr 2021. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cynhyrchion rheoleiddiedig

- Mae'r ASB wedi bod yn gweithredu gwasanaeth i awdurdodi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig newydd cyn iddynt ddod i mewn i farchnad Prydain Fawr.
- Ar 31 Mawrth 2022, gwnaed 420 o geisiadau i'r ASB, sy'n cynnal asesiad risg diogelwch o'r cynhyrchion ac yn ystyried ffactorau fel effeithiau masnach ac amgylcheddol cyn gwneud argymhellion i Weinidogion ar awdurdodiad (gweler tudalen 51).

Ailwladoli swyddogaethau Masnach Ryngwladol (gweler tudalen 125), gan gynnwys:

- Cytundebau Masnach Rydd (FTA)/adroddiadau Adran 42 sy'n esbonio a yw cytundeb masnach rydd yn gydnaws â chynnal lefelau gwarchodaeth statudol y DU mewn perthynas â bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu les anifeiliaid a'r amgylchedd.
- Cyflwyno swyddogaeth mynediad i'r farchnad (mewnforion) newydd i gefnogi Swyddfa SPS y DU ar gyfer Sicrwydd Masnach⁵ i asesu diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ceisiadau mewnforio nwyddau newydd o drydydd gwledydd.
- Gwella'r ddarpariaeth o swyddogaeth mynediad i'r farchnad (allforion) i gefnogi ein marchnadoedd allforio cyfredol a marchnadoedd newydd, er enghraift agor marchnad yr Unol Daleithiau i gig oen Prydain.

Meisydd eraill

- Ehangu'r NFCU yn ogystal ag ymgorffori prosesau a galluoedd gweithio newydd sydd wedi gwella ein gallu i ganfod troseddau bwyd, ymchwilio iddynt ac amharu arnynt (gweler tudalen 63).
- Bod yn gyfrifol am gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r ASB bellach yn uniongyrchol gyfrifol am weinyddu deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys asesu risg bwydydd newydd, y broses cymeradwyo cynhyrchion rheoleiddiedig, ac ymgymryd â newidiadau deddfwriaethol, drwy offerynnau statudol, i ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (gweler tudalen 51).
- Cychwynnodd yr ASB asesiadau risg ar bedwar mater oherwydd tystiolaeth newydd a/neu newidiadau a ddaeth i'r amlwg yn y system fwyd, a darparu asesiad risg a chyngor iechyd y cyhoedd i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi ffiniau yn y dyfodol (gweler tudalen 51).

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, daeth Rhaglen Cyfnod Pontio'r UE i ben yn dilyn cytundeb gan [Fwrdd yr ASB ym mis Mawrth 2020](#)⁶. Symudodd gwaith parhaus i'r drefn 'busnes fel arfer'. Rhan sylweddol o ffocws parhaus y sefydliad yn 2021/22 oedd parhau i gyflawni ein swyddogaethau craidd ar ôl diwedd y cyfnod pontio a goresgyn problemau a gododd yn ystod y cyfnod adrodd.

5 www.gov.uk/guidance/exporting-to-the-uk-countries-and-establishments-approved-to-export-animals-and-animal-products

6 www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-21-03-05-eu-transition.pdf

Hylendid a safonau: Ein blwyddyn mewn rhifau

Clefydau a gludir gan fwyd:

achosion a gadarnhawyd gan labordai yn y DU fesul 100,000 o'r boblogaeth⁷ – Campylobacter **101.9**, Salmonela **8.8**, E.coli sy'n cynhyrchu tocsin Shiga **0.89**, Listeria monocytogenes **0.28**

Agweddau cyhoeddus



75%

yn dweud eu bod yn ymddiried yn yr ASB i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label



Samplu

11,065

o samplau wedi'u profi
245 achos o ddiffyg cydymffurfio
Cyfanswm gwariant o
£3.3 miliwn

Proses dadansoddi risg



Wedi cyhoeddi ein hasesiad risg yn ymwneud â Rheolaethau mewnflio Fukushima

Gwyliadwriaeth strategol



12,000

o signalau wedi'u prosesu gan ein swyddogaeth derbyn a rheoli newydd

Ymchwil a thystiolaeth



£16.6 miliwn

wedi'i wario ar wyddoniaeth –

12.7% o wariant yr ASB

Cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd cig



98.9%

o weithredwyr busnesau bwyd cig wedi'u sgorio yn 'Dda' neu 'Boddhaol ar y Cyfan'

Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd



9,604 yn llai o fusnesau wedi'u cyhoeddi fel rhai sy'n 'aros am arolygiad'

⁷ Mae'r tabl yn cyflwyno'r gyfradd o achosion a gadarnhawyd gan labordai yn y DU yn 2021 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o bob ffynhonnell, nid yn unig o drosglwyddo a gludir gan fwyd. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr adran Clefydau a Gludir gan Fwyd. Mae cyfraddau tanadrodd yn amrywio rhwng pathogenau. Felly, ni ddylid cymharu cyfraddau ar gyfer gwahanol bathogenau.

Canllawiau i fyfyrwyr ar ddiogelwch bwyd

Amcanion: Gwella arferion diogelwch bwyd ymmsg oedolion ifanc, yn enwedig myfyrwyr, trwy eu helpu i ddeall yr hanfodion hylendid bwyd (glanhau, coginio, oeri, croeshalogi).

Pryd: 17 Tachwedd 2021 i 12 Rhagfyr 2021

Gwariant: £30,000

Beth wnaethom ni:

Buom yn gweithio gyda The Tab, cyfryngau a gwefan myfyrwyr mwyaf poblogaidd a dylanwadol y DU. Mae The Tab wedi'i greu ar gyfer myfyrwyr, gan fyfyrwyr, gyda mwy na 1,000 o fyfyrwyr sy'n astudio newyddiaduraeth.


Mae eu rhwydwaith yn cwmpasu 88% o 50 prifysgol orau The Times (gan gynnwys prifysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Gan weithio gyda nhw mewn rôl partneriaeth â thâl, gwnaethom rannu cynnwys, a gwnaethon nhw greu erthygl hysbysebu yn arddull cwis, a'i rhannu ar eu gwefan a'u sianeli cymdeithasol. Roedd y bartneriaeth hon yn golygu y gallem gyrraedd cynulleidfa dargededig o fyfyrwyr a sicrhau cywirdeb y cynnwys, tra hefyd yn apelio at gynulleidfa o fyfyrwyr trwy naws yr erthygl a'r lluniau.

Buom hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys sefydliadau myfyrwyr, cymunedol a rhieni. Cefnogodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yr ymgylch fel partner allweddol, gan rannu cynnwys ar draws llwyfannau gan ymgysylltu'n uniongyrchol â phrifysgolion, a rhannwyd eu cylchlythyr â'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn Undebau Myfyrwyr ledled y DU.

Y canlyniadau

At ei gilydd, cyrhaeddodd yr ymgylch dros 167,497 o fyfyrwyr gyda 17,256 yn gwyllo'r fideo a 468 yn rhyngweithio. Cafodd The Tab 32,239 o ymweliadau unigryw ac roedd gan y cwis gyfradd clico o 0.6% (sy'n uwch na meincnod y diwydiant o 0.3%).

Fe wnaeth ein gwaith arall â phartneriaid gyrraedd 40,700 o bobl a gwnaethom rannu 44 darn o gynnwys ar ein sianeli cymdeithasol ein hunain, gan gynhyrchu 94,558 o argraffiadau, gyda Facebook yn perfformio orau o gymharu â Twitter ac Instagram. Cafodd ein Canllawiau i Fyfyrwyr ar ddiogelwch a hylendid bwyd[†] dros 1,021 o ymweliadau dros y pedair wythnos.



[†] <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/canllawiau-i-fyfyrwyr-ar-ddiogelwch-bwyd>

Clefydau a gludir gan fwyd


Un o brif nodau'r ASB yw sicrhau bod bwyd yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chynhyrchwyr bwyd i leihau'r tebygolrwydd o beryglon a gludir gan fwyd yn eu cynhyrchion, sydd yn y pen draw yn lleihau baich clefydau a gludir gan fwyd ac yn diogelu iechyd y cyhoedd. Rydym wedi datblygu Fframwaith Clefydau a Gludir gan Fwyd i ddwyn ynghyd data a gwybodaeth gwyliadwriaeth ar y [tri ar ddeg o bathogenau a gludir gan fwyd](#)⁸ sy'n cael yr effaith fwyaf niweidiol ar gymdeithas. Mae'r fframwaith yn cael ei lywio gan adnodd Dadansoddi Penderfyniad Meini Prawf Lluosog, a ddatblygwyd gan yr ASB sy'n rhestru pathogenau yn ôl eu heffaith fwyaf niweidiol ar gymdeithas, er enghraift cost i gymdeithas a lefel pryder y cyhoedd.

Amcanion yn 2021/22



- Cefnogi pobl i leihau'r risg o gael clefyd a gludir gan fwyd, a'u helpu i osgoi gwastraff, trwy weithio i godi ymwybyddiaeth o labeli dyddiad.
- Datblygu blaenoriaethau ymchwil allweddol a chyfrannu at ymchwil barhaus.


Tueddiadau adrodd am bathogenau gastroberfedol (GI)

Mae'r graffiau'n dangos achosion a gadarnhawyd o bob ffynhonnell, nid yn unig o drosglwyddiad a gludir gan fwyd, oherwydd gall fod yn anodd profi achos y salwch mewn unrhyw achos unigol. Mae'r achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth ac wedi'u cadarnhau gan labordai yn y DU.



⁸ www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/prioritising-foodborne-disease-with-multicriteria-decision-analysis-report.pdf





* Daw data o sawl system adrodd byw a reolir gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd Cyhoeddus yr Alban ac Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Data dros dro yw'r data a gall newid. Cyfrifir cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (defnyddiwyd amcangyfrifon 2020 ar gyfer 2021 gan nad yw amcangyfrifon 2021 ar gael eto). Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau dros amser, yn enwedig dros y cyfnod COVID-19 (2020-2021) oherwydd llawer o ffactorau a effeithiodd ar adrodd ar bathogenau.

Yn 2020, bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o adrodd am bathogenau gastroberfeddol i wyliadwriaeth genedlaethol, a hyn oherwydd pandemig COVID-19. Gwelwyd gostyngiadau tebyg mewn gwledydd eraill hefyd. Yn 2021 dychwelodd achosion o Campylobacter a adroddwyd yn y DU i lefelau fel yr oeddent cyn COVID-19, ond roedd achosion o Salmonella ac E.coli O157 sy'n cynhyrchu tocsin Shiga (STEC O157) yn sylweddol is na'r lefelau cyn y pandemig am resymau sy'n ansicr ar hyn o bryd.


Mae ysgogwyr y newid hwn yn debygol o fod yn aml-ffactor, yn amrywio yn ôl pathogen ac yn gysylltiedig â llawer o wahanol newidiadau cymdeithasol ac ymddygiadol yn ystod y pandemig. Mae'r darlun cyffredinol yn gymhleth ac yn amrywio drwy gydol 2020 a 2021:



Tanadrodd heintiau gastroberfeddol – Bydd rhywfaint o'r gostyngiad yn gysylltiedig â newidiadau mewn ymddygiad o ran ceisio gofal iechyd, gyda llai o bobl yn ymweld â meddygon teulu ac ysbytai yn ogystal â llai o samplau yn cael eu cymryd ar gyfer profion a newidiadau mewn arferion profion mewn labordai, sy'n debygol o arwain at danadrodd cynyddol o heintiau gastroberfeddol. Byddai unigolion â salwch mwy difrifol yn fwy tebygol o geisio gofal a chael samplo wedi'i chyflwyno i'r labordy na'r rheiny â symptomau salwch ysgafnach.



Gweithredu mesurau hylendid a chadw pellter cymdeithasol gwell – Gallai rhywfaint o'r gostyngiad a adroddwyd gynrychioli'r gostyngiad yn yr achosion o rai pathogenau oherwydd mesurau rheoli a roddwyd ar waith i leihau lledaeniad COVID-19, fel golchi dwylo'n well a chadw pellter cymdeithasol.



Ymddygiadau sy'n gysylltiedig â bwyd – Mae effaith gyffredinol rhai newidiadau mewn ymddygiadau a welwyd yn ystod COVID-19 yn aneglur, yn enwedig yng nghyd-destun arferion defnyddwyr wrth brynu bwyd yn ystod y cyfnod clo. Ni chaniatawyd i ddigwyddiadau arlwoyo fel priodasau, partïon teuluol a digwyddiadau torfol eraill gael eu cynnal, neu roedd rhaid iddynt ddigwydd ar raddfa lawer llai yn ystod cyfyngiadau COVID-19, gan leihau achosion o glefydau a gludir gan fwyd sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o ddigwyddiadau, o gymharu â'r blynyddoedd cyn y pandemig. Gallai newidiadau ymddygiad eraill fel newid o ran faint o fwyd sy'n cael ei goginio yn y cartref neu brynu bwyd o siopau tecawê a bwytai fod wedi cael effaith hefyd, er bod y cyfeiriad yn llai clir.



Ymyriadau anfferyllol eraill – Mae'n debygol bod llai o deithio rhyngwladol yn ystod 2020 a 2021 wedi cyfrannu at ostyngiad yn niferoedd yr achosion o *Salmonela* a STEC O157.

Yn y pen draw, nid yw effaith net yr holl newidiadau hyn yn hysbys. Cyhoeddodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) ddu bapur^{9,10} ar effaith pandemig COVID-19 ar adrodd am bathogenau gastroberfeddol yn Lloegr. Er bod y papurau'n cydnabod bod cynnydd mewn tanadrodd wedi cyfrannu'n allweddol at y gostyngiad, roeddent hefyd yn awgrymu, yn achos pathogenau lle'r oedd trosglwyddiad yn digwydd o berson i berson yn bennaf, fel norofeirws, mae'n bosib y bu gostyngiad hefyd yn nifer yr achosion o'r clefydau oherwydd newidiadau mewn patrymau cyswllt a/neu arferion hylendid gwell.

Ymchwil a thystiolaeth barhaus

Gwnaethom gynnwl gwaith pellach i ddeall yn well y rhesymau dros y newidiadau ac i barhau i nodi'r cyfleoedd sydd fwyaf buddiol i iechyd y cyhoedd ac sy'n lleihau baich clefydau a gludir gan fwyd:

Cyfres o arolygon o Glefydau Perfedol Heintus yn ystod COVID-19 – Yn ein galluogi i amcangyfrif lefel yr achosion o Glefydau Perfedol Heintus hunangofnodedig a thanadrodd yn ystod cyfnod COVID-19. Bydd yr arolygon hefyd yn cael eu defnyddio i brofi a allai ymddygiadau penodol fel golchi dwylo'n amlach fod yn gysylltiedig â thebygolrwydd is o Glefydau Perfedol Heintus.

Dadansoddi ystadegau episodau ysbytai fesul wythnos ar gyfer y prif bathogenau – gan fod derbyniantau i'r ysbyty yn debygol o gyfleo'r achosion mwy difrifol, byddem yn disgwl eu bod wedi'u heffeithio'n llai gan danadrodd, ac felly'n rhoi darlun mwy cywir o dueddiadau.

Gweithio gydag UKHSA a darparwyr gwyliadwriaeth eraill – Rydym wedi cysylltu ag asiantaethau iechyd cyhoeddus y DU i driongli data o'r ddu brosiect uchod gyda data gwyliadwriaeth arall.

⁹ Love et al (April 2021). The impact of the COVID-19 pandemic on gastrointestinal infection trends in England, February – July 2020, www.medrxiv.org/content/10.1101/2021.04.06.21254174v2

¹⁰ Ondrikova et al (Awst 2021). Differential impact of the COVID-19 pandemic on laboratory reporting of norovirus and Campylobacter in England: A modelling approach], <https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0256638>


Agweddau'r cyhoedd tuag at yr ASB

Bwyd a Chi 2¹¹ yw ein prif arolwg defnyddwyr, ac mae'n Ystadegyn Swyddogol. Disodlodd Bwyd a Chi a'r Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd yn 2020. Bwriad Bwyd a Chi 2 yw:

- darparu data cynrychioliadol ar wybodaeth, agweddau ac ymddygiad hunangofnodedig defnyddwyr mewn perthynas â blaenoriaethau polisi'r ASB (fel diogelwch bwyd)
- monitro tueddiadau o ran pryderon, agweddau ac ymddygiad defnyddwyr dros amser
- deall gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr


Lansiwyd y cylch cyntaf o waith maes Bwyd a Chi 2 ym mis Gorffennaf 2020, gan ddarparu llinell sylfaen newydd (ni ellir cymharu Bwyd a Chi 2 â Bwyd a Chi nac Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd oherwydd gwahaniaethau yn y fethodoleg). Cyhoeddwyd canfyddiadau gwaith maes cylch 2 (a oedd yn cynnwys cwestiynau ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a diogelwch bwyd) ym mis Gorffennaf 2021. Cyhoeddwyd canfyddiadau cylch 3 (gan gynnwys ffigurau wedi'u diweddu ar gyfer hyder mewn diogelwch bwyd a'r ASB) ar 26 Ionawr 2022. Yng nghylch 3, cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 6,271 o oedolion a 4,338 o gartrefi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau i'w weld isod:

Ffigur 2: Ymwybyddiaeth, ymddiriedaeth a gwybodaeth am yr ASB




¹¹ <https://www.food.gov.uk/cy/research/bwyd-a-chi-2>

Allan o **6,271** o ymatebwyr yng nghylch 3 arolwg Bwyd a Chi 2 i ddefnyddwyr, roedd:



Ffigur 3: Hyder o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd




Fe wnaeth ymatebwyr i gylch 3 (canfyddiadau Ionawr 2022), nodi'r canlynol:

Dywedodd **90%** eu bod yn hyderus bod y bwyd y maent yn ei brynu yn ddiogel i'w fwyta.

Roedd **83%** o ymatebwyr yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir.

Dywedodd **73%** fod ganddyn nhw hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud bod ganddyn nhw hyder mewn ffermwyr (87%), a siopau ac archfarchnadoedd (83%) na safleoedd tecawê (56%), a gwasanaethau dosbarthu bwyd (41%).

Ffigur 4: Hyder o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd

Roedd **83%** yn hyderus bod yr ASB yn diogelu'r cyhoedd rhag risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd.

Roedd **77%** yn hyderus bod yr ASB yn cyfathrebu'n agored â'r cyhoedd ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd.

Dyweddodd **80%** fod ganddyn nhw hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

Gwyddoniaeth a gwyliadwriaeth

Mae ein gwaith gwyliadwriaeth yn galluogi'r ASB i ragweld risgiau a chyfleoedd yn y diwydiant bwyd, sy'n ein galluogi i ymateb mewn modd amserol, gan gefnogi nod yr ASB i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Aethom ati i ddatblygu dull systematig ar draws yr ASB i nodi risgiau bwyd a bwyd anifeiliaid yn effeithiol, ac i nodi effeithiau uniongyrchol gan gynnwys risg ficrobiologol, newidiadau yn agweddu ac ymddygiad defnyddwyr mewn perthynas â bwyd a datblygiadau technegol ym maes cynhyrchu bwyd.

Gwnaethom barhau i weithio tuag at ddarparu system samplu gwyliadwriaeth integredig a model gallu cenedlaethol mwy effeithiol a chynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys:



Datblygu rhaglen waith i ddatblygu ein gallu i ragweld a sganio'r gorwel.



Gwella'r ffordd rydym yn rheoli data i gefnogi'r uchod.



Ein dull o samplu yn y dyfodol.



Mynd i'r afael â'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran labordai bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol y DU.



Gwella'r ffordd rydym yn cyflawni rhaglenni gwyddoniaeth, tystiolaeth ac ymchwil.



Adeiladu ein gallu o ran dadansoddi a mewnwelediad.

Mae hyn yn ei gwneud yn bosib i gasglu ac adolygu data o nifer o ffynonellau amrywiol (o samplu ffisegol i sganio'r gorwel), fel y gellir cymryd camau gweithredu effeithiol a chydgyssylltiedig, mewn modd amserol. Mae hyn yn helpu'r sefydliad i weithredu'n strategol, yn hytrach nag adweithiol, mewn ymateb i fygythiadau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn cynnwys cael digon o gapasiti o ran labordai i ymdrin â digwyddiad mawr yn ymwneud â salwch a gludir gan fwyd neu gynnydd mawr arall yn y galw.

Sganio'r gorwel

Mae'r ASB wedi datblygu ei gallu i ragweld a sganio'r gorwel er mwyn nodi arwyddion o newid, deall tueddiadau allweddol sy'n dod i'r amlwg, nodi risgiau blaenoriaeth a chyfleoedd, a chefnogi timau strategaeth, polisi, gweithrediadau a rheoleiddio i nodi a phrofi opsiynau ac ymatebion.

Cynnydd yn erbyn amcanion

Gwnaethom ddatblygu ein prosesau a systemu ein llifau gwybodaeth a'n prosesau sicrwydd. Trafodwyd mewnwelediadau newydd yn rheolaidd gan dîm trawsbynciol o uwch arweinwyr, dan arweiniad Uned Strategaeth yr ASB. Mewn ymateb, cymerwyd camau a gwnaed penderfyniadau i weithredu ar draws yr adrannau gweithrediadau, polisi, cydymffurfiaeth reoleiddiol a chyfathrebu. Cafodd y mewnwelediadau o waith sganio'r gorwel eu hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd yr ASB, y tîm rheoli gweithredol ac arweinwyr eraill ar draws yr ASB.

Drwy ymarferion adolygu tystiolaeth a blaenoriaethu cychwynnol, nodwyd blaenoriaethau i'w dadansoddi, gan gydweithio'n agos â'r gymuned academaidd a, lle bo'n briodol, y diwydiant. Dyma oedd rhai o'n blaenoriaethau posib ar gyfer adolygu:



Proteinau amgen



Maeth personol



Dyfodol bwyd anifeiliaid



Dyfodol cynhyrchu cig a datblygiadau arloesol yn y diwydiant cig



Gwendidau systemig a ffactorau posib a allai darfu ar y system fwyd

Er yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad, mae'r dull hwn wedi galluogi'r ASB i fod yn fwy ymwybodol o'r darlun llawn. Yr her yn awr yw sicrhau bod gennym yr awydd a'r adnoddau i ymateb i'r risgiau newidiol hyn.

Gwyliadwriaeth strategol a data

Mae gwasanaeth gwyliadwriaeth strategol yr ASB yn datblygu offer a thechnegau i drosi data yn ddeallusrwydd, gan ddefnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial. Mae hyn yn helpu'r ASB a'n defnyddwyr allanol i gymryd camau gweithredu cyflymach, mwy gwylodus i ddiogelu defnyddwyr. Rydym wedi sefydlu gwasanaeth gwyliadwriaeth strategol hyblyg, ymatebol wedi'i alluogi gan ddata sy'n defnyddio pŵer gwyddoniaeth data i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt ddod yn risgiau i iechyd y cyhoedd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data.

Amcanion yn 2021/22

Parhau i ddatblygu offer a thechnegau a fydd yn darparu data perthnasol i bob rhan o'r busnes, gan ganiatâu iddynt gyflawni eu nodau'n effeithiol, mewn ffordd a arweinir gan ddata.

Cynydd yn erbyn amcanion

- Cyflawni gweithgarwch newid busnes i ymgorffori'r atebion i'r drefn 'busnes fel arfer', trwy gefnogi defnyddwyr i fabwysiadu datrysiau, casglu adborth, a chynnal ôl-groniadau ceisiadau ar gyfer pob gwasanaeth.
- Cyflwyno dull moeseg i'n holl weithgareddau deallusrwydd artiffisial (AI), gan gynnwys dysgu peiriant a dysgu dwfn.
- Sefydlu proses systematig ac ailadroddus ar gyfer nodi achosion defnydd, cynnal digwyddiadau 'hackathon', ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid.
- Gwella pensaernïaeth data, llywodraethu a chyflwyno dangosfyrddau a safonau data i sicrhau bod cysondeb wrth adrodd. Yn ogystal, rydym wedi trosglwyddo i amgylchedd cwmwl sy'n safoni'r ffordd rydym yn casglu, storio a delweddu data.

Isod, rhestrir rhai o'r adnoddau a'r technegau rydym wedi'u datblygu.

Y Dangosfwrdd Blaenorïaethu Signalau (SPD): Gwnaethom ddatblygu SPD, sef rhaglen sganio'r gorwel tymor byr. Roedd yn cydgrynhau signalau sy'n gysylltiedig â deunydd bwyd, bwyd anifeiliaid a deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd o dros 48 o ffynonellau agored bob dydd yn un pwynt mynediad. Roedd hefyd yn rhoi tryloywder a rheolaeth lwyf i ddefnyddwyr dros y ffynonellau data a'r rhesymeg a ddefnyddir i flaenorïaethu signalau. Roedd yn gwella yn sylweddol ein trosolwg o faterion diogelwch bwyd a allai effeithio ar y DU. Roedd yr SPD ar restr fer gwobrau Ffederasiwn Bwyd a Diod 2021 yn y categori Trawsnewid Digidol.

Roedd yr SPD yn lleihau ein dibyniaeth ar systemau trydydd parti ac yn arwain at arbedion blynnyddol sylweddol. Roeddym hefyd wedi gweld achosion lle mae'r SDP wedi adrodd am signalau wythnos cyn systemau trydydd parti eraill. Roedd cael yr hysbysiad cynharach hwn yn amhrasiadwy i'r rhai sy'n dadansoddi materion a thueddiadau strategol, tactegol a gweithredol, ac i'r rhai sy'n trefnu ymyriadau. Roedd yr SPD wedi profi ei fod yn un o'r arfau allweddol yn ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau mawr fel Ymadael â'r UE a COVID-19. Ers mis Mawrth 2013, roedd yr SPD wedi cofnodi dros 77 mil o gofnodion, sy'n hwyluso gwaith dadansoddi tueddiadau gwerthfawr.

Isod, gellir gweld sut mae'r tîm RaM yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir gan yr SPD:

Gwnaeth ein swyddogaeth derbyn a rheoli newydd brosesu dros 12 mil o signalau



Nodwyd **27** o ddigwyddiadau newydd.



99 o atgyfeiriadau i awdurdodau lleol.



Cafodd **371** o signalau pellach eu trosglwyddo hefyd er gwybodaeth yn unig.



Nodwyd **9** risg sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft listeria mewn madarch enoki o Asia, a chanfuwyd cyfradd diffyg cydymffurfio o 90%.

Dangosfwrdd Tebygolrwydd Risg (RDL): Mae'r dangosfwrdd yn nodi nwyddau risg uchel sy'n cael eu mewnflio i'r DU. Mae'r dangosfwrdd hwn wedi helpu i gyflwyno gwybodaeth gymhleth am fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n peri 'risg', mewn ffordd ddealladwy ac mae'n tynnu sylw at risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid posib a rhai sy'n dod i'r amlwg yn nhermau nwydd, gwlaid tarddiad a pheryglon. Defnyddir y dangosfwrdd gan nifer mawr o dimau'r ASB, gan gynnwys y timoedd Mewnflio, Digwyddiadau, a'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae Safonau Bwyd yr Alban a 150 o awdurdodau ieichyd porthladdoedd ac awdurdodau lleol ledled y wlad hefyd yn defnyddio'r dangosfwrdd. Mae mewnbwn o'r dangosfwrdd wedi cyfrannu at y cynllun samplu bwyd wedi'i fewnffolio ac wedi helpu i gynyddu'r gymhareb llwyddo (hit rate) o ran diffyg cydymffurfiaeth mewn nwyddau a samplwyd o 60% ar gyfartaledd. Y dangosfwrdd oedd yn un o'r ffynonellau ar gyfer arolwg samplu ar sail Mewnfliorion yr ASB, a gynhalwyd rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Gyda mewnbynnau o'r dangosfwrdd, cynyddodd y gymhareb llwyddo o ran diffyg cydymffurfiaeth o 132% ar gyfer y nwyddau a samplwyd.

Arddangos sgoriau hylendid bwyd ar-lein: Un o nodau'r ASB yw ymestyn gofynion Cymru a Gogledd Iwerddon i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n gweithredu yn Lloegr arddangos sgoriau hylendid bwyd, ac i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau ar-lein ym mhob un o'r tair gwlaid eu harddangos. Ymgynherwyd â'r prosiect hwn i gefnogi'r gofyniad i arddangos y sgoriau ar-lein a gorfodi hynny, drwy ddarparu mewnwlediad i arferion cyfredol. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwilio hwn yn helpu'r ASB i foderneiddio rheoliadau yn y dyfodol.

Monitro bwyd risg uchel: Gan ragweld y dirwedd ar ôl cyfnod pontio'r UE, mae gwaith wedi parhau i gryfhau ein gallu i nodi risgiau drwy adeiladu ar fecanweithiau profedig (fel monitro ffynonellau data allweddol). Mae'r ASB wedi creu datrysiaid ar gyfer monitro nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid a gaiff eu mewnflio heb awdurdod mewn porthladdoedd penodol, gan ddechrau gyda Dover. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei ymestyn i borthladdoedd eraill.

Adnodd rhagfynegi dysgu peirianyddol y Cyllun Sgorio Hylendid Bwyd: Fel rhan o'r cynllun adfer COVID-19 ar gyfer awdurdodau lleol, cafodd y gwasanaeth hwn ei ddylunio a'i ddatblygu gyda'r nod o leddfu'r baich cynyddol ar awdurdodau lleol yn sgil arolygiadau newydd, drwy ragfynegi lefelau cydymffurfio disgwyliedig ymhlið sefydliadau newydd, gan helpu awdurdodau i flaenoriaethu arolygiadau. Cafodd y prosiect hwn ei dreialu gan 16 o awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Dynodwr bwyd anifeiliaid awtomataidd (AFI): Ar ran y tîm Cydymffurfiaeth Rheoleiddio, cafodd adnodd awtomataidd ‘dynodwr bwyd anifeiliaid awtomataidd’ ei greu gyda’r bwriad o leihau’r angen i ganfod y nwyddau bwyd anifeiliaid a restrir yn y manifestau â llaw, a thrwy hynny wella’r modd y caiff rheolaethau swyddogol eu cynnal, cefnogi defnydd effeithlon o adnoddau, a lleihau rhwystriad masnach. Wrth ddefnyddio’r adnodd, roedd modd chwilio drwy ddogfennau maniffest, ac roedd yn amlygu termau bwyd anifeiliaid ar y manifestau eu hunain. Rydym hefyd wedi gwella perfformiad yr adnodd (o gymharu â'r fersiwn flaenorol) o ran yr amser y mae'n ei gymryd i brosesu dogfen. Roedd adborth gan awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r prosiect hwn yn awgrymu ei bod yn cymryd tua awr, ar gyfartaledd, i fynd trwy dogfen 100 tudalen â llaw.

Nodweddion datrysiaid MVP AFI: amseroedd perfformiad

Nifer y tudalennau	Amser y system flaenorol	Amser y system newydd
1	34 eiliad	<3 eiliad
12	2 funud	16 eiliad
23	5 munud	30 eiliad
100	22 munud	2.5 munud

Dadansoddiad perfformiad awdurdodau lleol: Gwnaethom gynllunio cyfres o batrymau a phrosesau y gellir eu hailddefnyddio i dderbyn, glanhau, dadansoddi ac adrodd ar wybodaeth yn rheolaidd mewn perthynas â pherfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd awdurdodau lleol yn erbyn y cynllun adfer a thargedu cymorth amserol i'r meysydd lle mae'r angen mwyaf. Cwblhawyd arolygon ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf a gwnaethom ddechrau defnyddio'r data a gasglwyd i ddatblygu dadansoddiad o dueddiadau er mwyn monitro perfformiad awdurdodau lleol dros amser. Yn ogystal, parhaodd yr ASB i'w gwneud yn haws i awdurdodau lleol gwblhau'r arolwg. Cyflwynwyd dolenni e-bost unigol ar gyfer awdurdodau lleol, fel ffordd o osgoi dyblygu ymatebion a chynyddu nifer yr ymatebion cynharach.

Cofrestr o gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig: Mae'r ASB wedi datblygu gwasanaeth sy'n dwyn ynghyd yr holl ddefnyddiau awdurdodedig o gynhyrchion rheoleiddiedig ym Mhrydain Fawr. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ffurf dameidiog, mewn amrywiol gronfeydd data, rhestrau a darnau o ddeddfwriaeth. Roedd yr ASB am gyhoeddi'r wybodaeth hon mewn ffordd fwy cydlynol, mewn fformat sydd wedi'i safoni ac sy'n haws chwilio drwyddi. Defnyddir y gofrestr gan amrywiaeth o randdeiliaid y diwydiant a llywodraeth leol. Roedd yr ASB hefyd yn gallu defnyddio'r un dechnoleg i gyhoeddi'r rhestr CBD gyhoeddus¹² o geisiadau diliys yn gyflym. Gwnaethom gyhoeddi 4 cofrestr ar gyfer awdurdodiadau sy'n ymwneud ag ychwanegion bwyd anifeiliaid (1,579 o awdurdodiadau), GMOs (234), cyflasynnau (2,499) a chyflasynnau mwg (10). Gwnaethom hefyd gyhoeddi rhestr o 12,117 o gynhyrchion CBD y mae cais wedi'i gyflwyno ar eu cyfer, sy'n hysbysu awdurdodau lleol, busnesau a defnyddwyr pa gynhyrchion sydd wedi mynd rhagddynt i gael eu cymeradwyo, a pha rai sydd wedi methu â chwblhau'r broses gymeradwyo.

¹² <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/cynhyrchion-cbd-syn-gysylltiedig-a-cheisiadau-bwyd-newydd>

Samplu

Mae gwaith samplu a dadansoddi dilynol yn sail i waith yr ASB a sefydliadau eraill, fel awdurdodau lleol ac awdurdodau ieichyd porthladdoedd, wrth iddynt gynnal diogelwch a diliysrwydd y gadwyn cyflenwi bwyd. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwiriadau mewnflio a sicrhau bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae'n cyflawni swyddogaeth hanfodol fel rhan o'n system gwyliadwriaeth strategol – gan ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth am ddiogelwch a diliysrwydd bwyd a bwyd anifeiliaid ar farchnad y DU. Mae hyn yn cefnogi camau gorfodi i ddiogelu defnyddwyr ac yn galluogi'r ASB i fodloni ei rhwymedigaethau statudol fel rheoleiddiwr.

Amcanion ar gyfer 2021/22



Gwyliadwriaeth wedi'i thargedu – profi nwyddau penodol am beryglon, sy'n rhan o waith yr ASB i ystyried risgau sy'n dod i'r amlwg. Mae penderfyniadau ynghylch pa nwyddau/beryglon i'w targedu yn seiliedig ar wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau.



Rheolaethau Swyddogol (samplu gorfodi) – a gynhelir gan awdurdodau lleol ond a ariennir gan yr ASB fel rhan o ddull samplu wedi'i gyfeirio, a allai fod oherwydd canlyniadau anffafriol o samplu wedi'i dargedu sy'n arwain at gamau gorfodi.



Monitro rheoleiddio – monitro cydymffurfiaeth â safonau rheoleiddio rhagnodedig.



Samplu i lywio gwyddoniaeth a pholisi – cynhelir y gwaith hwn, yn canolbwytio ar bwnc penodol fel arfer, i wella ein gwybodaeth. Er enghraift, i lywio asesiadau risg neu bolisi.

Cynnydd yn erbyn amcanion

Nodwyd amcanion yr ASB ar gyfer samplu ym mhapur Bwrdd yr ASB¹³. Roedd hyn yn nodi dull yr ASB o samplu yn y dyfodol, gan ganolbwytio ar wella effaith samplu a'r gwerth am arian a gynigir ganddo trwy sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu llywio gan weithgareddau gwyliadwriaeth a gwybodaeth.

Fel rhan o grŵp samplu trawslywodraethol yr ASB, gwnaethom ddatblygu prosesau mewnol ar gyfer blaenoriaethu, a gwella'r ffordd y caiff canlyniadau samplu eu rhannu trwy ddefnyddio technoleg ddigidol fel y Dangosfwrdd Tebygolrwydd Risg. Mae'r dull gweithredu targeddedig a chydgyssylltiedig hwn ar gyfer samplu gwyliadwriaeth yn yr ASB, ac ar draws y llywodraeth, yn atal dyblygu gweithgarwch samplu. Yn ogystal, gwnaethom gynnal ymchwil ar ddulliau rhyngwladol o samplu, creu canllawiau mewnol ar gynnal gwaith samplu, a drafftio safonau data mewnol ar gyfer cofnodi canlyniadau samplu.

¹³ <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/cyhoeddi-papurau-cyfarfod-bwrdd-yr-asiantaeth-safonau-bwyd-ar-gyfer-mis-tachwedd-2020>

Canlyniadau samplu

Crynodeb



£3,322,409

Cyfanswm gwariant



11,065

Samplau wedi'u profi



245

Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Gwyliadwriaeth wedi'i thargedu



£940,432

Cyfanswm gwariant



4,070

Samplau wedi'u profi



147

Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Casgliadau

Gwnaeth y canlyniadau helpu i nodi meysydd risg i fwyd o'r wybodaeth a ddaeth i law. Aseswyd canlyniadau'r achosion o ddiffyg cydymffurfio, a chymerwyd camau dilynol a oedd yn cynnwys rhannu canlyniadau â rhanddeiliaid allweddol i wella/ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio a, lle bo'n briodol, ymgorffori'r bwydydd hyn mewn Rheolaethau Swyddogol (samplu gorfodi).

Cyfrannodd y dull 'basged o fwyd' a oedd wedi'i gynnwys yn yr arolwg gwyliadwriaeth manwerthu wedi'i thargedu at adroddiad ar y cyd rhwng yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, Ein Bwyd 2021: Adolygiad blynnyddol o safonau bwyd ledled y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022¹⁴. **Mae'r gyfradd gydymffurfio o 89% yn rhoi hyder rhesymol mewn safonau bwyd, ond yn amlygu'r angen am fonitro parhaus.**

Rheolaethau Swyddogol (samplu gorfodi)



£517,446

Cyfanswm gwariant



1,566

Samplau wedi'u profi



55

Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Casgliadau

Darparodd gwaith samplu wedi'i gyfeirio a gynhelir gan awdurdodau lleol gyllid ar gyfer samplu Rheolaethau Swyddogol (y mae cyllid ar ei gyfer yn isel), cynnal galluoedd samplu, wrth sicrhau bod hyn yn dargededig ac yn seiliedig ar wybodaeth fel canlyniadau gwyliadwriaeth wedi'i thargedu. Gwnaed y defnydd gorau o adnoddau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod bwyd yn ddiogel/yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae canlyniadau wedi arwain at ganllawiau i fusnesau, ymchwiliadau pellach a chamau gorfodi. Er enghraifft, **cafwyd erlyniadau llwyddiannus yn sgil gwaith samplu a ariannwyd gan yr ASB yn 2021, a hynny mewn perthynas â llaeth heb ei ddatgan mewn prydau tecawê bwyd Indiaidd yng Nghymru.**

14 <https://www.food.gov.uk/cy/our-work/rhagair>

Monitro rheoleiddiol



Casgliadau

Mae samplu pysgod cregyn a dŵr cysylltiedig yn caniatáu ar gyfer dosbarthu gwelyau, gan sicrhau bod pysgod cregyn yn cael eu prosesu ar y lefel gywir a'u bod yn ddiogel i'w bwyta. Mae hefyd yn atal cynaeafu o welyau â lefelau annioedd o biotocsinau morol a ffytoplancton.

Mae'r rhaglen monitro radiolegol flynyddol yn gwirio nad yw gollyngiadau ymbelydrol o safleoedd niwclear y DU yn dod i gysylltiad â'n bwyd.

Dangosodd yr adroddiad ar gyfer 2020 fod dosau i'r cyhoedd o bob ffynhonnell sy'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd artifisiaid, yn is na'r terfyn dos cyfreithiol.

Samplu i lywio gwyddoniaeth a pholisi



Casgliadau

Cynhelir rhai arolygon yr ASB yn benodol i lywio asesiadau risg a pholisi'r ASB, yn unol â'n hegwyddorion arweiniol, sef ein bod yn cael ein harwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth. Maent hefyd yn llywio gwaith ein pwylgorau gwyddonol.

Er enghraift, cyfrannodd canlyniadau arolwg a ddadansoddodd atchwanegiadau tyrmerig yn gemegol ar farchnad y DU at bapur y Pwyllgor Tocsicoleg ar risg y cynhyrchion hyn i iechyd pobl, a bydd yn cefnogi cyngor ar ddiogelwch yn y dyfodol.

Dyfodol labordai bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol y DU

Mae Labordai Swyddogol yn cynnal profion dadansoddol ar samplau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan alluogi gwiriadau statudol ar fewnforion ar gyfer awdurdodau lleol. Mae gallu profi dadansoddol y DU wedi lleihau yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, ac yn dilyn ein hymadawiad â'r UE, rydym wedi colli mynediad at Labordai Cyfeirio'r UE, sy'n datblygu dulliau dadansoddol ac a arferai rannu gwybodaeth â'r DU.

Amcanion ar gyfer 2021/22

- Datblygu'r Fframwaith Labordy Swyddogol, sy'n nodi dull yr ASB yn y dyfodol o sicrhau bod gan y DU fynediad at y gallu profi sydd ei angen arni.

Cynnydd yn erbyn amcanion

- Wedi comisiynu astudiaeth achos ryngwladol o systemau samplu a labordai gwledydd eraill.
- Wedi cynnal dadansoddiad economaidd mewnol o'r opsiynau ar gyfer modelau labordai posib yn y dyfodol.
- Wedi rhoi mwy o gymorth a chyllid i Labordai Cyfeirio Cenedlaethol yn dilyn cyfnod pontio'r UE, yn enwedig wrth ddatblygu dulliau dadansoddi.
- Wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol a labordai ar y system bresennol.
- Wedi gweithio ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban wrth iddynt adolygu eu system Labordai Swyddogol i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'n modelau yn y dyfodol.

Parhawyd i ddefnyddio'r mewnwelediadau hyn i ddatblygu'r fframwaith, a fydd yn nodi opsiynau posib yn y dyfodol ar gyfer model y system Labordai Rheolaethau Swyddogol (OCL). Cafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2022, ac yn sgil hyn, bydd y gwaith gweithredu yn dechrau yn 2022/23.

Ymchwil a thystiolaeth

Mae gwyddoniaeth yn rhan annatod o'n gwaith. Rydym yn parhau i roi gwyddoniaeth wrth wraidd popeth a wnawn i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y sefydliad, ac eraill, yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn. Mae'r ASB yn parhau i fod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan wyddoniaeth.

Er mwyn sicrhau bod gan y DU drefniadau rheoleiddio bwyd effeithiol ar waith ar ôl ymadael â'r UE, rydym wedi buddsoddi mewn proses dadansoddi risg newydd 'o'r safon uchaf (*best in class*)'. Wrth wraidd hyn y mae gallu asesiad risg estynedig a gwell, wedi'i ddylunio i ddisodli'r asesiad risg a ddarperir ar hyn o bryd trwy Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA).

Amcanion ar gyfer 2021/22



Sicrhau bod dadansoddi
risg yn gweithio



Meithrin rhagoriaeth
wyddonol



Bod yn barod ar
gyfer y dyfodol




Tyfu ein dylanwad
a'n heffaith

Gwariant ar wyddoniaeth

Rydym wedi buddsoddi mwy yn ein gallu, sydd wedi ein galluogi i gyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol sydd wedi codi yn sgil ymadael â'r UE, ac adeiladu swyddogaeth ymchwil fwy strategol.

£16.6 miliwn yw'r cyfanswm a wariwyd ar wyddoniaeth, tystiolaeth ac ymchwil yn 2021/22, o gymharu â £10.2 miliwn yn 2020/21. Mae hyn yn golygu bod gwariant ar wyddoniaeth yn cyfrif am **12.7%** o Wariant Net Blynnyddol yr ASB, sy'n gynnydd o gymharu â blynnyddoedd blaenorol.


Ffigur 5: Gwariant ar wyddoniaeth



Cynnydd yn erbyn amcanion

- Wedi cynyddu nifer y staff ym maes gwyddoniaeth dros 40% yn ystod y cyfnod adrodd, gan sicrhau capasiti a gallu er mwyn parhau i ddarparu rhagoriaeth wyddonol.
- Wedi cyflawni'r swyddogaeth asesu risg ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid yn y flwyddyn gyntaf ar ôl y cyfnod pontio, ar gyfer meysydd gwaith a gyflawnwyd yn flaenorol a'r gofynion newydd o ran cefnogi awdurdodiadau ar gyfer masnach a chynhyrchion rheoleiddiedig i'w rhoi ar farchnad Prydain Fawr. Nid yw effeithiau cyfunol y pandemig COVID-19 a gweithio ar wahân i'r UE wedi effeithio ar allu'r ASB i gynnal asesiadau risg ar gyfer digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- Wedi creu a gwreiddio 11 rhaglen ymchwil a thystiolaeth effeithiol er mwyn darparu gwyddoniaeth a thystiolaeth o safon mewn ffordd effeithlon, tryloyw ac wedi'i blaenoriaethu.
- Wedi cyhoeddi tua 60 o adroddiadau gwyddonol a gynhyrchwyd fel rhan o'n raglenni ymchwil, gan gynnwys 6 chyfnodolyn a adolygydd gan gymheiriad.
- Arwain ar y rhaglen ymchwil PATH-SAFE drawslywodraethol (manylion isod).

Ffigur 6: dosbarthiad o wariant ar draws rhaglenni ymchwil a thystiolaeth yr ASB



Dadansoddi risg

Cyflawnir ein gwaith ar asesu risg yng nghyd-destun y broses dadansoddi risg. Gallwch ddod o hyd i fanylion am y broses hon yn yr adran dadansoddi risg ar dudalen 42 a'r adran Cynhyrchion Rheoleiddiedig ar dudalen 51. Yn y flwyddyn adrodd, gwnaethom gyflawni'r canlynol:

- Cynyddu ein gallu i ymateb i'r galw cnyddol am ein gwasanaeth, a hynny o ran ein staff a gweithio gydag arbenigwyr drwy ein pwylgorau cynghori.
- Gwneud yn siŵr bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn ac effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn mynd i'r afael â chwestiynau rheoli risg mewn modd cymesur ac amserol.

- Mynd ati'n barhaus i wella ein prosesau asesu cynhyrchion rheoleiddiedig i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i fodloni blaenoriaethau'r ASB yn y maes hwn.

PATH-SAFE – Mae'r rhaglen ymchwil Cronfa Canlyniadau a Rennir (SOF) gwerth £19.2 yn rhaglen Gwyliadwriaeth ar Bathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd ([PATH-SAFE¹⁵](#)) sydd â'r nod o ddatblygu rhwydwaith gwyliadwriaeth genedlaethol, gan ddefnyddio'r dechnoleg dilyniannu DNA ddiweddaraf a samplu amgylcheddol i wella'r gwaith o ganfod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) trwy'r system bwyd-amaeth gyfan. Bydd llwyfan data newydd wrth wraidd y rhwydwaith 'rhithwir' hwn a fydd yn caniatáu dadansoddi, storio a rhannu dilyniant pathogenau a ffynonellau data, a gesglir o sawl lleoliad ledled y DU gan lywodraethau amrywiol a sefydliadau cyhoeddus. Mae'r rhaglen yn cynnwys astudiaethau peilot ledled pedair gwlad y DU, gyda pherthnasoedd gwaith cryf yn datblygu a chynigion yn cael eu paratoi ar draws yr holl weinyddiaethau. Bydd y system ddata sengl, hawdd ei defnyddio hon yn ei gwneud yn bosibl i adnabod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd ac AMR yn gyflym, gan wella iechyd y cyhoedd, a lleihau effaith economaidd ac amgylcheddol briгадau o achosion.

Dechreuodd y rhaglen yn 2021 ar ôl oedi cychwynnol. Cynhalwyd mesurau reciwtio ar dimau prosiect (rheoli technegol a rheoli prosiectau) ar draws yr holl sefydliadau partner, ynghyd â gweithgareddau caffael yn yr holl ffrydiau gwaith. Sefydlwyd ein Byrddau Cynghori, a rhoddwyd ein gweithdrefnau llywodraethu, y Bwrdd Cyflawni a'r Bwrdd Strategol ar waith. Ymgymeroedd y rhaglen â chyfleoedd ymgysylltu i ddatblygu ein sylfaen rhanddeiliaid ar draws y byd academaidd, y llywodraeth, busnesau a'r sector gwirfoddol. Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022, gwnaethom ganolbwytio ar weithgareddau cwmpasu ar draws y rhaglen i gyflawni ein pedair ffrwd waith.

Nodau'r ffrydiau gwaith



Sefydlu llwyfan data genomig cenedlaethol wedi'i guradu ar gyfer clefydau a gludir gan fwyd.



Datblygu seilwaith peilot ar gyfer gwaith samplu aml-leoliad rheolaidd ar gyfer pathogenau clefydau a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd yn yr amgylchedd bwyd-amaeth.



Deall dichonoldeb defnyddio diagnosteg gludadwy fel offer archwilio.



Datblygu system beilot ar gyfer Gwyliadwriaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd amgylcheddol.

15 www.food.gov.uk/research/path-safe

Dadansoddi a mewnwelediadau

Gwnaethom barhau i feithrin ein gallu i ddadansoddi a'n mewnwelediadau, gan sicrhau bod tystiolaeth dda yn sail i'n penderfyniadau yn ein gwaith ac mewn polisi bwyd ehangach, yn ogystal â meithrin gallu'r ASB ym maes gwyddoniaeth. Mae gennym rôl unigryw fel y rhan o'r llywodraeth sy'n gofalu am buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, ac mae gennym gyfrifoldeb democrataidd dros y buddiannau hynny. Wrth i ni geisio deall buddiannau defnyddwyr, mae angen i ni weld y darlun mawr a'r manylion lleiaf, er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr a gallu dehongli'r dystiolaeth hon yn ofalus.

Amcanion ar gyfer 2021/22



Cefnogi dadansoddi risg trwy fwydo tystiolaeth yn uniongyrchol i waith polisi a'n gwaith modelu risg fel sail i benderfyniadau am sbardunau, effeithiau a chanlyniadau, gyda dadansoddwyr yn gweithio'n agos gyda thimau ar draws yr ASB.



Cryfhau ein hymatebion trwy ddeall safbwytiau defnyddwyr yn gyflym ac adeiladu ein galluoedd o ran mewnweladau ymddygiadol trwy adolygiadau a threialon, cyhoeddi adroddiadau ar ddiogelwch bwyd ac ar newid deiet cynaliadwy iach, gweithio'n agos gydag eraill mewn cymdeithas sifil, a chynnal astudiaethau arloesol a arsylwyd a fydd yn ein helpu i gau'r bwlc 'dweud-gwneud' a chael tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.



Cefnogi buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gan gynnwys fforddiadwyedd, iechyd, cynaliadwyedd a lles anifeiliaid trwy ddarparu dadansoddiad rhngddisgyblaethol, gan gynnwys asesiad o effaith ar y gymdeithas a'r economi, a'r ffactorau cyfreithlon sy'n berthnasol i reoli risg.

Cynnydd yn erbyn amcanion



Cefnogi dadansoddi risg trwy fwydo tystiolaeth yn uniongyrchol i waith polisi a'n gwaith modelu risg fel sail i benderfyniadau am sbardunau, effeithiau a chanlyniadau, gyda dadansoddwyr yn gweithio'n agos gyda thimau ar draws yr ASB.

- Dulliau dadansoddi penderfyniadau gan ddefnyddio sawl maen prawf er mwyn rhestru tri ar ddeg o bathogenau a gludir gan fwyd yn nhrefn eu heffaith andwyol ar gymdeithas y DU.
- Astudiaeth fanwl o'r hyn sy'n gwella ac yn amharu ar ansawdd bywyd pobl â gorsensitifrwydd i fwyd.
- Dadansoddi achosion o dorri rheolau mewn perthynas â lles anifeiliaid er mwyn cefnogi rhaglen lles anifeiliaid yr ASB ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a sicrhau gwelliannau parhaus mewn lladd-dai yng Nghymru a Lloegr.
- Treialon ar sail ymddygiad ac adolygiadau tystiolaeth ar ddewisadau iachus a mwy cynaliadwy i ddefnyddwyr.



Cryfhau ein hymatebion trwy ddeall safbwytiau defnyddwyr yn gyflym ac adeiladu ein galluoedd o ran mewnweliadau ymddygiadol trwy adolygiadau a threialon, cyhoeddi adroddiadau ar ddiogelwch bwyd ac ar newid deiet cynaliadwy iach, gweithio'n agos gydag eraill mewn cymdeithas sifil, a chynnal astudiaethau arloesol a arsylwyd a fydd yn ein helpu i gau'r bwlch 'dweud-gwneud' a chael tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

- Cylchau newydd o'r arolwg Bwyd a Chi 2, ein harolwg ymchwil cymdeithasol blaenllaw ar agweddau ac ymddygiadau defnyddwyr, a ddefnyddir yn eang ar draws yr ASB, y llywodraeth a chymdeithas sifil.
- Cynnal sgyrsiau â'r cyhoedd i ddeall ymwybyddiaeth defnyddwyr o fwydydd sydd wedi bod yn destun golygu genomau a'u hagweddau tuag atynt, gan lywio ymgynghoriad Defra ar y mater.
- Adolygiad o sut mae gwyddoniaeth dinasyddion wedi'i chymhwys i broblemau bwyd, gan gefnogi cynlluniau peilot parhaus ar y cyd â UK Research and Innovation (UKRI).



Cefnogi buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gan gynnwys fforddiadwyedd, iechyd, cynaliadwyedd a lles anifeiliaid trwy ddarparu dadansoddiad rhyngddisgyblaethol, gan gynnwys asesiad o effaith ar y gymdeithas a'r economi, a'r ffactorau cyfreithlon sy'n berthnasol i reoli risg.

- Ymchwil gyda defnyddwyr i ddeall eu disgwyliadau o fodolau cyflawni gweithrediadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu defnyddio i lywio eu datblygiad parhaus, a sicrhau eu bod yn bodloni disgwyliadau defnyddwyr.
- Ystadegau misol ar ddiffyg diogeledd bwyd yn y cartref, ymddygiadau prynu bwyd, arferion bwyd yn y cartref, ymddygiadau maeth, diogelwch a hylendid bwyd yn y cartref, a phryderon defnyddwyr am fwyd yn ystod COVID-19.

Proses dadansoddi risg

Dadansoddi risg yw'r broses o asesu, rheoli a chyfathrebu risgiau diogelwch ym maes bwyd a bwyd anifeiliaid. Dyma sut rydym yn sicrhau bod y DU yn cynnal safonau uchel o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ac yn diogelu defnyddwyr trwy nodi ac asesu risgiau, gan ddarparu canllawiau i liniaru yn eu herbyn. Ers 1 Ionawr 2021, mae'r ASB (ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban) wedi bod yn gyfrifol am lawer o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA).

Amcanion ar gyfer 2021/22

Nod y broses dadansoddi risg yw:

- rhoi hyder bod cyngor yr ASB yn diogelu iechyd y cyhoedd
- ystyried buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd
- sicrhau bod y broses yn cael ei llywio gan wyddoniaeth a thystiolaeth
- bod yn annibynnol

Ein hamcan ar gyfer 2021/22 oedd mireinio gweithdrefnau gweithredol manwl sy'n sail i'r broses er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori'n llawn yn ein gwaith.

Cynnydd yn erbyn amcanion

Mae'r ASB yn dilyn fframweithiau a gydnabyddir yn fydd-eang ar gyfer dadansoddi risg. Gellir gweld camau'r broses dadansoddi risg ar y diagram llif¹⁶ a gyhoeddwyd gennym. Cymhwyswyd ein dull dadansoddi risg fel rhan o broses newydd y DU o gynghori gweinidogion y llywodraeth ar awdurdodi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig¹⁷.

Cafodd y Bwrdd adroddiadau rheolaidd am faterion sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd trwy'r broses dadansoddi risg. Ceir tri chategori cyffredinol sy'n ymwneud â materion o fewn y broses dadansoddi risg:

'Pennu ein tasg ein hunain'

Lle mae'r ASB yn nodi mater diogelwch bwyd neu fwyd anifeiliaid i'w ystyried.

'Gofyniad allanol'

Lle mae Gweinidogion neu swyddogion mewn rhannau eraill o'r llywodraeth yn gofyn i'r ASB ddarparu asesiad risg a/neu gyngor rheoli risg.

Cynhyrchion rheoleiddiedig

ar gyfer categorïau penodol o fwyd a bwyd anifeiliaid y mae'n rhaid iddynt ddilyn proses awdurdodi a nodir mewn deddfwriaeth.


¹⁶ www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-risk-analysis-flowchart.pdf

¹⁷ <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/rhoi-cynnyrch-ar-y-farchnad>

Yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, gwnaethom gyflawni'r canlynol:

- Dechreuwyd ar waith dadansoddi risg yn ymwneud â: haligion cemegol Deuocsin a Deuffenylau Polyclorinedig (PCB); Sylweddau Alcyl Poly-flworinedig (PFAS); a diogelwch Titanium Deuocsid (E 171) fel ychwanegyn bwyd. Gwnaethom gwblhau adolygiad o reolaethau radiolegol ar fewnforion o Japan yn dilyn digwyddiad niwclear Fukushima.
- Wedi cael dau gais gan Defra i ddarparu asesiad risg a chyngor iechyd y cyhoedd i gefnogi datblygiad polisi ffiniau yn y dyfodol.
- Wedi datblygu gwaith ar **420** o geisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig.

I gefnogi ein hymrwymiad i ddadansoddi risg tryloyw, gwnaethom gyhoeddi a diweddar dwy gofrestr yn rheolaidd a oedd yn nodi'r ceisiadau a gyflwynir ar gyfer ein gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig a'r materion a oedd yn mynd trwy'r broses dadansoddi risg. Yn ogystal, gwnaethom gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar y canlynol:



Gwnaethom ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth helaeth i'r diwydiant yn y cyfnod cyn lansio'r Gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig, gan gynnwys cyfres o weminarau. Gwnaethom ddarparu cefnogaeth cyn ymgeisio a chyfleoedd i gwmniau sy'n gwneud ceisiadau am gynhyrchion CBD fynegi barn, ac rydym yn parhau i gyfathrebu â'r diwydiant.

O dan Fframweithiau dros dro y DU a'n proses dadansoddi risg, mae gennym fecanweithiau fel gweithgorau trawslywodraethol ar waith i alluogi dull pedair gwlad. Mae hyn er mwyn i ni allu cynnal ymyriadau rheoli risg sy'n effeithiol ar gyfer y DU gyfan neu ar gyfer gwledydd unigol yn unol â'r angen. Mae Fframweithiau'r DU yn cynnwys trafodaethau rhwng gweinidogion ar benderfyniadau os oes angen.

O dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i Ogledd Iwerddon gydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE, gan arwain at drefniadau rheoleiddio gwahanol yng Ngogledd Iwerddon nag yng ngweddill y DU. Gwnaethom barhau i ystyried buddiannau defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, gan dderbyn y bydd y protocol yn cyfyngu ar y penderfyniadau y gellir eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon, mewn perthynas â chanlyniadau dadansoddiadau risg y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am gynhyrchion rheoleiddiedig, darllenwch yr adran 'Cynhyrchion Rheoleiddiedig' isod.

Cefnogi arloesedd yn y diwydiant bwyd

Ers i'r DU ymadael â'r UE, yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban sy'n gyfrifol am asesu cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig yn y DU. Byddwn yn adolygu'r prosesau awdurdodi ac yn chwilio am gyfleoedd i ddiwygio er mwyn ein galluogi i ymateb yn well i heriau fel datblygiadau newydd ym maes technoleg a newidiadau yn y galw gan ddefnyddwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd yr ASB yn comisiynu adolygiad o'r fframwaith rheoleiddio bwydydd newydd. Bydd hyn yn gwerthuso'r fframwaith cyfredol ac yn datblygu cynigion ar gyfer modelau a dulliau newydd. Bydd yn rhan o raglen ddiwygio ehangach sy'n edrych ar gyfleoedd i gael gwared ar faich diangen prosesau awdurdodi, cefnogi arloesedd yn y diwydiant bwyd a darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf wrth gynnal safonau bwyd.


Diogelu buddiannau defnyddwyr a chynnal safonau bwyd fydd ein prif flaenorïaeth bob amser wrth wneud unrhyw newidiadau arfaethedig i greu system dryloyw ac effeithiol, a honno'n system orau'r byd ar gyfer arloeswyr, buddsoddwyr a defnyddwyr.

Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd


Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yn gweithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynllun yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am safonau hylendid busnesau bwyd adeg yr arolygiadau gan awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn berthnasol i fusnesau sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, fel bwyta, siopau tecawê, archfarchnadoedd ac ysbytai. Yng Nghymru, mae gweithrediadau busnes-i-fusnes, fel gweithgynhyrchwyr, hefyd wedi'u cynnwys.

Gan fod y CSHB yn cael ei ategu gan waith arolygu awdurdodau lleol, roedd effeithiau ar arolygiadau yn ystod y pandemig (fel y trafodwyd yn adran gwaith gweithredu awdurdodau lleol ar dudalen 53 a'r adran adfer yn sgil COVID-19 ar dudalen 14) wedi effeithio ar y CSHB. Roedd yr effeithiau hyn yn cynnwys sgoriau'n aros yn eu lle am hirach a dyddiadau arolygu'r sgoriau yn hŷn. Bu cynydd hefyd yn nifer y busnesau sy'n 'aros am arolygiad' wrth i nifer y busnesau newydd a oedd yn cofrestru gynyddu. Ym mis Mai 2021, cytunodd Bwrdd yr ASB ar Gynllun Adfer ar gyfer Awdurdodau Lleol. Un o brif amcanion y cynllun adfer yw galluogi'r CSHB i symud tuag at weithredu yn y ffordd arferol a diogelu ei hygrededd. Ar 31 Mawrth 2022, roedd cyfanswm o **464,574** o sgoriau hylendid bwyd yn www.food.gov.uk/sgoriau.

Ffigur 7: % y busnesau bwyd â sgôr hylendid bwyd o 3 neu well




Ffigur 8: % y busnesau bwyd â sgôr hylendid bwyd o 2 neu is



Sgoriau hylendid bwyd a ddyfarnwyd

Yn ystod 2021/22, dychwelodd nifer y busnesau a gafodd sgôr i lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Ffigur 9: Nifer y sefydliadau â sgôr – Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon




Cafodd **159,881** o sefydliadau sgôr yn ystod 2021/22, sef cynnydd o 179% o gymharu â 2020/21.

Roedd yr adferiad i'w weld yn y tair gwlad, ond roedd ambell wlad yn adfer yn gyflymach na'i gilydd. Roedd hyn yn adlewyrchu effaith wahanol y pandemig ar adnoddau timau bwyd ym mhob gwlad, eu gallu i gynnwys ymyriadau mewn sefydliadau bwyd a gweinyddu'r cynllun sgorio, a'r rheolau a'r cyfyngiadau gwahanol sydd ar waith, (er enghraifft, pryd y gallai busnesau agor i gwsmeriaid wrth i gyfyngiadau ddechrau cael eu llacio).

Busnesau a gyhoeddwr fel rhai sy'n 'aros am arolygiad'

Yn ystod y pandemig, gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer y busnesau a gyhoeddwyd fel rhai a oedd yn 'aros am arolygiad' – busnesau newydd sy'n aros am eu harolygiad cyntaf. Gostyngodd y nifer hwn wrth i'r cynllun adfer gael ei roi ar waith ac wrth i ymyriadau gael eu cynnal (gweler Ffigur 10 isod). Yn ogystal â'r busnesau hynny a gafodd sgôr, canfuwyd bod nifer sylweddol o fusnesau newydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu, neu heb ddechrau masnachu o gwbl.

Ffigur 10: Nifer y busnesau a gyhoeddwr fel rhai sy'n 'aros am arolygiad'



Cydymffurfiaeth busnesau bwyd cig

Cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd cig yw cydymffurfio â rheoliadau diogelwch bwyd, hylendid bwyd a lles anifeiliaid. Mae'r ASB yn cynnal rheolaethau swyddogol ac archwiliadau busnes bwyd i wirio cydymffurfiaeth. Rydym yn gweithio gyda gweithredwyr busnesau bwyd i nodi lle mae angen gwella, gan helpu i sicrhau bod 'bwyd yn ddiogel'.

Archwiliadau o fusnesau bwyd cig


Mae'r ASB yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg wrth archwilio sefydliadau prosesu cig, gan gategoreiddio canlyniadau archwilio yn ôl lefelau cydymffurfio.



Dyma gyfraddau cydymffurfio gweithredwyr busnesau bwyd cig yn ystod mis Mawrth 2022 (gwahaniaeth ers mis Mawrth 2021). Mae'r sgoriau cydymffurfio'n dangos bod **98.9%** o safleoedd gweithredwyr busnesau bwyd cig wedi cael sgôr 'Dda' neu 'Foddfaol ar y cyfan', a bod 1.2% wedi cael sgôr 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys' ar 31 Mawrth 2022. Cynhalwyd **646** o archwiliadau llawn o fusnesau bwyd gennym yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2021/22.



Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yn ôl sgôr cydymffurfio

Ffigur 11: Lloegr



Ffigur 12: Cymru**Ffigur 13: Gogledd Iwerddon**

Nid yw Gogledd Iwerddon wedi cofnodi unrhyw sgoriau ‘Angen Gwella’ neu ‘Angen Gwella ar Frys’ ers Chwarter 1 2019/20.

Gweithgarwch archwilio

Yn 2021/22, parhaodd COVID-19 i effeithio’n sylweddol ar ein rhaglen archwilio ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd cig. Oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol, salwch, newidiadau yn amodau masnachu'r diwydiant, cau sefydliadau a staff archwilio yn gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen, cynhaliwyd llai o archwiliadau. Parhaodd y rhaglen archwilio gyda dull seiliedig ar risg, wedi'i dargedu lle'r oedd angen, a lliniarwyd unrhyw bryderon trwy gyfathrebu'n uniongyrchol â busnesau, gan deilwra'r dull fesul achos. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:




Defnyddio technegau archwilio o bell ac yn rhannol o bell



Safleoedd risg uchel yn parhau i fod yn destun archwiliadau ar y safle

Oherwydd y rhesymau a nodir uchod ac oedi yn rhaglen archwilio swyddogol yr ASB o fis Ebrill 2020 oherwydd COVID-19, nid oedd yn bosib archwilio pob gweithredwr busnes bwyd ar yr amser a drefnwyd, a oedd yn golygu bod angen cynnal nifer ychwanegol o archwiliadau llawn yn ystod 2021/22. Defnyddiodd timau Archwilio'r ASB eu hadnoddau cyfyngedig i ganolbwytio ar ddiogelu iechyd defnyddwyr a blaenoriaethu sefydliadau risg uwch a roddwyd yn y categoriâu 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys' yn eu harchwiliad diweddaraf. Rhoddwyd blaenoriaeth hefyd i archwiliadau rhannol ac i archwiliadau o sefydliadau sy'n allforio i drydydd gwledydd yn unol â'r gofyniad a drefnwyd.

Ffigur 14: Archwiliadau llawn wedi'u cwblhau yn erbyn y targed ar gyfer Cymru a Lloegr



Yn ystod 2021/22, gwnaeth yr ASB flaenoriaethu archwiliadau a ohiriwyd yn flaenorol oherwydd tarfu yn sgil COVID-19, gan gynnal **249** o'r archwiliadau hyn. O ganlyniad, erbyn diwedd mis Mawrth 2022 nid oedd unrhyw archwiliadau gohiriedig heb eu cynnal, ac roedd nifer yr archwiliadau llawn a gynhalwyd yn erbyn y targed wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn COVID-19.


Gweithredu – Ein blwyddyn mewn rhifau (2021/22)

Cynhyrchion rheoleiddiedig



420 o geisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd

Gwaith gweithredu awdurdodau lleol



Bu'n rhaid uwchgyfeirio **0** awdurdod lleol i weithredu'r cynllun adfer ar ôl COVID-19

Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid



2,336 o ddigwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid a halogiad amgylcheddol

Lles anifeiliaid



1,036,098,739 o anifeiliaid wedi'u harchwilio.

Roedd **99%** o ladd-dai'n cydymffurfio â deddfwriaeth lles anifeiliaid

NFCU



Collfarn gyntaf yn dilyn ymchwiliad a arweiniwyd gan yr NFCU

NFCU



64 o achosion o darfu a **79** o ganlyniadau NFCU wedi'u cyflawni

Gweithrediadau



185,265 o sifftiau wedi'u gweithio ar draws **659** o fusnesau bwyd

Maeth: Gogledd Iwerddon



Cynnydd o **63%** yn nifer y ryseitiau a nodwyd ar wefan MenuCal

Cynhyrchion rheoleiddiedig

Mae angen i rai cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid, a elwir yn gynhyrchion rheoleiddiedig, gael eu hawdurdodi cyn y gellir eu gwerthu yn y DU. Bydd yr ASB, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, yn cynnal proses dadansoddi risg ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig ac yn darparu cyngor i weinidogion, a fydd yn penderfynu a ellir rhoi'r cynnrych ar y farchnad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Amcanion ar gyfer 2021/22

Nod y broses cynhyrchion rheoleiddiedig yw:


- gwneud argymhellion amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion, ar gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig newydd a phresennol, i gael eu rhoi ar farchnad Prydain Fawr
- rhoi hyder bod cyngor yr ASB yn diogelu iechyd y cyhoedd

Ein hamcan ar gyfer 2021/22 oedd mireinio gweithdrefnau gweithredol manwl a oedd yn sail i'r broses er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori'n llawn yng ngwaith yr ASB.


Cynnydd yn erbyn amcanion

Canlyniadau gweithredol

Ffigur 15: Cysylltiadau a wnaed â'r gwasanaeth ymgeisio am gynhyrchion rheoleiddiedig 2021/22



Yn ystod Chwarter 4 2020/21, roedd nifer y cysylltiadau unigol a wnaed â'r gwasanaeth yn uchel iawn oherwydd nifer fawr o geisiadau am gynhyrchion canabidiol (CBD). Roedd nifer fawr o gysylltiadau nad oedd modd mynd â nhw yn eu blaenau.

Ffigur 16: Ceisiadau byw ar bob cam o'r broses ymgeisio 2021/22

Mae ceisiadau byw yn dangos cyfanswm yr holl geisiadau ar bob cam o'r broses. Ni symudodd nifer uchel o'r cysylltiadau a ddangosir yn Ffigur 16 yn eu blaenau trwy'r gwasanaeth gan eu bod yn geisiadau anghyflawn, neu'n amhriodol ar gyfer y broses hon. Cyrhaeddodd nifer y ceisiadau byw eu huchafbwynt yn ystod Chwarter 4 2020/21, i gyd-fynd â dyddiad cau'r ASB ar gyfer ceisiadau CBD. Gostyngodd y lefel yn y chwarter nesaf wrth i geisiadau fynd rhagddynt.

Mae'r broses gymeradwyo ar gyfer ceisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys pedwar cam yn fras. Gweler ffigur 17 am fanylion camau'r ceisiadau byw.

Ffigur 17: Cyfanswm y ceisiadau byw ar gyfer 2021/22: 420

Mae ceisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig yn cyfrif am y swm mwyaf o waith yn y system. Roedd ein tybiaethau cynllunio'n awgrymu y gallai'r ASB ddisgwyl cael tua 350 o geisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig bob blwyddyn. Nid oedd hyn yn cyfrif am effaith y dull rheoleiddio ar gyfer CBD, a arweiniodd at nifer uchel o geisiadau tuag adeg y dyddiad cau ym mis Mawrth 2021. Mae ceisiadau eraill yn unol â'r rhagdybiaeth gynllunio hon.

Gwaith gweithredu awdurdodau lleol

Achosodd COVID-19 heriau digynsail i awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o ran cyflawni eu swyddogaethau bwyd statudol. Yn y pen draw, roedd rhaid i awdurdodau lleol flaenoriaethu gweithredu yn erbyn lledaeniad y clefyd. Mewn ymateb, roedd y Cynllun Adfer ar gyfer Awdurdodau Lleol, y cytunwyd arno gan y Bwrdd ym mis Mai 2021, yn nodi ein canllawiau a'n cyngor i awdurdodau lleol ar gynnal rheolaethau bwyd swyddogol ac yn darparu fframwaith sy'n seiliedig ar risg ar gyfer ailgychwyn y system yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Roedd y cynllun adfer yn manylu ar ddisgwyliadau ar gyfer cynnal arolygiadau o sefydliadau bwyd newydd a sefydliadau risg uchel a/neu nad ydynt yn cydymffurfio, gan sicrhau hyblygrwydd ar gyfer cynnal ymyriadau mewn sefydliadau risg is. Adolygydd y canllawiau a'r cyngor i awdurdodau lleol yn ofalus.

Amcanion ar gyfer 2021/22

Wrth wraidd ein hamcanion yn 2021/22 oedd yr angen i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt ddychwelyd i weithgareddau cyn-bandemig a lleihau'r ôl-groniad o waith a grëwyd yn sgil yr hyblygrwydd a gyflwynwyd i ryddhau adnoddau awdurdodau lleol er mwyn brwydro yn erbyn COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys tri nod cyffredinol:



Monitro gwaith cynnal rheolaethau bwyd swyddogol a'r cynllun adfer – Ar ôl cytuno ar gynllun adfer gydag awdurdodau lleol, rydym yn ceisio monitro cynnydd.



Ymgysylltu ag awdurdodau lleol – Sicrhau bod modd cyfathrebu er mwyn nodi'n gyflym a gweithio i wrthbwys o materion sy'n codi a manteisio ar lwyddiannau wrth iddynt ddod i'r amlwg.



Cynorthwyo a chefnogi awdurdodau lleol – Cynnig cymorth i bartneriaid awdurdodau lleol lle y gallwn er mwyn ceisio sicrhau bod y cynllun adfer yn llwyddo.

Cynnydd yn erbyn amcanion

Monitro'r ffordd y cynhelir rheolaethau bwyd swyddogol a'r cynllun adfer

Er mwyn monitro perfformiad awdurdodau lleol o ran cyflawni'r isafswm o ran disgwyliadau'r cynllun, defnyddiwyd rhaglen o arolygon interim, ffurflen ni diwedd blwyddyn pwrpasol, data'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a gwybodaeth gan Grwpiau Cyswllt Bwyd i nodi'r awdurdodau lleol hynny a allai symud yn gyflymach neu'r rheiny a oedd yn cael trafferth.

Roedd sefyllfa'r llinell sylfaen ym mis Mai 2021¹⁸ yn nodi'n glir effaith y pandemig ar adnoddau a gallu awdurdodau lleol i gynnal rheolaethau bwyd, gyda thua 50% o adnoddau technegol proffesiynol yn cael eu dargyfeirio neu eu hadleoli i dasgau eraill. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn nifer yr ymyriadau cynlluniedig a gyflawnwyd a chynnydd yn nifer y sefydliadau heb sgôr yr adroddwyd eu bod yn aros am eu harolygiad cyntaf.

¹⁸ www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-21-05-02-local-authority-recovery.pdf

Ym mis Hydref 2021, gwnaethom gynnal arolwg interim, gyda phob awdurdod lleol ar draws y tair gwlad yn ymateb. Nododd hwn fod adnoddau'n dychwelyd i dimau bwyd.

Lefelau hylendid bwyd yn ôl i'r canlynol:



Lefelau safonau bwyd yn ôl i'r canlynol:




Gellir gweld dystiolaeth o effaith staff yn dychwelyd i dimau bwyd yn yr adran uchod ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Yn y tair gwlad, aseswyd holl ymatebion awdurdodau lleol i arolwg mis Hydref gan ddefnyddio matrices y cytunwyd arno, a chafodd yr ymatebion eu categoriiddio fel **Uchel**, **Canolig** neu **Isel** o ran lefel y pryder mewn perthynas â chyflawni gofynion y cynllun. Sicrhaodd hyn fod gweithgarwch rheoli perfformiad yr ASB wedi'i dargedu'n briodol.

Ymgysylltu ag awdurdodau lleol

Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth hon, roedd y gwaith ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn parhau er mwyn herio a chefnogi materion perfformiad. Nod hyn oedd gwella'r sefyllfa a chael sicrydd bod y gwaith cyflawni yn erbyn y cynllun naill ai ar y trywydd cywir neu fod angen uwchgyfeirio er mwyn lliniaru risg ymhellach.

Ffigur 18: Arolwg Interim ar gyfer awdurdodau lleol, Hydref 2021 – lefel y pryder am hylendid bwyd a/neu safonau bwyd



Ymhllith y rheiny yr ystyriwyd eu bod yn peri pryder mawr

Roedd **64%** wedi rhoi'r sicrwydd angenrheidiol eu bod bellach yn bodloni'r disgwyliadau gofynnol a bod yr achosion wedi'u cau

Roedd gan **36%** achosion agored lle roedd ymgysylltu gweithredol yn dal i fynd rhagddo, neu roedd yr awdurdod lleol wedi cyflwyno cynllun gweithredu lle'r oedd y broses o'i roi ar waith yn cael ei fonitro. Roedd pob achos agored yn Lloegr.

Ymhllith y rheiny yr ystyriwyd eu bod yn peri pryder canolig

Roedd **58%** wedi rhoi'r sicrwydd angenrheidiol eu bod yn bodloni'r disgwyliadau gofynnol a bod yr achosion wedi'u cau.

Roedd gan **18%** achosion agored lle roedd ymgysylltu gweithredol yn dal i fynd rhagddo, neu roedd yr awdurdod lleol wedi cyflwyno cynllun gweithredu lle'r oedd y broses o'i roi ar waith yn cael ei fonitro.

Roedd ymgysylltu yn yr arfaeth ar gyfer **24%** ohonynt.

Ymhllith y rheiny yr ystyriwyd eu bod yn peri pryder isel

Penderfynwyd peidio ag ymgysylltu'n rheolaidd â'r rhain eto, ac eithrio lle'r oedd gwybodaeth gan Grwpiau Cyswllt Bwyd wedi arwain at ymgysylltu at ddibenion rheoli perfformiad.

0 achos o uwchgyfeirio

Nid oedd yr un awdurdod lleol wedi cyrraedd y trothwy lle dylid dechrau uwchgyfeirio os oedd pryderon nad aethpwyd i'r afael â nhw.

Aethom ati i gasglu data wedi'i dargedu a thrafodwyd y gwaith o gyflawni'r disgwyliadau lleiaf mewn cyfarfodydd gydag amryw grwpiau cynrychioliadol mewn awdurdodau lleol ym mhob un o'r tair gwlad.

Gwybodaeth a gafwyd trwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol



Roedd **gwelliant o ran cynnal rheolaethau swyddogol o** gymharu â'r 12 mis blaenorol, yn gysylltiedig â gweithwyr proffesiynol yn dychwelyd i'w gwaith ar ôl ymgymryd â ddyletswyddau eraill.



Mae **awdurdodau lleol yn gallu canolbwytio ar fusnesau risg uchel ac ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg**, gan ddarparu'r mesurau diogelwch angenrheidiol i'r cyhoedd lle mae eu hangen fwyaf.



Mae **nifer y cofrestriadau newydd** a'r cofrestriadau hynny y mae angen eu blaenoriaethu a'u harolygu o hyd **yn dal i beri pryder i awdurdodau lleol**.



Adroddwyd bod cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd wedi dirywio ers ailagor, gan arwain at fwy o gwynion, ymweliadau archwilio hirach a mwy o gamau gorfodi.



Mae reciriwtio staff cymwys i dimau bwyd yn heriol. Mae'r sefyllfa yn cael ei gwaethyg gan ddiffyg contractwyr cymwys i ategu niferoedd swyddogion dros dro.

56 Adroddiad perfformiad

Roedd y sefyllfa'n ddeinamig ac roedd awdurdodau lleol dan bwysau, ond gwnaethant ddilyn ein canllawiau a'n cyngor a chyflawni gweithgareddau yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd gennym, yn unol â'r adnoddau a ganiatawyd.

Bydd y set ddata well, a gafwyd o ddatganiad diwedd blwyddyn 2021/22, arolygon interim carreg filltir chwarterol dilynlol a'r rhaglen ddilysu arfaethedig, yn rhoi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr i ni o'r cynnydd o ran gweithredu'r cynllun adfer.

Cynorthwyo a chefnogi awdurdodau lleol

Wedi'n hysgogi gan y materion parhaus o ran recriwtio a chadw staff, gwnaethom gomisiynu prosiect ymchwil i ddeall natur a maint y broblem. I ategu hyn, casglwyd data o ddatganiad diwedd blwyddyn 2021/22.

O ganlyniad i'r gostyngiad a adroddwyd yn lefelau cydymffurfio busnesau, gwnaethom ymchwilio i ba weithgareddau cyfathrebu ychwanegol y gall yr ASB eu cynnal er mwyn atgyfnerthu'r neges i fusnesau a chefnogi gwaith y timau bwyd mewn awdurdodau lleol.

Gwnaethom hefyd barhau i gyflwyno ein gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd.¹⁹

¹⁹ www.food.gov.uk/cy/cofrestru-busnes-bwyd

Cofrestru busnesau bwyd

Amcanion: Nod yr ymgyrch oedd cymell mwy o fusnesau i gofrestru gyda'u hawdurdod lleol, yn enwedig y rheiny sy'n masnachu o'r cartref neu ar-lein.

Pryd: 24 Chwefror 2022 i 20 Mawrth 2022

Gwariant: £110,000 (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)

Yr hyn a wnaethom:

Bu cynnydd enfawr yn y bwyd a oedd yn cael ei werthu o gartrefi pobl yn ystod y pandemig COVID-19, gyda'r rhyngrywd yn hwyluso'r math hwn o farchnad. Yn ôl ein gwasanaeth cofrestru digidol, mae 37% o fentrau newydd a gofrestrwyd ers dechrau'r pandemig (Mawrth 2020) yn cael eu cynnal o geginau domestig mewn cyfeiriadau preifat. Roeddem am annog cymaint o'r busnesau newydd hyn â phosib i gofrestru gyda'u hawdurdod lleol.

Gwnaethom ddatblygu cyfres o adnoddau a ddefnyddiwyd ar draws amrywiaeth o sianeli i geisio cyrraedd ac ymgysylltu â'r rheiny a allai fod yn gweithredu busnes anghofrestredig, gan ganolbwytio'n benodol ar y rheiny sy'n masnachu gartref neu ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys podlediadau, negeseuon ar Facebook ac Instagram, a hysbysebion ar-lein trwy Google Search.

Ynghyd â'r ymgyrch i hyrwyddo sianeli penodol, buom hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a gefnogodd yr ymgyrch mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymdeithas Arlywyd Cenedlaethol a Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched ar draws y tair gwlad. Roedd cefnogaeth awdurdodau lleol yn hanfodol i lwyddiant yr ymgyrch hon. Gwnaethom ddatblygu pecyn adnoddau i'n holl bartneriaid ei ddefnyddio, a oedd yn cynnwys datganiad i'r wasg engrifftiol, negeseuon y gellir eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol a mynediad at adnoddau'r ymgyrch.

Y canlyniadau:

Gwnaethom gyrraedd dros 1.4 miliwn o fusnesau posib trwy'r cyfryngau cymdeithasol, Google a hysbysebion. Yn ystod yr ymgyrch, gwnaeth 24,000 o bobl ymweld â'n tudalen lanio ar gyfer cofrestru busnesau bwyd. Ar draws ein sianeli cymdeithasol, gwnaeth 22,658 o bobl glicio ar y negeseuon, a gwnaeth 853,631 o bobl eu gweld ar ôl talu am hyrwyddo negeseuon cymdeithasol. Mae'r canlyniadau mewn cyrraedd a chliciadau i'r wefan, yn dangos ein bod wedi cyflawni amcan yr ymgyrch, sef codi ymwybyddiaeth o gofrestru ac addysgu grwpiau targed y gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd (trwy gliciadau am ragor o wybodaeth).

Rhannwyd deunyddiau'r ymgyrch a phecynnau adnoddau gyda 42,650 o berchnogion a rheolwyr busnesau, gyda Ffederasiwn Busnesau Bach yn cyfeirio dros 7,000 o ymwelwyr i'n tudalennau gwe.

Prif nod yr ymgyrch hon oedd cynyddu nifer y busnesau sy'n cofrestru gyda'u hawdurdod lleol. Fodd bynnag, dangosodd data cofrestru gan awdurdodau lleol am nifer y busnesau a ymunodd cyn mis Ebrill 2021, nad oedd unrhyw newid sylweddol yn nifer y cofrestriadau yn yr wythnosau ar ôl yr ymgyrch. Roedd rhyw fath o gynnydd yn nifer y busnesau hynny a gofrestrodd a oedd wedi bod yn masnachu am dros 90 diwrnod ym mis Mawrth 2022 na'r holl fisoeedd blaenorol (yn ôl i fis Mawrth 2020). Roedd cynnydd hefyd yn nifer y bwytaid a oedd yn cofrestru. Fodd bynnag, gallai hyn fod oherwydd ffactorau eraill ac nid dyna'r grŵp yr oeddym yn ceisio'i dargedu.



Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid


Mae ein timau digwyddiadau, gwytnwch a diogelu defnyddwyr ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rheoli ac yn cydlyn ymateb yr ASB i ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid ac achosion o salwch a gludir gan fwyd. Maent yn gweithio gyda'r diwydiant i dynnu cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch oddi ar y farchnad. Mae'r gwaith hwn wedi parhau drwy gydol y cyfnod adrodd er mwyn sicrhau bod y DU yn gallu ymateb i ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn y ffordd orau bosib.

Amcanion ar gyfer 2021/22

- Cadw'r lefel uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr yn y DU wrth i ni ymadael â'r UE ac ar ôl hynny.
- Parhau i ddarparu ymateb brys wrth i ni ddod allan o'r pandemig COVID-19.
- Cynnal arbenigedd y DU mewn rheoli digwyddiadau bwyd fel trydedd wlad, sydd o safon fydd-eang.

Cynnydd yn erbyn amcanion

Ffigur 19: Yr hysbsiadau am ddigwyddiadau a ddaeth i law'r ASB hyd at fis Mawrth 2022



Nifer yr hysbsiadau ar gyfer digwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid a halogiad amgylcheddol yr ymchwiliwyd iddynt gan yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ystod 2021/22, sef **cynnydd o 18% ers 2020/21**.

Cynyddodd nifer y digwyddiadau ers llacio'r cyfyngiadau yn genedlaethol, gan ddychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Roedd nifer y digwyddiadau yn 2020/21 yn is na blynyddoedd blaenorol, sef tuedd a oedd yn adlewyrchu'r gostyngiad byd-eang o ran nifer y rhybuddion diogelwch bwyd yn ystod y pandemig, yn enwedig yn 2020. Rydym o'r farn bod y lefelau is ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau wedi'u hysgogi gan newidiadau yn y meysydd canlynol:



arferion defnyddwyr

symleiddio llinellau
cynhyrchu bwydllai o fusnesau bwyd yn
gweithredulleihau cymhlethod
ystodau cynhyrchion

Roedd dadansoddi digwyddiadau mewn perthynas â'r pedwar prif berygl yn gyson â blynnyddoedd blaenorol, ac yn dangos lefelau da o weithgarwch i ddiogelu defnyddwyr. Y pedwar prif categori ar gyfer digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r ASB yn 2021/22 oedd:



615

Micro-organebau pathogenaidd – un o brif achosion digwyddiadau. Mae'r rhain wedi cynyddu 80% ers y llynedd a oedd yn gysylltiedig â gwyliadwriaeth weithredol a gynhaliwyd gan yr ASB ac awdurdodau lleol yn dilyn cyfres o achosion o salwch a gludir gan fwyd yn 2020 a 2021 yn gysylltiedig â chynhyrchion cyw iâr mewn briwsion bara o Wlad Pwyl.



320

Alergenau – dyma'r ail achos mwyaf o ddigwyddiadau. Cynyddodd achosion o alergenau 83% o gymharu â 2020/21, sef cynydd disgwyliedig yn sgil yr ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth am Gorsensitifrwydd cyfredol sydd wedi'u hanelu at ddefnyddwyr a busnesau bwyd.



209


Gweddillion plaladdwyr – bu mwy o adrodd am y digwyddiad hwn dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf o ganlyniad i ddigwyddiad ledled Ewrop yn ymwneud â chanfod ethylen ocsid na chaniateir ei gynnwys mewn cynhyrchion sesame a chynhyrchion sy'n cynnwys gwm ffa locust.



116

Deunydd estron – pan fydd gwydr, metel neu ddeunyddiau estron eraill mewn cynnyrch bwyd yn peri risg i iechyd. Rydym yn mynd ati i ddadansoddi gwraidd y broblem gyda'r diwydiant er mwyn deall pa gamau a allai atal y digwyddiadau hyn.

Ffigur 20: Nifer yr hysbysiadau rhybuddio a gyhoeddwyd gan yr ASB hyd at fis Mawrth 2022



Cyhoeddwyd cyfanswm o **150** o rybuddion yn 2021/22. Roedd hyn yn cynnwys 84 Rhybudd Alergedd, 66 Hysbysiad Gwybodaeth Galw Cynnyrch yn ôl (PRINS) a 0 Rhybudd Bwyd er Gweithredu. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 6.4%, yn unol â data o flynyddoedd blaenorol.

Lles anifeiliaid

Caiff y rhaglen ‘Rhwystro, Atal, Canfod, Gorfodi’ ei chynnal drwy Gynllun Gweithredu ar Les Anifeiliaid yr ASB ar gyfer Cymru a Lloegr. Fe’i defnyddir i ddogfennu, olrhain a gwerthuso effeithiolwyd cyflawni gwelliannau lles anifeiliaid. Mae gennym agwedd dim goddefgarwch tuag at achosion o ddiffyg cydymffurfio â safonau lles anifeiliaid, ac rydym yn defnyddio hierarchaeth orfodi i atal dioddefaint anifeiliaid y gellir ei osgoi ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol. Cyfrifoldeb yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon yw polisi a gweithredu.

Mae’r cynllun gweithredu yn cyd-fynd â'r amcan strategol, sef ymddiriedolaeth mewn bwyd: ei gwneud yn hawdd i fusnesau gynnal diogelwch a safonau bwyd. Mae grŵp llywio, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ASB, Llywodraeth Cymru a Defra, yn adolygu camau gweithredu sy'n weddill ac yn cymeradwyo gweithgareddau newydd.

Amcanion ar gyfer 2021/22

- cadarnhau a gwirio cydymffurfiaeth
- gwella atebolrwydd a chydweithio
- gwella addysg ac ymwybyddiaeth
- gwella ansawdd ein gwaith dadansoddi ac adrodd

Cynnydd yn erbyn amcanion



System gryfach i wirio cydymffurfiaeth trwy:

- Gynnal ein pedwerydd archwiliad ar thema lles anifeiliaid
- Gwella dogfennau gwirio lles anifeiliaid
- Cyflwyno protocol Dangos bod Anifail yn Fyw (*Demonstration of Life*) ar gyfer anifeiliaid cnoi cil bach
- Brysbennu achosion erlyn posibl
- Cefnogi'r diwydiant yn ystod COVID-19 gyda chanllawiau amgylchiadau eithriadol



Gwell atebolrwydd a chydweithio trwy:

- Ehangu fforymau gweithio ar y cyd â'r diwydiant a chynrychiolwyr
- Meithrin perthnasoedd gwaith agosach ac ymgynghori ar draws y gadwyn gyflenwi
- Trafod gyda Defra a Llywodraeth Cymru am ariannu ein rheolaethau lles anifeiliaid



Gwella addysg ac ymwybyddiaeth trwy:

- Wella canllawiau ar dystysgrifau cymhwysedd, casglu tystiolaeth, a gwneud penderfyniadau
- Cynhyrchu canllawiau arferion gorau ar ystod o themâu lles anifeiliaid a chyfathrebu â'r diwydiant



Gwella ansawdd ein gwaith dadansoddi ac adrodd trwy:

- Gryfhau monitro ac adrodd ar safonau lles anifeiliaid
- Gwelliannau parhaus i'r gronfa ddata lles anifeiliaid
- Cyhoeddi ystadegau ar achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheolau lles anifeiliaid

Yn 2021/22, cafodd mwy nag 1 biliwn o anifeiliaid (1,036,098,739) eu prosesu mewn lladd-dai. Roedd dros 99.9% (1,035,943,907) yn bodloni safonau a rheoliadau cydymffurfio ar gyfer lles anifeiliaid. O'r 154,832 o anifeiliaid a broseswyd nad oeddent yn cydymffurfio â rheoliadau lles anifeiliaid, bu effaith ar les 51,132 ohonynt.

Uned Genedlaethol Troseddau bwyd (NFCU)

Un o swyddogaethau gorfodi'r gyfraith pwrrpasol yr ASB yw'r NFCU sydd â'r dasg o ddiogelu defnyddwyr a'r diwydiant rhag troseddau bwyd.

Mae gwaith yr NFCU yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod defnyddwyr yn gallu ymddiried bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, sef un o amcanion yr ASB. Mae'n gwneud hyn drwy ganfod, ymchwilio a tharfu ar dwyll a throseddoldeb difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd. Mae'r NFCU yn defnyddio 'dull 4P' sefydledig y DU o ran gorfodi'r gyfraith er mwyn cynllunio a chyflawni canlyniadau gweithredol ar draws ei gallu gwrth-dwyll o'r dechrau i'r diwedd. Dyma'r amcanion:



Paratoi (Prepare) – sicrhau bod y galluoedd angenrheidiol ar gael i fynd i'r afael â throseddau bwyd



Amddiffyn (Protect) – lleihau pa mor agored yw busnesau a defnyddwyr i fgythiadau a risgau troseddau bwyd



Erlid (Pursue) – erlyn troseddwyd ac atafaelu elw troseddau bwyd



Atal (Prevent) – atal unigolion/busnesau rhag cyflawni troseddau bwyd

Amcanion ar gyfer 2021/22



Cynllunio a darparu ymatebion 4P yn unol â blaenoriaethau ein Strategaeth Reoli a rhoi mwy o ffocws ar ragweithioldeb



Cynnydd parhaus tuag at sicrhau pwerau ymchwilio ychwanegol i'r NFCU, i'w galluogi i weithredu'n annibynnol ac mor effeithiol â phosib



Datblygu ein pobl a'n galluoedd

Cynnydd a wnaed yn ystod 2021/22



Mae canlyniadau wedi'u cyflawni ar draws sbectrwm yr ymateb 4P, gan gynnwys annog 242 o fusnesau i ddefnyddio Adnodd Hunanasesu Gwytnwch Twyll Bwyd yr NFCU gyda 40% o'r busnesau hynny'n dychwelyd at yr NFCU i gael rhagor o fanylion.



Gwnaeth yr ASB gynnydd sylweddol gyda swyddogion a gweinidogion ar draws y llywodraeth yng Nghymru yr angen i'r NFCU sicrhau pwerau ymchwilio ychwanegol, gan gynnwys y cytundeb arfaethedig ar ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â hyn. Mae absenoldeb y galluoedd hyn yn parhau i fod yn rhwystr i'r NFCU allu gweithredu mor effeithiol â phosib.




Sicrhaodd yr NFCU fod gan bob ymchwilydd brofiad perthnasol neu achrediad newydd, a lansiodd y Rhaglen Proffesiynoli Cudd-wybodaeth ar gyfer staff cymwys. Cynhaliodd yr ASB alluoedd cudd-wybodaeth sensitif, a sicrhaodd fod yr ASB wedi'i chynnwys yn Neddf Cudd-wybodaeth Ddynol (Ymddygiad Troseddol) 2021.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael isod.

Cudd-wybodaeth

Arhosodd lefelau o gudd-wybodaeth a gofnodwyd yn gymharol sefydlog. Roedd rhai mân amrywiadau chwarterol yn nifer yr adroddiadau cudd-wybodaeth a ddaeth i law a allai fod yn gysylltiedig â llawer o ffactorau, gan gynnwys gweithgarwch tymhorol, effaith cyfnodau clo COVID-19 a rhagweithioldeb yr NFCU (Gweler ffigur 21 isod).


FFigur 21: Cudd-wybodaeth a ddaeth i law bob chwarter



Ymchwiliadau a gweithrediadau

Agorodd yr NFCU (fel y prif asiantaeth neu'r asiantaeth gefnogol) 89 llinyn newydd o weithgarwch gweithredol yn 2021/22 o gymharu â 70 yn 2020/2021. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 27% o gymharu â 2020/21.

Ffigur 22: Gweithgarwch gweithredol newydd yn ôl blwyddyn ariannol



Mae Strategaeth Reoli'r NFCU²⁰ yn amlinellu blaenoriaethau cyfredol yr NFCU, a'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd i atal troseddau bwyd, i rwystro ac i amharu ar droseddwyr bwyd ac i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell.

Roedd gweithgarwch gweithredol yn dangos bod **78%** o'r gwaith yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Strategaeth Reoli'r NFCU. Roedd y ffocws gweithredol hwn yn dangos bod adnoddau'r NFCU yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â materion yr oedd yr NFCU wedi'u nodi, trwy ei hasesiadau cudd-wybodaeth, fel risgau troseddau bwyd allweddol. Gosododd cynllun busnes 21/22 yr NFCU darged o 70% yn y maes hwn.

Collfarn gyntaf yr ASB yn dilyn ymchwiliad a arweiniwyd gan yr NFCU:



Un o gerrig milltir mawr yr NFCU yn 2021/22 oedd y gollfarn gyntaf yn dilyn ymchwiliad a arweiniwyd gan yr NFCU. Roedd y gollfarn yn ymwneud â gwerthu 2,4-Dinitroffenol (DNP) i'w fwyta gan bobl ac, ochr yn ochr â throseddau eraill, wedi arwain at ddedfryd carchar o 28 mis.

Arweiniodd dau ymchwiliad a gefnogwyd gan yr NFCU hefyd at gollfarnau yn ymwneud â throseddau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae'r NFCU yn parhau i symud tri ymchwiliad ymlaen er mwyn cyflwyno ffeiliau achos i Wasanaeth Erlyn y Goron yn 2022/23.

Adferiad ariannol:




Yn 2021/22, gwnaeth tîm Ymchwiliadau Ariannol yr NFCU gynnydd sylweddol wrth adenill yr asedau a gafwyd trwy droseddau bwyd. Llwyddwyd i sicrhau gorchymyn atafaelu o £11,037.51 a wnaed drwy droseddu a Gorchymyn Atal Asedau yn atal gwasgaru asedau cyn Gorchymyn Atafaelu.

²⁰ <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/uned-genedlaethol-troseddau-bwyd#strategaeth-reol>

Canlyniadau gweithredol

Lle mae camau gweithredu'r NFCU wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau bygythiad, risg a/neu niwed oherwydd troseddau bwyd, (er enghraifft, lle rydym wedi erlyn neu arrestio, hyd at ymgysylltu'n uniongyrchol â busnes i gynyddu eu gallu i wrthsefyll troseddau bwyd), cofnodir camau gweithredu fel un o ddau fath o ganlyniad gweithredol, sef 'tarfiadau' a 'chanlyniadau NFCU'. Mae'r ddau yn ymwneud â gwaith yr NFCU, ond mae tarfiadau yn bodloni meincnod uwch o ran effaith a gadarnhawyd. Rydym yn adrodd am y rhain i'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol.

Yn ystod 2021/22 roedd:



Mae tarfiadau'r NFCU yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi cynnwys:



Atal dros dro am gyfnod amhenodol gymeradwyaeth person i drin sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP) ar ôl canfod bod ABP yn cael eu dargyfeirio i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl. Amharodd hyn ar weithgarwch busnes gwerth miliynau o bunnoedd.



Tynnu i lawr 28 o wefannau neu restriadau ar farchnadoedd ar-lein a oedd yn gwerthu DNP i'w fwyta gan bobl.



Gwnaeth ymholiadau'r NFCU helpu i ddod o hyd i'r sawl a ddrwgdybir, a sicrhau eu bod yn cael eu harestio, a sicrhau amodau mechniäeth a oedd yn amharu ar allu'r sawl a ddrwgdybir i barhau i droseddu yn y diwydiant bwyd.



Gwnaeth yr NFCU, ochr yn ochr â'n tîm Mewnforio, gefnogi Llu'r Ffiniau i ddatblygu ymgyrch a gynhalwyd mewn maes awyr ym mis Ionawr, gan arwain at atafaelu 525.77kg o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) a fewnforiwyd yn anghyfreithlon.

Rhagleni blaenorriaeth yr ASB

Dyma'r meysydd gwaith yr oedd yn blaenorriaeth eu cyflawni yn ystod 2021/22.



Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau



Ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael bwyd y gallant ymddiried ynddo yn y dyfodol mewn sector bwyd sy'n esblygu'n gyflym. Mae angen i ni reoleiddio mewn ffordd ddoethach i wneud yn siŵr bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Ein gweledigaeth

Dylai'r newidiadau a gynlluniwyd gan y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau arwain at ddyfodol lle mae'r canlynol yn wir:

- Mae prosesau rheoleiddio'n esblygu llaw yn llaw â'r system fwyd sy'n datblygu'n gyflym, fel bod pob bwyd yn ddiogel i ddefnyddwyr ni waeth ble na sut y caiff ei brynu.
- Mae'r ASB yn cydwelio ag awdurdodau lleol a'r diwydiant i wneud yn siŵr bod gwaith rheoleiddio bwyd yn cael ei lywio gan ddata, a bod adnoddau'n cael eu targedu at y meysydd lle mae'r risg fwyaf. Mae offer a gwasanaethau'r ASB yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau bwyd ddarparu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Bydd y rhaglen yn datblygu set o dulliau rheoleiddio gwell, a fydd yn gwneud y canlynol:



Ei gwneud yn haws i fusnesau ddarparu bwyd diogel y gellir ymddiried ynddo i ddefnyddwyr.



Targedu adnoddau rheoleiddio yn y meysydd sy'n peri'r risg fwyaf.




Gwella cydymffurfiaeth ar draws y system trwy weithio gydag eraill a thrwy eraill, gan gynnwys partneriaid rheoleiddio a busnesau dylanwadol.


Mae gan y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau dair ffrwd waith:



Rheoleiddio cymesur,
wedi'i dargedu



Sicrhau gwerthiannau
bwyd ar-lein



Dulliau gweithredu ar
lefel menter

Cynnydd yn erbyn amcanion

Gwelsom gynnydd ar draws pob un o'r tair ffrwd waith yn dilyn gweithgareddau ymchwil a darganfod a gynhaliwyd yn ystod 2021, gan osod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen.



Rheoleiddio cymesur, wedi'i dargedu

Gwnaethom gwblhau cynllun peilot y model safonau bwyd newydd, a bydd y gwerthusiad a'r asesiad o'r gallu iddo ehangu yn cael eu defnyddio i gynllunio diwygiadau i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn ail hanner 2022/23. Bydd y newid yn cael ei gyflwyno yn Lloegr drwy gydol 2023/24 gyda chynlluniau tebyg ar gyfer Cymru.

Gwnaethom barhau i ddatblygu systemau a fydd yn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu dull sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar atebion digidol, hyfforddiant a chymorth i oresgyn unrhyw rwystrau posib.

Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, gwnaethom ddatblygu dull o foderneiddio'r model gweithredu hylendid bwyd, ac egwyddorion i werthuso llwyddiant. Yn 2022/23 byddwn yn dadansoddi'r effaith ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.



Sicrhau gwerthiannau bwyd ar-lein

Buom yn gweithio gyda'r tri agregwr ar-lein mwyaf poblogaidd a gyflwynodd cynnig i'r ASB ar gyfer Siarter Diogelwch Bwyd. Llwyfannau ar-lein trydydd parti yw agregwyr y gall defnyddwyr fanteisio arnynt i archebu a dosbarthu bwyd. Gwnaethom weithio gyda nhw i ddatblygu pedwar prif faes sy'n ychwanegu sicrwydd o ran diogelwch bwyd. Byddwn yn gweithio gyda'r agregwyr i ddatblygu manylion y prif feysydd hyn, gyda'r nod o ddatblygu fframwaith i gymhwys o'r sicrwydd a'r gwelededd hwn y tu hwnt i'r agregwyr ar-lein hyn.

Ymchwiliwyd i oblygiadau'r datblygiadau arloesol newydd ar system prynu a gwerthu bwyd y DU. Roedd y canfyddiadau'n argymhell y dylai'r ASB fabwysiadu rôl hynod ragweithiol wrth gefnogi'r diwydiant i sicrhau bwyd y gallwch ymddiried ynddo, wrth i brosesau a modelau busnes newydd ddisodli'r rhai traddodiadol yn gynyddol.

Comisiynwyd ymchwil gennym i ddeall sut mae defnyddwyr yn rhngweithio â bwyd sy'n cael ei werthu ar-lein, a ble maen nhw'n gweld risg. Cwblhawyd yr ymchwil yn ystod gwanwyn 2022. Rydym wedi cyhoeddi'r canfyddiadau ers hynny²¹.

²¹ www.food.gov.uk/research/qualitative-research-to-explore-consumer-attitudes-to-food-sold-online



Dulliau gweithredu ar lefel menter

Gwnaethom nodi manwerthwyr mawr (archfarchnadoedd) fel grŵp targed posibl ar gyfer dull rheoleiddio newydd, a gwnaethom ymgysylltu a thrafod â nhw sut fyddai hyn yn edrych a'r effaith.

Yn dilyn y digwyddiad 'Shaping Large Retailer Regulation' yn Lloegr, cytunodd 5 manwerthwr a'u prif awdurdodau i gymryd rhan mewn treial prawf cysyniad. Bydd hyn yn cynnwys datblygu fframwaith sicrwydd rheoli diogelwch bwyd newydd, a chreu rôl rheolwr perthynas newydd ar gyfer yr ASB. Disgwylir i dreialon gychwyn yn ail hanner 2022/23.

Cychwynnwyd ymchwil ansoddol i ddeall safbwytiau rhanddeiliaid allweddol am werth y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a archwiliodd safbwytiau defnyddwyr am newidiadau posib i ddulliau rheoleiddio yn y dyfodol. Cafodd hyn ei fwydo i brosiectau a arweinir gan y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau.

Gwnaethom barhau i drafod â manwerthwyr i ganiatâu i'r ASB/prif awdurdodau gael mynediad at eu data lefel menter. Gwnaethom barhau i feithrin ymddiriedaeth gyda'r manwerthwyr i sicrhau bod eu gwybodaeth yn cael ei diogelu.

Gwnaethom brofi amgylchedd 'blwch tywod' rheoleiddiol y model a'r fframweithiau. Gwnaed hyn fel proses ochr yn ochr ac ar wahân i'r model rheoleiddio presennol, a fydd yn parhau fel arfer, nes bod dystiolaeth yn dangos bod y model newydd yn rhoi'r un sicrwydd neu sicrwydd gwell. Roedd profi yn yr amgylchedd diogel yn dileu'r risg i ddefnyddwyr ac yn caniatâu profion cyflymach a mwy hyblyg, gan nad effeithiwyd ar y gwaith rheoleiddio gwirioneddol.

Camau nesaf

Ein bwriad yw datblygu dulliau rheoleiddio y gellir eu cyflawni o fewn y gyfraith bwyd bresennol, ond y bydd y rhaglen hefyd yn nodi ac yn ymchwilio i unrhyw feysydd lle gallai newidiadau deddfwriaethol gefnogi ein hamcanion a gwneud argymhellion am newid.

Trawsnewid gweithredol



Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol (OTP) yn moderneiddio'r ffordd y mae'r ASB yn cynnal Rheolaethau Swyddogol yn uniongyrchol yn y sectorau cig, llaeth a gwin. Ategir y gwaith hwn gan egwyddorion a fydd yn parhau i godi safonau ar draws y diwydiant. Yn ganolog i'r rhaglen hon, mae ein hymroddiad i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac i gadw ymddiriedaeth a diogelwch defnyddwyr wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein gweledigaeth

Uchelgais gyffredinol y rhaglen yw symud tuag at ddull rheoleiddio mwy cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar weithgareddau arolygu a sicrwydd, hyrwyddo twf economaidd a chefnogi masnach, darparu gwerth am arian ond, yn anad dim, barhau i ddiogelu defnyddwyr a chefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau iechyd a lles anifeiliaid, wrth i ni addasu i dirwedd newidiol y maes cynhyrchu bwyd.

Mae Model Gweithredu'r Dyfodol yn hanfodol ar gyfer mabwysiadu dull gweithredu newydd, sydd â'r nod o gyflwyno dull rheoleiddio mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg a thystiolaeth, gan gyflwyno atebolrwydd cliriach rhwng y diwydiant (fel cynhyrchydd bwyd) a'r ASB (fel rheoleiddiwr) er mwyn manteisio i'r eithaf ar weithgareddau rheoleiddio drwy eu targedu ar sail dystiolaeth, dadansoddiad a mewnwelediad trylwyr i sicrhau eu bod yn canolbwytio mwy ar feysydd risg uwch a diffyg cydymffurfio.

Effaith Model Gweithredu'r Dyfodol newydd ar yr ASB a chynhyrchwyr bwyd:



Casglu a defnyddio data mewn modd mwy effeithlon oherwydd mwy o ddibyniaeth ar allu digidol.



Dull mwy segmentiedig, seiliedig ar risg, o ymgysylltu'n rheolaidd â'r diwydiant, yn seiliedig ar lefelau risg a chydymffurfiaeth.



Newidiadau i brosesau a thasgau gweithredol a gyflawnir gan Arolygwyr Hylendid Cig a Milfeddygon Swyddogol i sicrhau eu bod yn ychwanegu cymaint o werth â phosib at ddiogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid, lle bo'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cynnig lle i ni wneud hynny. Mae newidiadau sylweddol i rolau a chyfrifoldebau yn dibynnu ar newid deddfwriaethol yn y dyfodol.

Amcanion yn ystod 2021/22

Yn ystod 2021/22, datblygwyd a phrofwyd y dyheadau a'r cynigion a amlinellwyd ym Model Gweithredu'r Dyfodol cychwynnol gydag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod y cynigion yn cael eu cefnogi a'u bod yn ddigon hyblyg i sicrhau amrywiaeth o opsiynau cyflawni. Ar ôl ceisio a chael cymorth ar gyfer Model Gweithredu'r Dyfodol, nodwyd a chytunwyd ar nifer o bethau penodol y gellid eu cyflawni'n gynnar, a datblygwyd hyn yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd yr ASB.

Cynnydd yn erbyn amcanion



Darganfod gofynion deddfwriaethol

O dan y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol, sefydlwyd tîm strategaeth ddeddfwriaethol penodedig a ddadansoddodd pa fylchau sydd yn y rheoliadau presennol yn erbyn uchelgeisiau'r Model Gweithredu'r Dyfodol i bennu pa feysydd o ddeddfwriaeth y byddai angen eu newid ac adolygu llwybrau posib ar gyfer cyflawni newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol.



Lansio'r cynllun peilot ar gyfer y model Grwpio cychwynnol

Aethom ati i greu peiriant data a fydd yn cael ei ddefnyddio i dargedu ymyriadau ac adnoddau'r ASB yn seiliedig ar risg. Roedd hyn yn cydnabod ymdrechion busnesau sy'n cydymffurfio i raddau helaeth drwy fabwysiadu dull rheoleiddio mwy cymesur.

Defnyddiwyd grwpio mewn ffordd gyfyngedig ac wedi'i thargedu i bennu amlder archwilio a gweithgarwch arolygu dirybudd. Roedd y dull wedi'i dargedu hwn yn ein galluogi i brofi ac olrhain cywirdeb gallu sgorio'r adnodd grwpio yn ofalus. Bydd y dull wedi'i dargedu hwn yn dechrau yn Chwarter 1 2022/23 a bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal cyn dechrau archwilio dangosyddion data ychwanegol a defnydd ehangach o'r dull yn y blynnyddoedd i ddod. Mae dangosyddion data'r cynllun peilot yn cynnwys data gorfodi, hanes ymchwiliadau/erlyniadau, achosion o dorri rheolau lles anifeiliaid a chanlyniadau archwiliadau.



Datblygu Model Gweithredu'r Dyfodol ar gyfer Gweithrediadau i'w gyflwyno i Fwrdd yr ASB

Ym mis Mai 2021, cyflwynwyd Model Gweithredu'r Dyfodol i Fwrdd yr ASB²², ac ar ôl sicrhau cefnogaeth ar gyfer ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus i gasglu ystod eang o safbwytiau gan Grwpiau Defnyddwyr, y Diwydiant a Chyrff y Diwydiant, Adrannau'r Llywodraeth a Gweinyddiaethau Datganoledig. Cyflwynwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r Bwrdd ym mis Medi 2021 a chymeradwyodd y Bwrdd gynigion y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol ar gyfer Model Gweithredu'r Dyfodol, a chytunodd ar waith y Rhaglen ar gyfer y 12 mis dilynol.

²² <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-21-05-04-development-of-the-operational-delivery-model.pdf>



Gwelliannau mewn technoleg ddigidol

Ein nod oedd manteisio ar ddatblygiadau technolegol i gefnogi'r gwaith o gynnal Rheolaethau Swyddogol yn fwy effeithiol, gan sicrhau ein bod yn defnyddio dulliau cadarn i archwilio, dilysu, sicrhau a chasglu'r data. O ganlyniad, datblygwyd nifer o brosiectau digidol, gan gynnwys y canlynol:

Cynhaliwyd treial llwyddiannus o dechnoleg ffrydio fideo i'w defnyddio yn ystod archwiliadau o bell. Gan edrych tua'r dyfodol, mae gwaith wedi'i gynllunio i gynnal sgan o'r farchnad i nodi datrysiaid meddalwedd parhaol addas.

Cafodd datrysiaid digidol newydd ar y we ei roi ar waith i gefnogi'r broses gymeradwyo ar gyfer safleoedd cig a reoleiddir gan yr ASB.

Dechreuodd datblygiadau arloesol eraill, fel gwella'r ffordd rydym yn casglu canlyniadau arolygiadau a gwybodaeth am y gadwyn fwyd; gwella'r broses o gasglu tystiolaeth a llunio adroddiadau ar gyfer gweithgarwch archwilio ac arolygu.

Dechreuodd trafodaethau i ystyried y defnydd posib o Ddeallusrwydd Artifisiai sy'n gysylltiedig â theledu cylch cyfyng i wella'r broses o fonitro lles anifeiliaid.

Camau nesaf

Ein bwriad ar gyfer 2022/23 yw parhau i adolygu cyfleoedd deddfwriaethol i helpu i gefnogi amcanion y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol a gwneud argymhellion ar gyfer newid. Bydd y rhaglen hefyd yn parhau i ganolbwytio ar sawl cyfle digidol, fel diweddarriadau i'r gofod digidol archwilio ac arolygu ac adolygiad o Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd a Chasglu a Chyfathrebu Canlyniadau Arolygiadau.

Codi Llais Dros Alergeddau (ail gam)

Nodau: Cefnogi ac annog pobl ifanc 18 i 21 oed i siarad am eu halergeddau bwyd wrth fwyta allan mewn bwyta ac i normaleiddio'r sgwrs ymhlih cyfoedion trwy eu hannog i gefnogi ffrind wrth archebu.

Amlygu pwysigrwydd rôl busnesau bwyd wrth ymateb i bobl ag alergeddau bwyd.

Pryd: 9 Mawrth 2022 i 30 Mawrth 2022

Gwariant: Ymgyrch fusnes £90,000

Ymgyrch Pobl Ifanc £90,000 (Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon)

Yr hyn a wnaethom:

Gwnaethom gyflawni dwy ymgyrch, un yn targedu busnesau bwyd ac un yn targedu pobl ifanc. Mae gwaith dadansoddi yn dangos bod pobl ifanc ag alergeddau bwyd yn llai tebygol o siarad am eu halergedd bwyd mewn bwyty prysur, neu os nad yw staff blaen y tŷ yn helpu. Roedd hefyd yn dangos bod ffrindiau'n chwarae rhan bwysig wrth annog person ifanc i siarad am ei alergeddau a dweud wrth y bwyty wrth fwyta allan, felly dyma oedd ffocws canolog yr ymgyrch.

Roedd yr ymgyrch busnesau bwyd yn tynnu sylw at y rôl bwysig sydd ganddynt wrth ddiogelu pobl ag alergeddau bwyd. Roedd yn nodi bod ymateb busnes bwyd yn wirioneddol bwysig. Lansiwyd yr ymgyrch busnesau bwyd yn gyntaf a chefnogwyd busnesau bwyd i wneud y peth iawn drwy eu cyfeirio at ein hadnoddau ar-lein, gan gynnwys hyfforddiant rheoli alergenau ar-lein. Gwnaethom ddatblygu [fideo Codi Llais Dros Alergeddau†](#) a gafodd ei hyrwyddo i fusnesau gan ddefnyddio YouTube a Facebook.

Roedd yr ail ymgyrch yn targedu'r bobl ifanc eu hunain, gan ddefnyddio dull digidol yn gyntaf. Gwnaethom ddefnyddio [fideo††](#) yn targedu pobl ifanc yn benodol i ddangos yr effaith y gall ffrind cefnogol ei chael ar rywun ag alergeddau wrth archebu bwyd.

Hyrwyddwyd y fideo hwn ar draws YouTube, Instagram, Snapchat, a Facebook gyda dolen i'n [tudalen ymgyrch](#). Codi Llais Dros Alergeddau‡. Roedd yr holl adnoddau'n ddwyieithog a chafodd cynnwys y talwyd amdano yng Nghymru ei hyrwyddo'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gwnaethom weithio gyda dau ddyylanwadwr cyfryngau cymdeithasol i gyflwyno'r cynnwys ar TikTok ac Instagram mewn ffordd a fyddai'n ennyn diddordeb ein cynulleidfa darged.

Canlyniadau

Cyfanswm cyrhaeddiad y gwariant a dalwyd ar gyfer yr ymgyrch pobl ifanc oedd 1,024,844. Y sianel fwyaf effeithlon oedd Snapchat. Cyrhaeddodd cynnwys y dylanwadwyr fwy nag 83,000 o bobl. Cafodd [tudalen we](#) Codi Llais Dros Alergeddau** a oedd yn cynnwys cyngor i bobl ifanc 14,862 o ymwelliadau.

Gwnaethom ddarparu dros 1.5 miliwn o gyfleoedd i fusnesau weld yr ymgyrch hon a chynhyrchwyd 23,470 o ymwelliadau â [thudalen rhestr wirio Alergenau*](#). Buom yn gweithio gyda mwy na 120 o sefydliadau partner i gyfleo negeseuon i fwy na 200,000 o fusnesau a gwelsom gynnydd o 700% yn nifer yr adnoddau a gafodd eu lawrlwytho.

† https://www.youtube.com/watch?v=5l-m4E8_CsQ

†† <https://www.youtube.com/watch?v=wEnJD5LjF2I>

‡ <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/cyngor-i-bobl-ifanc-yn-eu-harddegau-ac-oedolion-ifanc-sydd-ag-alergeddau-bwyd>

** <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/cyngor-i-bobl-ifanc-yn-eu-harddegau-ac-oedolion-ifanc-sydd-ag-alergeddau-bwyd>

* <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/rhestr-wirio-alergenau-ar-gyfer-busnesau-bwyd>



Gorsensitifrwydd i fwyd



Mae gan yr ASB uchelgais hirdymor i wella ansawdd bywyd ar gyfer pobl â gorsensitifrwydd i fwyd (alergeddau bwyd, anoddefiadau bwyd a chlefyd seliag). Rydym yn gweithio gyda phartneriaid y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth i gyflawni newid sylweddol yn y ffordd y mae gorsensitifrwydd i fwyd yn cael ei ddeall a'i reoli. Mae ein gwaith yn canolbwytio ar ddatblygu polisi, ymchwil a thystiolaeth, wedi ei lywio gan ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau, a chefnogi gwaith gorfodi.

Ein gweledigaeth

Nod ein gwaith yw:



Gwella ansawdd bywyd ar gyfer rhyw 2.6 miliwn o bobl â gorsensitifrwydd i fwyd



Lleihau'r baich a'r gost ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)



Cynyddu cynhyrchiant yn y gweithle trwy leihau nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gorsensitifrwydd i fwyd



Cynyddu gweithgarwch economaidd defnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd yn y sectorau bwyd a lletylgarwch.

Amcanion ar gyfer 2021/22



Archwilio'r opsiynau posib ar gyfer datblygu cynllun diogelwch alergeddau bwyd a fyddai'n galluogi pobl â gorsensitifrwydd i fwyd i wneud dewisiadau mwy diogel wrth fwyta allan.



Archwilio'r 'bwlc'h data' o ran maint a natur adweithiau alergaidd, yn enwedig wrth brynu bwyd y tu allan i'r cartref. Profi hyn trwy broses 'prawf cysniad' ar gyfer offeryn Mecanwaith Adrodd ar Adwaith Alergaidd Bwyd (FARRM).



Cael mewnwelediad a mewnbwn rhanddeiliaid i waith yr ASB ar orsensitifrwydd i fwyd a meithrin y perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid a'r cynghreiriau sydd eu hangen i ysgogi'r newid diwylliannol a'r newid ymddygiad.



Cefnogi busnesau ac awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer gweithredu deddfwriaeth bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol o 1 Hydref 2021.



Gwella dealltwriaeth o'r achosion cyfredol ac effeithiau'r defnydd cynyddol o Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL) trwy gael adborth gan randdeiliaid yn y diwydiant bwyd, i lywio datblygiad polisi ac ymyriadau posib.

Dilyniant meysydd allweddol



Archwilio opsiynau ar gyfer datblygu cynllun diogelwch alergeddau bwyd ac adolygu tystiolaeth ar wybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr

Gwnaethom ddatblygu ein gwaith yn edrych ar sut y gall busnesau bwyd wella'r ffordd y darperir gwybodaeth am orsensitifrwydd i fwyd i ddefnyddwyr wrth fwyta allan neu archebu bwyd tecawê, fel y gallant wneud dewisiadau mwy diogel.

Gwnaethom archwilio'r potensial o greu cynllun diogelwch alergeddau a fyddai'n rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr y gallent ei defnyddio i benderfynu ble i fwyta. Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd ein sylfaen ymchwil i weld a ellid gwella'r modd y caiff gwybodaeth am alergenau ei chyflwyno drwy archwilio dewisiadau defnyddwyr a sut mae busnesau'n casglu gwybodaeth ar gyfer eu cwsmeriaid.



Archwilio'r 'bwlc'h data' mewn adweithiau alergaidd a phrofi trwy 'brawf o gysyniad' ar gyfer FARRM

Dechreuwyd prosiect FARRM i ystyried dichonoldeb a chynllun mecanwaith i wella dealltwriaeth yr ASB o natur a graddau adweithiau gorsensitifrwydd i fwyd a damweiniau fu bron â digwydd, yn enwedig y rhai nad oes angen triniaeth ysbty arnynt ac nad ydynt yn cael eu cofnodi yn aml.

Cynhaliwyd llwyfan 'prawf o gysyniad' FARRM ar wefan yr ASB rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022, a arweiniodd at gyfanswm o 498 o adroddiadau am adweithiau niweidiol. Er bod y lefel hon o ymateb yn cyd-fynd yn fras â disgwyliadau, roedd yn dangos bod yna broblemau sylweddol o ran cynnal ymwybyddiaeth y cyhoedd a chymhelliant defnyddwyr i adrodd a dilysrwydd data. O ganlyniad, penderfynodd Bwrdd Rhaglen Gorsensitifrwydd i Fwyd i beidio â bwrw ymlaen â FARRM a chanolbwytio yn hytrach ar ffyrdd amgen o gasglu'r cwmpas a'r math o ddata sydd ei angen.



Cael mewnwelediad a mewnbwn rhanddeiliaid i orsensitifrwydd i fwyd a meithrin perthnasoedd a chyngreiriau â rhanddeiliaid

Gwnaethom sefydlu panel arbenigol a oedd yn ein galluogi i gydwethio ag elusennau, cyrff masnach, academyddion, clinigwyr ac awdurdodau lleol.

Gwnaethom hefyd gynnal ein trydydd Symposiwm Gorsensitifrwydd i Fwyd, lle daeth ystod o randdeiliaid ynghyd i drafod canfyddiadau o orsensitifrwydd i fwyd a sut y gall arferion gorau wella canlyniadau, gan ddenu dros 600 o gynrychiolwyr i gofrestru.

Gwnaethom gynnal ein hail fersiwn o'r ymgyrch 'Codi Llais Dros Alergeddau'²³ wedi'i hanelu at bobl ifanc 18-21 oed, ym mis Mawrth 2022.



Cefnogi busnesau ac awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer gweithredu deddfwriaeth PPDS

Daeth gofynion labelu alergenau newydd i rym ym mhob un o bedair gwlad y DU o 1 Hydref 2021 ymlaen. Rhoddodd yr ASB ddeddfwriaeth bwyd wedi'i becynnau ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol ar waith ac mae wedi cefnogi busnesau ac awdurdodau lleol i weithredu'r rheolau newydd ar waith yn llwyddiannus. Mae deddfwriaeth bwyd wedi'i becynnau ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn ei gwneud yn ofynnol i labelu'r math hwn o fwyd ag enw a rhestr gynhwysion, gyda'r 14 prif alergen wedi'u pwysleisio yn y rhestr. Gwnaethom ddarparu adnoddau ychwanegol mewn hwb pwrpasol ar wefan yr ASB gan gynnwys canllawiau sector a chymorth gyda labelu cynhyrchion bwyd wedi'u pecynnau ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol.

Gwnaethom hefyd gynnal dwy weminar ar gyfer awdurdodau lleol a busnesau, a gafodd dderbyniad da. Cawsant eu recordio ac maent ar gael fel adnoddau hyfforddi. Gwnaethom barhau i hyrwyddo'r newidiadau trwy ddigwyddiadau ar gyfer y diwydiant wedi'u hanelu at fusnesau bach a mawr, a gwnaethom lunio cyngor wedi'i deilwra ar gyfer awdurdodau lleol mewn adnoddau sydd ar gael iddynt drwy ein llwyfan cyfathrebu pwrpasol.

Yn y cyfnod cyn y dyddiad gweithredu, gwnaethom rannu hysbysebion wedi'u targedu i sicrhau bod y neges ynghylch yr angen i baratoi yn cyrraedd busnesau. Gwnaethom ddenu diddordeb eang yn y cyfryngau, gan gynnwys sylw ar raglenni newyddion mawr, ac ymgysylltiad cryf â'r cyhoedd, a gyfrannodd at godi ymwybyddiaeth defnyddwyr gan sicrhau dros 105,000 o ymweliadau â thudalennau ar yr hwb PPDS yn ystod 2021/22.

²³ <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/cyngor-i-bobl-ifanc-yn-eu-harddegau-ac-oedolion-ifanc-sydd-ag-alergeddau-bwyd>



Gwella dealltwriaeth o achosion ac effeithiau presennol y defnydd cynyddol o Labelu Alergenau Rhagofalus

Mae Labelu Alergenau Rhagofalus yn cyfeirio at labelu gwirfoddol i ddangos y gallai un neu fwy o alergenau a reoleiddir fod yn bresennol, mewn cynnyrch yn anfwriadol, ac na ellir osgoi hynny, a'i fod felly yn peri risg i ddefnyddwyr agored i niwed.

Mae hyn yn aml yn bresennol ar labeli ar ffurf 'gallai gynnwys...' ('may contain...') neu ddatganiadau tebyg eraill. Mae pryderon ymhliith defnyddwyr a busnesau nad yw'r datganiadau hyn yn cael eu defnyddio'n gyson, ac mae defnyddwyr yn aml yn teimlo nad yw'r math hwn o labelu yn darparu gwybodaeth ddibynadwy y gellir seilio eu dewisiadau arni.

Gwnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Rhagfyr 2021 a Mawrth 2022, i gasglu ystod eang o safbwytiau rhanddeiliaid i lywio ein gwaith. Cafwyd mwy na 2,500 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Cafodd yr ymgynghoriad ei ategu gan 14 o weithdai wedi'u targedu gyda busnesau, awdurdodau lleol a grwpiau defnyddwyr. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn llywio ein gwaith wrth i ni ddatblygu ein dull o weithredu ar y mater hwn mewn partneriaeth â'r sector bwyd, awdurdodau lleol a defnyddwyr.

Camau nesaf

Yn ystod 2022/23, byddwn yn canolbwytio ar bynciau allweddol y mae Bwrdd yr ASB wedi cytuno arnynt, fel yr amlinellir isod:

- Gwella'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr, gan flaenoriaethu ffocws ar gywirdeb yr wybodaeth.
- Cyflawni newid sylweddol yng ngwybodaeth, sgiliau a diwylliant diogelwch bwyd staff yn y sector bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw.
- Parhau i weithio ar Labelu Alergenau Rhagofalus er mwyn gwella'r ffordd y mae'r diwydiant yn ei ddefnyddio a gwella ei effeithiolrwydd fel ffordd o ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr.
- Cynnal gwerthusiad o weithrediad y ddeddfwriaeth bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, trwy arolygu defnyddwyr, busnesau bwyd ac awdurdodau lleol. Byddwn yn asesu a oes angen i'r ASB roi cymorth ychwanegol i fusnesau ac awdurdodau lleol.

Newid labelu alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (Cyfraith Natasha)

Nodau: Y prif nodau oedd hyrwyddo'r rheoliadau newydd trwy ymgyrch ymwybyddiaeth yn targedu busnesau a defnyddwyr; darparu cyngor defnyddiol i fusnesau bwyd sy'n gwerthu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio; a gwneud yn siŵr bod defnyddwyr, yn enwedig y rhai â Gorsensitifrwydd i fwyd, yn ymwybodol o'r newidiadau.

Pryd: Mawrth 2021 i Hydref 2021

Gwariant: £85,000

Yr hyn a wnaethom:

Roedd y gweithgaredd hwn yn dilyn gwaith a gynhaliwyd yn 2020/21. Yn ystod y flwyddyn adrodd, rhannwyd yr ymgyrch yn gamau i helpu i ganolbwytio'r negeseuon a sicrhau bod busnesau'n cael eu targedu'n amserol gan ddefnyddio negeseuon perthnasol.

Isod mae rhai uchafbwyntiau o'r ymgyrch a'r gweithgarwch hyrwyddo.

Hwb gwybodaeth pwrpasol

Crëwyd hwb pwrpasol ar food.gov.uk ym mis Chwefror 2021 i gefnogi busnesau bwyd i roi'r rheoliadau newydd ar waith. Darparodd yr hwb adnoddau i fusnesau gan gynnwys adnodd penderfynu, canllawiau labelu, labelu sampl, canllawiau technegol a chanllawiau sector-benodol. Roedd yr adnodd penderfynu yn boblogaidd, gyda mwy na 67,000 o ymweliadau rhwng 1 Ionawr a 31 Hydref 2021.

Hysbysebu ar-lein

Gwnaethom rannu hysbysebion ar-lein ar Google, Facebook ac Instagram am gyfnod o bythefnos ym mis Mawrth 2021 a mis Medi 2021. Sicraodd y gwaith hyrwyddo hwn gyfanswm o 9.3 miliwn o argraffiadau ac 83,000 yn clico i hwb gwybodaeth pwrpasol.

Gweminarau

Ym mis Gorffennaf a mis Awst 2021, cynhaliwyd tair gweminar i ymgysylltu â busnesau bwyd ac awdurdodau lleol. Daeth bron i 400 o bobl i'r seminar busnesau bwyd ac ers hynny mae wedi cael ei gwyllo dros 2,800 o weithiau ar YouTube. Aeth cyfanswm o 800 o swyddogion awdurdodau lleol i'r seminar fyw o bob rhan o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a chafodd ei gwyllo 1,500 o weithiau ar YouTube ar ben hynny. Dywedodd 90% o'r busnesau a fynychodd y gweminarau fod y profiad cyffredinol yn rhagorol neu'n dda. Cynhaliodd yr ASB yng Ngogledd Iwerddon, ynghyd â'r Coleg Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd Gwledig (CAFRE) a chynghorau dosbarth, seminar ar gyfer busnesau Gogledd Iwerddon. Aeth mwy na 160 o fusnesau bwyd ac arlwywyr lleol i'r digwyddiad.

Diwrnod gweithredu – 1 Hydref 2021

Defnyddiwyd y diwrnod gweithredu fel cyfre i gyrraedd defnyddwyr â Gorsensitifrwydd i fwyd er mwyn rhoi gwybod iddynt sut y bydd y newidiadau yn y gyfraith ar labelu alergenau yn effeithio arnynt. Mewn cydweithrediad â'r Natasha Allergy Research Foundation (NARF), sicrhawyd 89 erthygl yn y wasg, yn cynnwys 10 papur newydd cenedlaethol, 21 o gyfweliadau â'r cyfryngau a chynhyrchwyd 876,767,128 o gyfleoedd i weld Cyfraith Natasha a allai olygu bod pawb yn y DU wedi cael cyfre i weld sôn am yr ASB ar gyfartaledd 4 gwaith yn ystod y diwrnod hwnnw.



Bydd y gyfraith o ran labelu alergenau ar fwyd yn newid ar 1 Hydref.

Bydd angen labelu iagor o fathau o fwyd bellach.
Yw eich busnes yn barod?



Asiantaeth Safonau Bwyd
FoodSafety.Wales

Maeth: Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn gyfrifol am gyflawni rhywfaint o'r polisi maeth ac iechyd deietegol. Y nod yw gwella canlyniadau maeth ac iechyd trwy sicrhau bod cynhyrchion bwyd iachach ar gael a chynyddu dealltwriaeth defnyddwyr o faeth, gan ganiatáu i'r dewis iach fod yn ddewis hawdd. Mae ein tîm lechyd Deietegol yn arwain ac yn datblygu polisi iechyd deietegol trwy weithio ar y cyd ag adrannau eraill y llywodraeth, cynhorau dosbarth, y byd academaidd, grwpiau cymunedol, y diwydiant bwyd, a sefydliadau eraill.

Amcanion ar gyfer 2021/22



Bwrw ymlaen ag amcanion allweddol polisi iechyd deietegol a maeth yng Ngogledd Iwerddon (fel rhan o'r [rhaglen ddrafft gan y Llywodraeth, 'A Fitter Future for All, Making Life Better'](#)²⁴) mewn partneriaeth ag adrannau llywodraeth Gogledd Iwerddon, diwydiant bwyd Gogledd Iwerddon a rhanddeiliaid eraill.



Cyflawni camau gweithredu o fewn y rhaglen Eating Well Choosing Better (EWCB) trwy weithio gyda'r sectorau manwerthu, gweithgynhyrchu a'r tu allan i'r cartref i gyflawni targedau'r diwydiant ar gyfer [siwgr, halen](#),²⁵ a [chaloriau](#)²⁶ a osodwyd gan lywodraeth y DU.



Gwella mewnwelediad a dealltwriaeth trwy gadw golwg ar faint o faethynnau a bwyd y mae poblogaeth Gogledd Iwerddon yn eu bwyta, arferion prynu, gwybodaeth, ymddygiadau ac agweddau mewn perthynas â bwyta'n iachus, a chyfathrebu hyn yn eang â rhanddeiliaid.

Cynnydd yn erbyn amcanion



Cynhyrchodd yr ASB yng Ngogledd Iwerddon, Asiantaeth lechyd y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon a safefood²⁷, mewn partneriaeth â chydweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol, Safonau Maeth²⁸ er mwyn sicrhau bod dewisiadau bwyd iachach yn cael eu darparu i staff ac ymwelwyr mewn lleoliadau lechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyhoeddwyd safonau diwygiedig ym mis Mawrth 2022.



Bu'r ASB yng Ngogledd Iwerddon yn gweithio gyda gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd lleol, yn ogystal â'r sector y tu allan i'r cartref ar raglen 4-5 mlynedd o'r enw Eating Well Choosing Better (EWCB). Rydym yn cefnogi busnesau bach a chanolig i ailfformiwliddio a lleihau maint dognau i wneud dewisiadau iachus yn haws. Rydym yn cysoni ein cynllun gweithredu a chyflawni â thargedau llywodraeth y DU.

²⁴ www.health-ni.gov.uk/publications/making-life-better-strategy-and-reports

²⁵ www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-report-on-first-year-progress

²⁶ www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-report-on-first-year-progress

²⁷ www.safefood.net/advisory-committee

²⁸ www.food.gov.uk/business-guidance/hsc-nutritional-standards-executive-summary

Yn ystod 2021, nid oeddwn yn ymgysylltu â busnesau wyneb yn wyneb cymaint oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Cysylltodd y tîm lechyd Deietegol â busnesau trwy gynnal gweminar ailfformiadleiddio ar gyfer y sector becws. Roedd 55 o gynrychiolwyr o'r sectorau gweithgynhyrchu, manwerthu, arlwo ac addysg yng Ngogledd Iwerddon yn bresennol. Amcan y weminar oedd ysgogi'r sector becws yng Ngogledd Iwerddon i feddwl yn gadarnhaol am ailfformiadleiddio a rhannu gwybodaeth am yr ystod eang o gymorth sydd ar gael. Ar ôl y weminar, anfonwyd gwybodaeth am ailfformiadleiddio at yr holl gynrychiolwyr, yn ogystal â delen i'r weminar wedi'i recordio²⁹, ac ers ei phostio ar-lein, mae wedi cael ei gwyllo **1,142** o weithiau.

Yn y sector y tu allan i'r cartref, roedd y cynllun [Calorie Wise](#)³⁰ yn parhau i gael ei gynnal mewn partneriaeth â'r un ar ddeg o gynghorau dosbarth. Mae'r cynllun hwn yn annog busnesau bwyd i labelu calorïau bwyd a diod yn wirfoddol ar eu bwydlenni, gyda chymorth [MenuCal](#)³¹, sef adnodd ar-lein am ddim yr ASB sy'n cyfrifo calorïau ac yn rheoli alergenau. Oherwydd COVID-19, ni fu llawer o gyfle i hyrwyddo'r cynllun dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Serch hyn, rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022, roedd:

Serch hyn, ers mis Mawrth 2021 i fis Mawrth 2022, bu:




cynnydd o **63%** yn nifer y ryseitiau a nodwyd ar MenuCal ymhlið yr holl ddefnyddwyr (Ffigur 23)



cynnydd o **181%** yn nifer y ryseitiau a ychwanegwyd at MenuCal

Roedd cynnydd amlwg yn nifer y defnyddwyr a'r ryseitiau a ychwanegwyd ers mis Mawrth 2022. Mae'n ymddangos bod hyn yn cael ei ysgogi gan ddefnyddwyr newydd o Loegr sy'n ceisio cydymffurfio â chyfreithiau newydd ar labelu calorïau gorfodol a ddaeth i rym yn Lloegr ym mis Ebrill 2022. Ers mis Ebrill 2021, roedd 1,004 o ryseitiau 'alergenau yn unig' wedi'u hychwanegu. Cynyddodd nifer y ryseitiau hyn yn sylweddol cyn gweithredu cyfraith Natasha ym mis Hydref 2021.


Ffigur 23: Nifer y ryseitiau a nodwyd ar MenuCal rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2022



29 www.youtube.com/watch?v=DbkPctoR9Fw


30 www.food.gov.uk/business-guidance/calorie-wise

31 www.food.gov.uk/business-guidance/menucal-calorie-and-allergen-tool

Ffigur 24: Y nifer a fewngofnododd i MenuCal rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2022

Parhaodd y tîm lechyd Deietegol i fonitro dealltwriaeth a gwybodaeth defnyddwyr Gogledd Iwerddon am yr hyn a argymhellir bob dydd o ran calorïau, y defnydd o labeli goleuadau traffig, agweddu tuag at ailfformiwliddio a gwybodaeth am calorïau, ac ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd cyfathrebu trwy Arolwg Tracio EWCB yr ASB. Cwblhawyd y gwaith o gasglu data ar gyfer seithfed cylch yr arolwg ym mis Hydref 2021, a chyhoeddwyd [adroddiad³²](#) o'r canfyddiadau ym mis Mawrth 2022.

Dyma rai o'r prif ganfyddiadau ar gyfer 2021 (Cylch 7):



Roedd **87%** o ymatebwyr yn 2021 yn adnabod y label goleuadau traffig. Dyma ffigur sydd wedi parhau i fod yn uchel ac yn gyson ym mhob cylch

Mae **42%** o ymatebwyr yn 2021 yn defnyddio labeli goleuadau traffig, sef gostyngiad o **14% pwynt canran** ers 2020 (Cylch 6)

Mae **79%** o ymatebwyr yn 2021 yn deall y labeli goleuadau traffig, sef cynnydd o **12% pwynt canran** ers 2019 (Cylch 5). Nid oes data ar gael o gylch 6

Wrth ddatblygu ein polisi iechyd deietegol, rydym yn sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Yn ystod 2021, buom yn gweithio gyda Kantar Fast Moving Consumer Goods i fonitro bwyd a diod a oedd yn cael eu prynu i'w bwyta gartref yng Ngogledd Iwerddon yn 2016, 2019 a 2020. Casglwyd y data hwn mewn adroddiad³³ sy'n archwilio tueddiadau allweddol ac yn nodi categorïau bwyd a diod sy'n destun pryder o ran iechyd deietegol. Rhannwyd yr adroddiad â rhanddeiliaid, a chafodd 110 golwg tudalen ers ei gyhoeddi rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022.

32 www.food.gov.uk/research/wider-consumer-interests/eating-well-choosing-better-tracking-survey-wave-7

33 www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Northern%20Ireland%20Take%20Home%20Food%20and%20Drink%20Purchases%20%282016%2C%202019%20and%202020%29_.pdf

Ein pobl – Ein blwyddyn mewn niferoedd

Arolwg pobl y gwasanaeth sifil



Sgôr o **68%** yn y mynegai ymgysylltu â chyflodgeion

Arolwg pobl y gwasanaeth sifil



Safle **35** allan o **101** o sefydliadau

Ymchwiliad diwylliant



Cynnydd o **22%** yn nealltwriaeth pobl o'n hegwyddorion arweiniol

Ymchwiliad diwylliant



Mae **79%** o staff o'r farn bod gan arweinwyr weledigaeth glir o'r dyfodol

Staff



Mae **56%** o staff cymwys yn gweithio ar contractau gweithio o gartref

Amrywiaeth a chynhwysiant



Hyfforddwyd **70+** o aelodau panel o gefndiroedd amrywiol

Mynegai symudedd cymdeithasol



Safle **90** allan o **203** yn ein cais mynegai symudedd cymdeithasol cyntaf

Ymgysylltu â staff

Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn rhoi llais a chyfle i bobl roi gwybod i uwch arweinwyr beth sy'n eu helpu i berfformio ar eu gorau, a beth arall y gallwn ei wneud i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu a chydweithio. Gwnaethom gynnal yr arolwg ym mis Medi/Hydref 2021 ac ymatebodd 77% o'r staff. Sgôr gyffredinol yr ASB ar gyfer ymgysylltu â chyflageion oedd 68%, ein sgôr ymgysylltu uchaf ond un ac uwchlaw meincnod y Gwasanaeth Sifil, sef 66%, er mai hwn yw ein gostyngiad cyntaf (2% ers 2020) ers 2016.

Cafodd canfyddiadau ein hymchwiliad diwylliant eu hategu gan adborth arolwg staff, a'i nod oedd darparu dealltwriaeth o'n diwylliant cyfredol. Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys arolwg a gweithdai staff. Cymerodd 293 o staff (21% o'n gweithlu) ran mewn gweithdai ac ymatebodd 268 o staff i'r Arolwg Diwylliant y Gwasanaeth Sifil. Darparodd y canlyniadau ffynhonnell gyfoethog o ddata a gwnaeth yn bosib i nodi themâu sy'n disgrifio ein diwylliant.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi strategaeth newydd yr ASB, 'Bwyd y gallwch ymddiried ynddo' eleni. Fel rhan o ddatblygu'r strategaeth, gwnaethom ymgysylltu â staff i glywed eu hadborth a dechrau llunio gweithgareddau gweithredu.

Amcanion 2020/21 o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2020

Nododd yr ASB dri maes blaenoriaeth yn deillio o Arolwg Pobl 2020:



Gwahaniaethu, bwlio ac
aflonyddu



Cynhwysiant a thriniaeth
deg



Dysgu a datblygu

Cynnydd yn erbyn amcanion 2020/21

Rhoddwyd nifer o ffrydiau gwaith cysylltiedig ar waith, gan gynnwys:



cyflwyno Polisi Datrys Anghydfodau newydd



cyflwyno Hyrwyddwyr Triniaeth Deg



datblygu menter 'Understanding the Unacceptable' mewn
cydweithrediad â'r Undebau Llafur




Iansio tudalen 'un stop' ddiwygiedig ar y Fewnrwyd ar gyfer ymgyrch
Speak Up/Rhowch Wybod Amdano

Gwnaeth ein hymdrehch ddwys drwy gydol y flwyddyn annog pobl i ymgysylltu â'r arlwy dysgu cynhwysfawr sydd ar gael i staff yr ASB. Gwnaethom gynnal wythnos benodol o sesiynau dysgu dros ginio 'Spotlight on Learning' yn ystod mis Mai 2021. Croesawyd y sesiynau hyn gan y staff. Drwy gydol pandemig COVID-19, gwnaethom weithio gyda'n darparwyr hyfforddiant i roi cyrsiau ar-lein, lle bo modd. Gwnaethom hefyd gymryd rhan mewn nifer o fentrau talent traws-Lywodraethol gan gynnwys Arweinwyr y Dyfodol ac Ar Draws Ffiniau. Yn ogystal, lansiwyd ein rhaglen newydd, FSA Accelerate, ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.


Canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2021



Ffigur 25: Ymgysylltiad Arolwg Pobl



O'r 101 o sefydliadau a gymerodd ran yn arolwg pobl y Gwasanaeth Sifil, roedd yr ASB yn safle 35. Mae Ffigur 26 yn dangos sut roedd yr ASB yn cymharu â sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil sy'n ymgysylltu fwyaf.

Ffigur 26: Sgôr ymgysylltu'r Arolwg Pobl – y 50 sefydliad gorau yn y Gwasanaeth Sifil



Ffigur 27: Sgoriau Arolwg Pobl Gwasanaeth Sifil yr ASB 2016-2021**Ffigur 28: Gweithrediadau yn erbyn gweddill Staff yr ASB Ymgysylltiad**

Mae sgoriau'r Arolwg Pobl ar gyfer staff rheng flaen o gymharu â staff nad ydynt yn rhai rheng flaen yn amrywio'n sylweddol, gyda sgoriau'r Arolwg Pobl yn is ymhliith staff Gweithrediadau Maes o ran uwch reolwyr, rheoli newid, dewis sut i wneud gwaith, cymorth i addasu ffyrdd o weithio, tâl a blaenoriaethu amser ar gyfer dysgu a datblygu. Gwnaethom ystyried y gwahaniaethau hyn wrth gytuno ar ein Blaenoriaethau Pobl sefydliadol a byddwn yn eu cynnwys yn ein Cynllun Pobl sydd ar y gorwel.

Canfyddiadau o'n strategaeth ac arolygon chwarterol mewnol

Gwnaethom gwblhau ein pedwerydd arolwg chwarterol mewnol sy'n gweithredu fel gwiriad iechyd rhwng yr Arolwg Pobl. Dangosodd y canlyniadau gynnydd yn ein sgôr ymgysylltu gyffredinol o 68% yn Arolwg Pobl 2021 i 71%.

Canfyddiadau eraill yn ein harolwg chwarterol mewnol:



Cynnydd sylweddol ym meincnodau allweddol yr Arolwg Pobl



Datblygiadau mawr yn nealltwriaeth pobl o egwyddorion arweiniol a strategaeth



Bodlonrwydd cyffredinol â'r strategaeth ar lefelau calonogol



Gwaith i'w wneud o ran egluro'r cyflog a sut mae'r broses yn gweithio



Sgoriau isel o hyd o gwmpas pobl yn teimlo bod ganddyn nhw lais yn ein sefydliad

Canfyddiadau'r arolwg o ran y strategaeth:


22%

cynnydd yn nealltwriaeth pobl o'r naratif strategol/egwyddorion arweiniol

16%

cynnydd yn nifer y bobl sy'n gweld sut y gallent gymhwys o'r egwyddorion arweiniol i'w gwaith o gymharu ag arolwg chwarterol mewnol y flwyddyn flaenorol.

Dyma ganlyniadau eraill (yn gywir ar 31 Mawrth 2021):



Wrth ddatblygu ein strategaeth newydd, cynhaliodd dros 70 o dimau gyfarfodydd i drafod y strategaeth a rhoi eu sylwadau. Defnyddiwyd y canlyniadau hyn, ochr yn ochr ag allbynnau eraill, i helpu i lywio a diweddu'r strategaeth, ac i helpu i ddatblygu ein cynllun pobl a'n meysydd gweithredu.

Camau nesaf bras ar gyfer ein Cynllun Pobl a'r meysydd gweithredu yn dilyn canlyniadau

Mae dau brif lwybr y byddwn yn eu defnyddio i weithredu ar adborth staff a gafwyd trwy'r Arolwg Pobl a'n hymchwiliad diwylliant. Y cyntaf yw trwy ein tair blaenoriaeth o'r Arolwg Pobl yr ydym wedi penderfynu canolbwytio arnynt ar lefel sefydliadol:



Lles



Cynhwysiant a thriniaeth deg



Pa mor weladwy yw'r arweinwyr a'r dyfodol

Bydd y camau a gymerir i gefnogi ein blaenoriaethau o ran pobl yn canolbwytio ar y tymor byr i'r tymor canolig, gan ganiatâu i ni ymateb i adborth staff a chael effaith. Yr ail lwybr fydd datblygu ein Cynllun Pobl tair blynedd. Trwy hynny, byddwn yn gallu canolbwytio ar newid tymor hwy i gefnogi strategaeth yr ASB.

Mae disgwyl i'r Cynllun Pobl gael ei lansio tua diwedd cyfnod adrodd 2022/23.

Cefnogi ein staff

Ymateb i bandemig COVID-19



Roedd iechyd, diogelwch a lles ein staff yn parhau i fod yn hollbwysig trwy gydol y pandemig. Oherwydd natur y pandemig a'r gofynion ychwanegol parhaus ar staff, gwnaethom barhau i weithredu ystod o fesurau cymorth i alluogi staff i ddiogelu eu hunain ac eraill, gan gynnwys:

- Darparu pecyn gwybodaeth fewnol i staff a rheolwyr a dogfen Holi ac Ateb i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am bethau fel cyngor y llywodraeth a'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Defnyddio'r hyblygrwydd sy'n gysylltiedig â'n Ffyrrd o Weithio presennol i gefnogi staff i gydbwyso ymrwymiadau gwaith a chartref gydag unrhyw bryderon iechyd a diogelwch.
- Parhau i reciwtio gan ddefnyddio adnoddau ar-lein.
- Sefydlu ystod o fesurau i alluogi staff i hunan-ynysu dros dro i reoli lledaeniad COVID-19.
- Adolygu asesiadau risg COVID-19 yn barhaus, ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol mewn safleoedd bwyd ac yn ein swyddfeydd ein hunain, a'u diwygio'n brydlon yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod swyddfeydd ar gael i staff eu defnyddio, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, gan ddefnyddio dull graddio â blaenorriaeth, gan gyfyngu ar y nifer o bobl a allai ddefnyddio'r swyddfa ar yr un pryd.

Ein Ffyrrd o Weithio (OWOW) ar gyfer staff nad ydynt yn staff rheng flaen

Gwnaethom gyflwyno ein rhaglen gweithio hyblyg arobryn yn 2017. Ym mis Mehefin 2021, aethom ati i ddiweddarwr cynnig 'OWOW' i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn rhoi mantais gystadleuol i ni mewn ymgyrchoedd reciwtio. Y prif newid a wnaed ym mis Mehefin 2021 oedd torri'r cysylltiad rhwng rolau a swyddfeydd penodol, gan roi'r dewis i staff presennol a staff newydd pa fath o contract oedd yn gweddu orau iddynt: gweithio mewn mwy nag un lleoliad neu weithio gartref (gyda chontractau swyddfa yn dal i fod ar gael i staff presennol a staff newydd os oes rheswm iechyd, diogelwch a lles dros hynny). Mae'r dull reciwtio agnostig o ran lleoliad hwn wedi arwain at ymgyrchoedd llwyddiannus, sy'n arwain yn aml at gael nifer o ymgeiswyr a fyddai'n addas eu penodi, gan gryfhau ein rhestr wrth gefn.

Cytunodd y Tîm Rheoli Gweithredol i adolygu'r cynnig o weithio mewn mwy nag un lleoliad (aml-safle) i alluogi staff i weithio yn eu gweithle cytundebol rhwng 40-60% o'u hwythnos waith. Y rhaniad blaenorol oedd 50/50. Yn dilyn y pandemig a'r newidiadau i'r cynnig OWOW, mae 65% o staff nad ydynt yn staff rheng flaen sy'n gymwys ar gyfer OWOW wedi dewis contract gweithio gartref, 25% wedi dewis contract aml-safle, a 10% wedi dewis contract swyddfa.

Ffigur 29: Dewis contract OWOW ar gyfer holl staff yr ASB**Ffigur 30: Dosbarthiad daearyddol holl staff yr ASB (ar 31 Mawrth 2022)**

Amrywiaeth a chynhwysiant

Yn yr ASB, rydym yn ymrwymo i fod yn weithle lle mae staff yn teimlo y gallwn fod yn ni ein hunain a bod ein cyfraniad unigryw yn cael ei gydnabod, ei barchu a'i werthfawrogi. Ceir rhagor o fanylion yn adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant yr ASB³⁴.

Amcanion yn 2021/22



Denu a chadw gweithlu amrywiol



Hyrwyddo cynhwysiant ar draws ein cymuned arwain a rheoli



Datblygu a chefnogi rhwydweithiau staff i gryfhau ein diwylliant amrywiol a chynhwysol

Cynnydd yn erbyn amcanion

Mae ein Cyngor Amrywiaeth yn adolygu cynnydd ac mae ein Rhwydweithiau Amrywiaeth wedi helpu i gyflawni ym maes Amrywiaeth a Chynhwysiant.



Denu a chadw gweithlu amrywiol

Dilyniant – Lansio a chwblhau carfan 1 o raglen FSA Accelerate, sef rhaglen ddatblygu 12 wythnos wedi'i thargedu ar gyfer staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Recriwtio cynhwysol – Sefydlu a hyfforddi cronfa o 70+ o aelodau panel o gefndir amrywiol a gwneud ymrwymiad y byddai pob panel recriwtio yn cynwys o leiaf un aelod panel o gefndir amrywiol. Gwnaethom gynnal cynllun peilot i dynnu rheolwyr sy'n recriwtio oddi ar baneli dethol er mwyn lleihau tuedd recriwtio bosib.

Gwnaethom gomisiynu adolygiad recriwtio cynhwysol i asesu ein prosesau, ein polisiau a'n harferion recriwtio ac i wneud argymhellion (i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2022).

Croesawu interniaid trwy'r Rhaglen 'Autism Exchange Internship Programme' a'r Rhaglen 'Diversity Internship Programme' dros yr haf.


Mae ein swyddi gwag i gyd yn cael eu hysbysebu ar y llwyfan amrywiaeth a chynhwysiant [Vercida](#)³⁵.

Cynrychiolaeth – Cynnal ymgyrch 'Diversity Data Matters' i gynyddu cyfraddau datgan. Yn dilyn yr ymgyrch, cynyddodd y gyfradd ddatgan ar gyfer yr holl nodweddion. Cynyddodd cyfraddau datgan Cyfeiriadedd Rhywiol o 69% i 83%. Rydym wedi ychwanegu cwestiynau amrywiaeth newydd at System Pobl ein hadran Adnoddau Dynol, yn cwmpasu cefndir economaidd-gymdeithasol; gofalwyr; hunaniaeth o ran rhywedd a chategorïau anabledd.

³⁴ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1018745/FSA_Diversity_Report_2020.pdf

³⁵ www.vercida.com/uk

Cynrychiolaeth gweithlu'r ASB yn ôl nodwedd warchodedig (31 Mawrth 2022 o gymharu â 31 Mawrth 2021)



Mae mwy o fanylion, gan gynnwys data tueddiadau a meincnodau am gyfrannau'r gweithlu yn yr adroddiad Staff, ar gael ar dudalen 154.



Hyrwyddo cynhwysiant ar draws ein cymuned arwain a reoli

Mentora o chwith – Sefydlu cynllun mentora o chwith llwyddiannus, sydd wedi arwain at 21 o bartneriaethau yn cynrychioli amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig.

Hyfforddiant – Cyflwyno hyfforddiant rheoli Cynhwysol o ran Anabledd newydd gan gynnwys cynllun peilot ar gyfer hyfforddiant niwroamrywiaeth i reolwyr llinell.



Datblygu a chefnogi rhwydweithiau staff i gryfhau a chefnogi ein diwylliant amrywiol a chynhwysol

Darparu hyfforddiant ar arferion gorau – Gwnaethom gefnogi Cadeiryddion ein Rhwydwaith Amrywiaeth trwy'r rhaglen Radius Employee Network Leadership Programme.

Sefydlu sawl rhwydwaith newydd – Fel Oed, Niwroamrywiaeth, Gofalwyr, Ffydd a Chred a Symudedd Cymdeithasol.

Meincnodau – Cael ein cydnabod fel un o gyflogwyr cyfeillgar i deuluoedd gorau'r DU gan yr elusen cydbwysedd bywyd a gwaith 'Working Families' am yr ail flwyddyn yn olynol; wedi ein cynnwys yn y 15 uchaf ar eu rhestr.

Cwblhau Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall – Bydd ein cais cyntaf, lle cawsom wobr efydd, yn ein galluogi i feincnodi ein cynnydd a llunio cynllun gweithredu at y dyfodol.

Cwblhau'r Mynegai Symudedd Cymdeithasol – ein cais cyntaf, ac ennill safle 90 o blith 203 o sefydliadau.

Cwblhau'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd ar lefel Cyflogwr – ac yna cyflwyno cyflwyniad lefel arweinydd.

Cwblhau Archwiliad Disability Smart – ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Business Disability Forum i ddatblygu camau gweithredu.

Y prif risgiau ac elfennau ansicr

Mae'r system fwyd yn esblygu'n gyflym gyda datblygiadau fel: technolegau newydd yn ymwneud â chynhyrchu bwyd; logisteg; newid arferion defnyddwyr; a thwf enfawr mewn gwerthiannau ar-lein. Rydym hefyd yn sefydlu ein hunain ac yn esblygu fel sefydliad ers yr Ymadawiad â'r UE: rydym yn cymryd cyfrifoldebau newydd o fewn y DU ac yn ceisio parhau i fod yn dylanwadol ar raddfa ryngwladol. Mae hyn yn golygu bod yr ASB wedi cymryd perchnogaeth o risgiau newydd, ac yn parhau i wneud hynny.

Sicrhau bwyd y gallwch ymddiried yn dd

Cadw pobl yn ddiogel a lleihau/dileu risg bwyd yw un o ddibenion sylfaenol yr ASB. Er mwyn gwneud hyn:

- rhaid i'r ASB ddeall y dirwedd fwyd gymhleth a'r risgiau a allai godi
- rhaid meddu ar y gallu gwyddonol i wneud asesiadau risg proffesiynol ac amserol
- rhaid meddu ar y gallu polisi i ddarparu cyngor rheoli risg priodol

Er mwyn gwireddu ein cenhadaeth, sef 'bwyd y gallwch ymddiried yn dd', wrth reoli adnoddau sy'n prin hau ac ansicrwydd allanol, rydym yn awyddus i gymryd risgiau ystyriol a manteisio ar gyfleoedd ac arloesedd. Gall ein dull o arloesi amrywio gan ddibynnu ar natur y risg, felly rydym yn alinio risgiau â themâu, fel y gwelir isod:



Bwyd y gallwn
ymddiried
yn dd



Enw da/
Hygrededd



Cydymffurfiaeth/
Rheoleiddio
cyfreithiol



Gweithredol/
Cyflawni Polisi



Ariannol/
Gwerth am arian

Mae'r ASB yn gweithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae hyn yn golygu bod ystyriaethau risg bob amser yn brif ystyriaeth i'r adran gyfan. Mae ein gwaith yn diogelu pobl, yn lleihau baich economaidd salwch a gludir gan fwyd ac yn cefnogi economi a masnach y DU trwy sicrhau bod gan ein bwyd enw da o ran diogelwch a diliysrwydd yn y DU a thramor.

Gwnaethom nodi ein dull o reoli risg fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu'r ASB 2021/22 ar dudalen 119. Caiff risgiau'r ASB eu nodi, eu **hasesu**, eu **rheoli**, eu **hadolygu** a'u **cofnodi** ar y lefel briodol ar draws yr ASB.

Mae rheoli risg yn yr ASB yn broses barhaus, sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn ffiniau ein parodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arno. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn adolygu ein risgiau strategol, yn chwarterol (ac yn fisol os bydd amgylchiadau eithriadol), gan sicrhau bod lefel y risg a wynebir yn cael ei monitro'n agos yn yr amgylchedd newidiol rydym yn gweithredu yn dd.

Ein gweledigaeth – pedwar nod



Mae bwyd yn ddiogel



Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label



Gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus ynghylch beth i'w fwytia



Mae gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy, nawr ac yn y dyfodol

Cyfeiriad y newid mewn risg



Cynyddu



Sefydlog



Lleihau

Gallu adnabod, asesu a gweithredu ar risg bwyd i atal niwed i ddefnyddwyr



Cyd-destun:

Mae ymadael â'r UE yn golygu bod yr ASB bellach yn gyfrifol am lawer o'r swyddogaethau dadansoddi risg cyfun a gyflawnwyd yn flaenorol gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae proses dadansoddi risg ar waith i gofnodi galluoedd a phrosesau ar gyfer nodi, asesu a lliniaru risg nawr bod yr ASB wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau am lawer o'r swyddogaethau dadansoddi risg cyfun ers yr ymadawiad â'r UE.

Ffatorau lliniaru:

- Datblygu ac adolygu ein proses dadansoddi risg, i sicrhau ein bod yn cynnal safonau uchel o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr a sicrhau effeithiolrwydd rheoleiddiol.
- Sefydlu dull gweithredu hyblyg, ymatebol, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth, tystiolaeth a gwyliadwriaeth, ac a all gymhwysedd data er mwyn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt ddod yn risgiau i iechyd y cyhoedd.
- Cyflawni a gweithredu prosesau cynllunio, gwrando a sganio'r gorwel mwy cadarn a rhagweithiol, gan weithio gyda defnyddwyr a chynrychiolwyr y diwydiant i olrhain eu safbwytiau.

Cynnal hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr ASB, gan gynnal ein gallu i gyflawni ein hamcanion strategol i ddiogelu defnyddwyr



Cyd-destun:

Mae pobl yn ymddiried ynom am ein bod yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth i wneud penderfyniadau, ac ystyrir ein bod yn onest, yn agored ac yn gynhwysol. Mae cynnal yr ymddiriedaeth hon yn hanfodol er mwyn i ni gyflawni ein canlyniadau i ddefnyddwyr.

Ffactorau lliniaru:

- Rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth i wneud penderfyniadau, ac ystyrir ein bod yn agored, yn onest, yn annibynnol ac yn gynhwysol.
- Defnyddio prosesau rheoli rhanddeiliaid strwythur dig a rhagweithiol i leihau'r tebygolrwydd o golli ymddiriedaeth oherwydd beirniadaeth gyhoeddus.
- Mae ein rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yn ceisio arloesi ym maes diwygio rheoleiddio ac yn achub ar gyfleoedd i drafod a rhoi sicrwydd i gyrrff diwydiant.
- Rydym yn gweithio gyda defnyddwyr a chynrychiolwyr o'r diwydiant busnesau bwyd i ganfod eu safbwytiau a'u barn ar rinweddau rheoleiddiwr modern rhagorol.

Cynnal perthnasau dylanwadol a gwybodus ar draws y llywodraeth ac yn rhwngwladol i hyrwyddo mesurau diogelu defnyddwyr



Cyd-destun:

Mae'r ASB wedi cael rôl newydd ym mholisi masnach y DU, a hynny mewn trafodaethau ar draws San Steffan ac mewn fforymau rhwngwladol ehangach. Nododd Bwrdd yr ASB gyfres glir o egwyddorion i arwain mewnbwn gan swyddogion yr ASB i bolisi masnach a thrafodaethau masnach ar ddechrau 2020.

Ffactorau lliniaru:

- Adolygu cynlluniau rhanddeiliaid a gweithio gydag adrannau'r llywodraeth i gyfrannu at, a dylanwadu ar y farn am flaenoriaethau allweddol.
- Monitro datblygiadau rhwngwladol, gan weithredu'n gynnar i ddarparu gwybodaeth a dadansoddi materion a allai gael effaith ar risgiau diogelwch bwyd i ddefnyddwyr.
- Cymryd rhan mewn fforymau sefydledig a chymryd rhan mewn cyfarfodydd a gadeirir gan swyddogion o bob rhan o San Steffan ar faterion polisi amrywiol.

Meddu ar adnoddau digonol a chefnogi ein pobl i gyflawni Strategaeth yr ASB



Cyd-destun:

- Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posib i ddefnyddwyr, mae'r ASB wedi rhoi mwy fyfth o bwyslais ar leihau costau ein gwaith ein hunain a'r hyn a gyflawnir gan eraill. Mae deall ein perfformiad yn rhoi'r cyfle i ni weld ble y mae lle i wella a sicrhau gwerth am arian ymhellach yn yr hyn a wnawn.
- Wrth i'n dull gweithredu ganolbwytio ar sicrhau bod ein harbenigedd yn cael effaith ac yn dylanwadu ar eraill, rydym yn dod yn fwyfwy dibynnol ar ansawdd, sgiliau, cymhelliant ac aliniad ein pobl

FFactorau lliniaru:

- Cytunwyd ar ein cyllideb yn Adolygiad o Wariant 2021 y llywodraeth ac rydym wedi pennu ein blaenoriaethau Cynllunio Busnes ar gyfer 2022/23.
- Rydym wedi datblygu ein cynllun pobl a strategaeth i greu amgylchedd lle mae ein pobl yn hynod alluog, yn cael eu cefnogi'n effeithiol, ac yn dewis gwneud cyfraniadau eithriadol yn gyson i ddiogelu, hysbysu a grymuso defnyddwyr, i sicrhau bod yr amgylchedd hwn yn adlewyrchu gofynion yr ASB yn dilyn yr ymadawiad â'r UE a'n strategaeth.
- Rhoi mesurau ar waith i leihau amser recriwtio a mynd i'r afael â bylchau wrth i ni lenwi swyddi gwag parhaol.
- Cynllunio strategaeth ystadau'r ASB ac wedi adeiladu ymhellach ar ein seilwaith digidol.
- Rydym wedi adnewyddu a gwella ein cynnig gweithio hyblyg i ehangu mynediad yr ASB at dalent a chefnogi Agenda Lleoedd ar gyfer Twf (*Places for Growth*) Llywodraeth y DU.

<p>Rydym yn gweithio'n effeithiol ac yn gydlynol ar draws gwledydd a gweinyddiaethau'r DU i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu yn dda er gwaethaf gwahaniaethau posib rhwng systemau</p>		
<p>Cyd-destun:</p> <p>Gan fod y DU bellach y tu allan i system gyson yr UE, gall dargyfeirio ddigwydd rhwng systemau rheoleiddio gwahanol wledydd y DU. Mae angen i'r ASB gael prosesau cydweithio cryf ar draws y DU i helpu i ragweld ac ymateb yn briodol i achosion o ddargyfeirio.</p>		
<p>Ffactorau lliniaru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn gweithio gyda phartneriaid rheoleiddio'r DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod cyfundrefn reoleiddio'r DU yn parhau i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu. • Mae'r ASB yn ymwneud â thri Fframwaith trawslywodraethol y DU, y cytunwyd arnynt dros dro yn 2021, sy'n ymrwymo i ffyrdd o weithio ar y cyd a cheisio consensws ar newidiadau ledled y DU, gan gydnabod bod angen cysondeb ar fusnesau sy'n masnachu ledled y DU a bod defnyddwyr angen lefelau cyson o ddiogelu. • Mae'r ASB yn parhau i gadw mewn cysylltiad â Gweinidogion y DU i ehangu dealltwriaeth a disgwyliadau ac i gyd-greu gofynion. Mae proses adolygu reolaidd ar waith i roi cyfreith i'r bedair gwlaid ystyried unrhyw newidiadau gofynnol i ffyrdd o weithio. 		

Gallu darparu ymateb digonol i ddigwyddiad bwyd mawr					
Cyd-destun:					
<p>Rhaid i ni roi trefniadau wrth gefn effeithiol ar waith i reoli digwyddiadau diogelwch bwyd mawr i sicrhau ein gallu i leihau'r effaith andwyol ar ddefnyddwyr a chynnal hyder defnyddwyr yn y sector bwyd.</p>					
Ffatorau lliniaru:					
<ul style="list-style-type: none"> ● Mae gan yr ASB drefniadau wrth gefn a chydnerthedd sefydledig i ymateb i ddigwyddiad diogelwch bwyd mawr. Rydym yn mabwysiadu dull cynhwysfawr o gryfhau ein gwytnwch a'n parodrwydd am argyfwng i gwmpasu pob agwedd ar ein trefniadau ymateb i ddigwyddiadau ac yn parhau i wella ein galluoedd a'n gallu i reoli digwyddiad bwyd mawr. ● Mae ein cynllun rheoli digwyddiadau wedi'i ddiweddar yn adlewyrchu'r hyn rydym wedi'i ddysgu; gwneir gwelliannau parhaus i'n gweithdrefnau gweithredu safonol sy'n cyd-fynd â'r cynllun, a defnyddir y cynllun i lywio ein rhaglen ymarfer a hyfforddi flynyddol sy'n cefnogi gwelliannau parhaus yn ein capaciti i ymateb i ddigwyddiadau, ein gallu, a'n cadernid sefydliadol. ● Cymryd rhan mewn ymarferion aml-asiantaeth sy'n rhoi cyfle i bwysleisio rôl yr ASB i'r rheiny sy'n cymryd rhan, yn ogystal â rhannu arferion gorau. ● Mae effaith y dull hwn yn cael ei fesur trwy ein gallu a'n capaciti cynyddol i roi ein protocolau ymateb i ddigwyddiadau ac argyfwng ar waith yn effeithlon; darparu ymateb cymesur i ddigwyddiad bwyd; a galluogi'r sefydliad i ddychwelyd i'n gweithrediadau arferol cyn gynted â phosib. 					

Cefnogi awdurdodau lleol ac awdurdodau porthladdoedd i cyflawni yn erbyn gofynion deddfwriaethol					
--	--	--	--	--	--

Cyd-destun:

Drwy ein rôl reoleiddiol, mae'r ASB yn rhngweithio â'r rhai sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn rheoleiddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib a bod yr awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r gweithgarwch gofynnol.

Ffactorau lliniaru:

- Drwy'r Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau, rydym yn anelu at ganolbwytio mwy ar ganlyniadau, cydweithio ag awdurdodau lleol a'r diwydiant i sicrhau bod gwaith rheoleiddio bwyd yn cael ei lywio gan ddata, a bod adnoddau'n cael eu targedu at y meysydd lle mae'r risg fwyaf.
- Adolygu a diwygio prosesau ar gyfer cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni a pherfformio yn erbyn disgwyliadau'r ASB.
- Cynyddu capaciti a gallu'r Tîm Cyflawni Mewnforion er mwyn cynyddu'r cymorth a roddir i'r gymuned iechyd porthladdoedd.
- Rhoi map adfer ar waith i helpu awdurdodau lleol i lywio ac adfer ar ôl yr amgylchiadau eithriadol a achoswyd gan COVID-19.

Rheoli ein partneriaid cyflawni i gefnogi'r ASB wrth gynnal Rheolaethau Swyddogol					
---	--	--	--	--	--

Cyd-destun:

Mae dull yr ASB o gynnal rheolaethau rheoleiddiol yn uniongyrchol yn cynnwys rhaniad rhwng pobl a gyflogir gan yr ASB a chontractwyr drwy bartner cyflenwi gwasanaethau.

Ffactorau lliniaru:

- Drwy drefniadau rheoli contractau, mae angen i'r ASB fynd ati'n barhaus i fonitro capaciti a gallu'r partner cyflenwi gwasanaethau i gyflawni ei drefniadau cytundebol a defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol i nodi achosion o ddifyg cydymffurfio a methiannau gwasanaeth (y mae cosbau ariannol ar eu cyfer).
- Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol wedi'i datblygu i gefnogi'r ASB i esblygu'r system rheoleiddio bwyd, ac ar yr un pryd, cadw ymddiriedaeth a diogelwch defnyddwyr wrth wraidd popeth a wnawn.
- Gweithredu a pharhau i fonitro penderfyniad polisi Coleg Brenhinol y Milfeddygon i ganiatáu ar gyfer cofrestru milfeddygon dros dro.

Dadansoddi Perfformiad

Camau gorfodi ffurfiol mewn sefydliadau cig cymeradwy (Cymru, Lloegr)

Yn unol â gofynion Deddf Safonau Bwyd 1999, rydym yn adrodd bob blwyddyn ar y camau gorfodi a gymerir gan yr ASB mewn sefydliadau cig y mae angen rheolaeth filfeddygol arnynt (lladd-dai, ffatrioedd torri cig a sefydliadau trin anifeiliaid hela). Gellir cyflwyno hysbysiadau statudol am fethiannau hylendid, materion strwythurol anfoddhaol, atal y defnydd o fathau penodol o offer, gosod amodau ar y broses cynhyrchu cig, cau gweithrediad yn gyfan gwbl, neu atal arfer penodol sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau hylendid y ddeddfwriaeth. Rhaid i hysbysiadau statudol adlewyrchu'r diffyg cydymffurfio yn gywir, cyfeirio'n gywir at y ddeddfwriaeth berthnasol, a bod yn amlwg ac yn ddiamwys i'w darllen, er mwyn bod yn gyfreithiol ddilys.

Cymru a Lloegr: camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerwyd yn ystod 2021/22

Camau ffurfiol	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021
Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid , a gyflwynwyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013, gan roi diwrnod o rybudd i weithredwr busnes bwyd o'r bwriad i wneud cais i lys ddyfarnu Gorchymyn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid a fyddai'n arwain at gau'r busnes ar unwaith	0	0
Hysbysiad Gwella Hylendid a gyflwynwyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013	32	50
Hysbysiad Camau Unioni a gyflwynwyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013	42	107

Camau anffurfiol	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021
Cyngor ysgrifenedig	1,417	1,277

Gogledd Iwerddon: camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerwyd mewn sefydliadau cig cymeradwy yn ystod 2021/22

Roedd lefel y camau gorfodi yng Ngogledd Iwerddon yn is nag yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod nifer y sefydliadau cig a gymeradwywyd gan yr ASB yng Ngogledd Iwerddon yn gymharol isel, sef 55. O'r rhain, dim ond 19 (lladd-dai a sefydliadau trin anifeiliaid hela) oedd angen presenoldeb milfeddygol cyson yn ystod gweithrediadau. Mae'r rhan fwyaf o'r lladd-dai yn sefydliadau trwybwn uchel mawr iawn, sy'n cael eu hysgogi gan farchnadoedd allforio, lle mae'r gofynion yn tueddu i fod hyd yn oed yn uwch na gofynion cydymffuriaeth yr UE. O ran canlyniadau archwilio, nid yw Gogledd Iwerddon wedi cofnodi unrhyw 'Angen Gwella' neu 'Angen Gwella ar Frys' o Chwarter 1 2019/20 ymlaen (gweler Ffigur 13). Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) sy'n gyfrifol am gyflawni gweithrediadau cig ar ran yr ASB yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn monitro perfformiad DAERA fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth, ac mae system o ymweliadau gwirio ar waith lle mae lefelau gorfodi yn y sefydliad yn cael eu hasesu yn erbyn y sylwadau a wnaed ar y diwrnod; ni fu unrhyw bryderon mewn perthynas â hyn.

Camau ffurfiol	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021
Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid , a gyflwynwyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006, gan roi diwrnod o rybudd i weithredwr busnes bwyd o'r bwriad i wneud cais i lys ddyfarnu Gorchymyn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid a fyddai'n arwain at gau'r busnes ar unwaith	0	0
Hysbysiad Gwella Hylendid a gyflwynwyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006	0	0
Hysbysiad Camau Unioni a gyflwynwyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006	1	0

Camau anffurfiol	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021
Cyngor ysgrifenedig	28	11

Erlyniadau

Yn dilyn atgyfeiriad i gynnal ymchwiliad troseddol llawn, gall yr awdurdod gorfodi perthnasol erlyn troseddau a gyflawnir ar safle cymeradwy.

Yng Nghymru a Lloegr, yr ASB sy'n erlyn achosion o dorri rheolau hylendid bwyd. Caiff achosion mewn perthynas â honiadau o dorri rheolau lles anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a rhai gofynion enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy (TSE) eu herlyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron (yn gweithredu ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) neu Lywodraeth Cymru. Yn 2021/22, cafodd Cangen Ymchwiliadau Troseddol yr ASB 37 o atgyfeiriadau gan y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau i ymchwilio iddynt, gyda'r bwriad o erlyn. Mae canlyniad yr ymchwiliadau hyn yn destun profion dystiolaethol a phrofion budd y cyhoedd.

Mae'r amserlenni ar gyfer erlyniadau yn golygu ei bod hi'n beth prin i achos symud ymlaen o atgyfeiriad i wrandawiad llys terfynol o fewn yr un flwyddyn adrodd. Felly, mae llawer o'r achosion a atgyfeiriwyd i ymchwilio iddynt yn 2021/22 heb eu cwblhau eto.

Yn ystod 2021/22, daeth 11 achos yr ymchwiliwyd iddynt gan yr ASB i ben yn y llys a chafwyd euogfarnau yn erbyn 14 diffynnydd. Mae 8 achos arall yn cael eu herlyn ar hyn o bryd.

Cofnodwyd 36 o atgyfeiriadau ymchwilio yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2020/21.

Mae canlyniadau neu statws yr atgyfeiriadau hynny fel a ganlyn:

Canlyniadau/statws cyfredol	Nifer yr atgyfeiriadau
Euogfarnau	7
Llythyrau rhybuddio wedi'u hanfon	4
Erlyniadau sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Llys	4
Rhyddfarnau	0
Erlyniadau a dynnwyd yn ôl	1
Dim erlyniadau	20

Cwynion, gan gynnwys y rhai a wnaed i Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd

Bydd yr ASB bob amser yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd trwy ei Pholisi Cwynion, a dysgu oddi wrthynt. Ein nod yw datrys pob cwyn yn gyflym ac mor agos â phosib at y pwynt cyflenwi. Am y rheswm hwn, mae cwynion fel arfer yn cael eu trin ar y lefel 'leol' yn y lle cyntaf. Pan fo'r achwynydd yn anfodlon â'r ffordd mae'r ASB wedi ymateb i'w gŵyn, gall drosglwyddo'r mater i lefel 'ganolog' ein proses. I bob pwrras, mae'r lefel hon yn cynnig dau gam 'apelio'. Y cyntaf trwy swyddfa'r Cydlynnydd Cwynion a'r ail, trwy swyddfa'r Prif Weithredwr. Er hynny, fe all fod achlysuron pan fydd angen i gŵyn gychwyn ar lefel 'ganolog' y broses.

Cafodd ein Polisi Cwynion ei lansio ym mis Ebrill 2019 a gellir dod o hyd i'r fanylion ar-lein: www.food.gov.uk/cy/contactconsumersfeedback/cwynion-a-sylwadau-am-yr-asiantaeth-safonau-bwyd

Pan fydd achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl dilyn proses yr ASB, ar y lefelau ‘lleol’ a ‘chanolog’, gall gyfeirio ei achos at Ombudsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd. Mae rhagor o fanylion am Ombudsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd ar gael ar-lein: www.ombudsman.org.uk/

Yn ystod blwyddyn galendr 2021:

- Ymatebwyd i 10 achos ar y lefel ‘leol’. Ni chadarnhawyd 5 achos, cadarnhawyd 3 yn rhannol, a 2 yn llawn.
- Ymatebwyd i 1 achos ar lefel ‘ganolog’ ein proses trwy swyddfa'r Cydlynnydd Cwynion, cafodd ei gadarnhau yn rhannol.
- Cafodd 1 achos ei uwchgyfeirio i swyddfa'r Prif Weithredwr a chafodd ei gadarnhau yn rhannol.
- Ni chyfeiriwyd unrhyw achosion at Ombudsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd.

Mae hyn yn cymharu â 2 gŵyn a aeth rhagddynt y tu hwnt i ymateb ar lefel leol, i’r Cydgysylltydd Cwynion, yn ystod 2020. O’r rhain:

- Ni chadarnhawyd 1 achos.
- Cadarnhawyd 1 achos yn rhannol.

Atgyfeiriwyd un achos arall, a gychwynnodd yn wreiddiol yn 2019, at Ombudsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd yn 2020 a chafodd ei gadarnhau’n rhannol.

Addasu ar gyfer newid hinsawdd

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at wella ein dealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd, sut y bydd yn effeithio ar system fwyd y DU ac ar ein gweithrediadau dyddiol fel adran o’r llywodraeth sydd ag ymrwymiad cryf i gynaliadwyedd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae ein Grŵp Gweithredu ar yr Hinsawdd a’r Amgylchedd (CEAG, sef rhwydwaith staff mewnol) bellach wedi llunio a chyhoeddi strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol fel dogfen gyhoeddus. Mae’r ddogfen bwysig hon yn addysgu staff am ein nodau amgylcheddol ac yn nodi ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni’r nodau hyn. Mae hefyd yn diffinio ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a diogelu’r amgylchedd i’r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Ym mis Tachwedd 2021, buom hefyd yn llwyddiannus wrth ennill ardystiad ISO 14001 (Rheoli’r Amgylchedd), gan fod yn o’r sefydliadau Gwasanaeth Sifil cyntaf i wneud hynny. Mae’r achrediad hwn a gydnabyddir yn rhyngwladol yn darparu system strwythurol i’r ASB ddadansoddi a gwella ei phrotocolau amgylcheddol mewn ffordd ymarferol. Mae tîm Caffael yr ASB wedi dechrau integreiddio protocolau cyfrifoldeb cymdeithasol wrth wneud penderfyniadau, sy’n cynnwys paramedrau cynaliadwyedd sylweddol i’w hystyried wrth wneud penderfyniadau caffael.

Rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar ein harferion gwaith, gan hyrwyddo dulliau gweithio hybrid sy’n defnyddio cyfuniad o alluoedd rhithwir ac ar y safle. Rydym wedi rhoi’r cyfreith i’n staff weithio gartref lle bo hynny’n bosib, ac mae llawer o staff newydd yn cael dewis rhwng gweithio ar y safle, contract aml-leoliad neu weithio gartref fel eu prif fan gwaith. Mae hyn yn cyfrannu’n gryf at leihad yn y defnydd o gyfleoedd o gylcholau yn ein

hystâd a gostyngiad yn yr allyriadau carbon sydd eu hangen ar gyfer cymudo neu deithio swyddogol.

Ar gais y CEAG, mae tîm rheoli gweithredol yr ASB hefyd wedi cymeradwyo creu arweinydd Cynaliadwyedd llawn amser o fewn y sefydliad i helpu i gynnal a gwella ein hymagwedd amgylcheddol yn y tymor hir. Yn ogystal â hyn, rydym yn cynnal ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd ystyried yr amgylchedd yn ein gwaith bob dydd.

Adrodd ar gynaliadwyedd

Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ddinistriol yn fydd-eang heb ymrwymiad gwirioneddol gan lywodraethau, sefydliadau ac unigolion i weithredu. Mae'r ASB wedi nodi meysydd lle credwn y gallwn wneud gwahaniaeth a hyrwyddo'r agenda werdd trwy gymryd camau i wella ein cynaliadwyedd amgylcheddol trwy ein polisiau a'n harferion busnes, a lle gallwn geisio dylanwadu ar ein rhanddeiliaid a'n partneriaid i wneud yr un peth.

Rydym wedi cynyddu ein ffocws ar gynaliadwyedd yn y flwyddyn adrodd gan ddatblygu Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol newydd³⁶ a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y byddwn yn cefnogi agenda werdd y Llywodraeth, gan gyflawni yn erbyn yr Ymrwymiadau Llywodraeth Fwy Gwyrdd ar gyfer 2021-25, gyda manylion am sut y byddwn yn cyflawni, yn mesur ac yn adrodd yn erbyn y targedau hyn. Mae'r strategaeth yn canolbwntio ar y canlynol:

- lleihau ein hôl troed carbon
- gwarchod adnoddau naturiol
- blaenorriaethu caffael cynaliadwy
- gwella ymwybyddiaeth o fentrau gwyrdd

Yn ogystal, rydym wedi ein hardystio gan ISO 14001 (Rheoli'r Amgylchedd), a fydd yn ein galluogi i fonitro'n effeithiol sut rydym yn rheoli ein hystâd a lliniaru ffactorau amgylcheddol negyddol gan ddefnyddio fframwaith adrodd cadarn. Mae hyn yn dal yr ASB i safon uchel a gydnabyddir yn rhyngwladol, gan fod yr achrediad yn cael ei archwilio'n allanol gan gorff ardystio a gymeradwyir gan UKAS.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr – Cwmpas 2 (anuniongyrchol)³⁷

Rydym wedi dysgu o'r pandemig COVID-19 ac wedi parhau i annog newid i weithio o bell ar gyfer ein holl staff swyddfa. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ein hallyriadau carbon oherwydd llai o deithio.

³⁶ <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/strategaeth-cynaliadwyedd-amgylcheddol-yr-asiantaeth-safonau-bwyd>


³⁷ Mae'r data'n ymwneud â'r ASB yng Nghymru, Llundain, Birmingham a Gogledd Iwerddon yn unig. Mae data ar gyfer y swyddfa yng Nghaerflogion yn cael ei gyfrif gan Defra.

Fodd bynnag, bu llai o ostyngiad yn y defnydd o ynni yn ein swyddfeydd, wrth i'n defnydd ynni a'r allyriadau carbon cysylltiedig gael eu cyfrifo pro rata gan ddefnyddio cyfanswm yr allyriadau defnydd adeiladau ac ardal ganrannol yr ASB a feddiannir. Mae hyn wedi arwain at ychydig bach o ostyngiadau yn unig, yn enwedig lle mae tenantiaid eraill wedi parhau i weithredu o'r adeilad hwnnw. Ar hyn o bryd rydym yn archwilio opsiynau i leihau ein hallyriadau, gan gynnwys gweithio'n agosach gyda'r landlordiaid, neu o bosib gosod mesuryddion ar y lloriau yr ydym yn eu meddiannu i helpu i ddarparu mwy o reolaeth dros ein defnydd a chynyddu cywirdeb ein data allyriadau.

Rydym yn gweithio gyda'n landlordiaid a'n cyd-denantiaid, gan geisio newid ein tariffau ynni i ynni mwy gwyrdd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n landlordiaid yn y llywodraeth trwy fforymau cynaliadwyedd i archwilio mesurau gwerth am arian y gallwn eu cyflwyno ar draws ein hystâd.

Byddwn yn penodi Rheolwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol newydd a fydd yn bwynt cyswllt canolog, i arwain a datblygu ein gwaith yn y maes hwn.

Ffigur 31: Defnydd ynni ar draws ein hystâd



Allyriadau nwyon tŷ gwydr – Cwmpas 3 (anuniongyrchol)³⁸

Wrth i ni addasu yn dilyn y pandemig, rydym yn bwriadu achub ar y cyfle i ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn y ffordd rydym yn meddwl ac yn gweithio.

Rydym wedi adolygu ein strategaeth ar gyfer gweithle, a sut y gall hyn gefnogi gostyngiad yn ein hôl troed carbon. Ein nod yw cynyddu i'r eithaf ein cynnig gweithio hyblyg i staff swyddfa, wedi'i gefnogi gan ein hoffer cydweithredu digidol, a sicrhau cyn lleied o deithio â phosib. Mae hyn yn cynnwys symud i ffwrdd o gynnig contractau swyddfa a fydd yn ein helpu i leihau ein defnydd o swyddfeydd a helpu i leihau ein hôl-troed o ran defnydd o ynni.

³⁸ Data ledled y DU.


Bydd angen teithio ar y ffordd o hyd oherwydd yr angen busnes hanfodol i staff maes ddarparu gwasanaethau rheng flaen, gan fod staff angen teithio i safleoedd mewn ardaloedd gwledig anghysbell. Rydym wedi negodi'n llwyddiannus gyda'n cyflenwyr i leihau allyriadau CO₂ ar y ffordd drwy newid ein ceir ar brydles i gyfuniad o gerbydau allyriadau isel iawn a cherbydau trydan yn unig. Mae pob car prydles newydd yn ULEV neu'n drydanol yn ddiofyn.


Er mwyn cryfhau hyn ymhellach, rydym yn annog teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd, ac yn parhau i gefnogi gweithio hybrid fel bod gan ein staff ddewis o ran teithio.

Er y bu cynnydd bach mewn allyriadau carbon cyffredinol (6%), gwelsom ostyngiad sylweddol yn y defnydd o ynni yn ein hystâd (48%) a oedd yn gwrthbwysol ein cynnydd mewn allyriadau teithio busnes (50%).

Mae ein hallyriadau wedi cynyddu ar gyfer staff maes er mwyn diwallu anghenion busnes hanfodol, ond rydym yn parhau i annog dulliau hybrid o weithio ar gyfer staff maes lle bo modd er mwyn cadw'r allyriadau hyn i'r lefelau lleiaf posib. Mae'r ffaith nad yw'r ffigurau wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig yn cadarnhau bod y newidiadau i ddulliau gweithio hybrid yn cael effaith gadarnhaol.

Ffigur 32: Cyfanswm o dunelli CO₂e ar gyfer teithio a chyfanswm defnydd o ynni fesul adeilad




Ffigur 33: Dadansoddiad o CO₂ e mewn tunelli yn ôl dulliau teithio

Defnydd cyfyngedig o adnoddau

Defnydd o ddŵr (m³)³⁹

Yn anffodus, mae cyfanswm y dŵr sy'n cael ei ddefnyddio wedi cynyddu wrth i'n staff ddychwelyd i swyddfeydd yn dilyn pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo. Mae'r ASB yn ymwybodol o'r mater hwn a bydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlieth ein staff swyddfa i liniaru cynnydd yn y dyfodol ac annog defnydd cyfrifol o ddŵr yn ein safleoedd.

Ffigur 34: Unedau o ddŵr (m³)

³⁹ Oherwydd problem gyda'r ffigurau o ran y defnydd o ddŵr a ddarparwyd gan y landlord ar gyfer swyddfa Clive House, amcangyfrif yw ffigurau 2021/22 yn seiliedig ar daliadau 2021/22.

Lleihau a rheoli gwastraff

Gwastraff (Tunelli)

Mae cyfanswm gwastraff wedi gostwng 33% yn y flwyddyn adrodd hon. Hefyd, mae'n bwysig nodi nad ydym wedi anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi ers dwy flynedd. Rydym hefyd yn falch o fod wedi cymryd rhan mewn prosiect elusennol a oedd yn golygu bod ein hen offer TGCh yn cael eu hailgylchu a'u hail-bwrpasu i elusennau, gan helpu i addysgu plant heb fynediad at TGCh. Mae hyn i bob pwrpas wedi dileu'r allyriadau a achoswyd gan wastraff TGCh ar gyfer y flwyddyn gyfrifyddu hon.

Trwy fforwm y llywodraeth, cyflwynwyd sefydliad sy'n darparu cofrestr genedlaethol o elusennau a gwasanaethau dileu data ar gyfer offer. Roedd hyn yn ein galluogi i dreialu rhaglen drawsnewid i wella ac ailgylchu ein dyfeisiau a darparu gwerth cymdeithasol.



Gan weithio gyda ThrySORLys EF, cawsom gymeradwyaeth i fwrw ymlaen. Trwy'r gofrestr genedlaethol, dewiswyd 16 o elusennau gennym yn agos at ein 5 swyddfa. Trefnwyd i offer TGCh gael eu casglu o gyfeiriadau cartref.

Ar ôl dod yn adran arloesol o'r llywodraeth, mae hyn wedi ennyn llawer iawn o ddiddordeb gan adrannau eraill. Rydym nawr yn cychwyn ar gynllun peilot pellach ar y cyd â Gwasanaeth Masnachol y Goron i ofyn am wybodaeth gan gyflenwyr am y fframwaith er mwyn darparu contract 3 blynedd teg ac agored. Mae'r prosiect hwn o ailgylchu ein hoffer TGCh wedi gwneud cyfraniad enfawr i werth cymdeithasol a strategaeth gynaliadwyedd yr ASB drwy helpu pobl mewn angen ac mae wedi arbed 75 tunnell mewn allyriadau CO₂. Rydym hefyd yn gweithio i gael adroddiadau gwastraff gan ein cyflenwr TGCh.

Mae ein Grŵp Gweithredu ar yr Hinsawdd a'r Amgylchedd (CEAG) yn parhau i weithio ar ffrwd waith bwrpasol ar gyfer gwastraff ac ailgylchu, a sut y gallwn wella ein prosesau presennol sydd eisoes yn effeithiol.

Rydym yn gweithio gyda'n landlordiaid yn y llywodraeth i leihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir.


Nid oes gan yr ASB unrhyw gontactau gyda chyflenwyr rheoli gwastraff swyddfa ar gyfer ein prif swyddfeydd ac rydym yn gweithio gyda'n landlordiaid i sicrhau eu bod yn lleihau gwastraff ac yn ei reoli mewn ffordd gynaliadwy.

Ffigur 35: Gwastraff (Tunelli)**Ffigur 36: Gwastraff wedi'i ailgylchu ac wedi mynd i safleoedd tirlenwi (tunelli)**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
9 Ionawr 2023

Mae cyfrifon yr Asiantaeth a manylion perthnasol eraill wedi'u cynnwys isod er gwybodaeth. Fe'u cyflwynir yn Saesneg oherwydd eu natur dechnegol.

Accountability report



Directors' report

The requirements of the accountability report are based on the matters required to be dealt within a Directors' Report, as set out in Chapter 5 of Part 15 of the Companies Act 2006 and Schedule 7 of SI 2008 No 410, and in a Remuneration Report, as set out in Chapter 6 of the Companies Act 2006 and SI 2013 No. 1981.

The FSA is a non-Ministerial Government Department. Staff are accountable through a Chief Executive to the Board, rather than directly to ministers. The Board consists of a Chair, Deputy Chair and up to 12 members. The Chair and Deputy Chair are appointed by the Secretary of State for Health and Social Care in agreement with health ministers in Wales and Northern Ireland. The Board is mainly appointed by the Secretary of State for Health, with one member appointed by the Welsh Health Minister and one by the Northern Ireland Health Minister.

The Board is responsible for the overall strategic direction of the FSA, ensuring that it fulfils its legal obligations so that its decisions or actions take proper account of scientific advice, the interests of consumers and other relevant factors. Day-to-day management of the FSA is delegated to officials through the Chief Executive. In addition to the FSA Board, the FSA has advisory committees, chaired by Board members, in Wales and Northern Ireland. The role of the committee in each country is to advise the Board. The Board is required by statute to take account of their advice in its work.

Details of the Board and Directors

The FSA Board

During the year, the membership of the non-executive FSA Board was:

Member name	Position
Professor Susan Jebb OBE, PhD, FRCP (Hon), FMedSci (Chair)	FSA Chair from July 2021
Dr Ruth Hussey CB OBE	Interim Chair from February 2021 until June 2021 Deputy Chair from July 2020
Peter Price	Chair of the Welsh Food Advisory Committee from September 2020
Colm McKenna	Chair of the Northern Ireland Advisory Committee (reappointed September 2020)
Margaret Gilmore	Board member
Mark Rolfe	Board member
Timothy Riley	Board member
Fiona Gately	Board member from June 2021
Lord Blencathra	Board member from June 2021

Executive Management Team

During the year, the membership of the Executive Management Team was:

Member name	Position
Emily Miles	Chief Executive
Steven Pollock	Acting Director of Strategy, Legal & Governance from January 2021 until July 2021
Professor Robin May	Chief Scientific Adviser
Dr Colin Sullivan	Chief Operating Officer until December 2021
Simon Tunnicliffe	Interim Director of Operations from December 2021 until March 2022
Chris Hitchen	Director of Finance and Performance until July 2021
Julie Pierce	Director of Openness, Data, Digital and Wales
Maria Jennings	Director of Regulation, Compliance, People and Northern Ireland
Rebecca Sudworth	Director of Policy
Craig Thomas	Interim Director of Finance and Performance from August 2021 until October 2021
Pam Beadman	Director of Finance and Performance from September 2021
Katie Pettifer	Director of Strategy, Legal, Governance and Communications from July 2021
Anjali Juneja	Director of UK & International Affairs from March 2022

All senior officials have been appointed under the rules laid down by the Civil Service Commissioners. Salary and pension details of the Board and the EMT are disclosed in the Remuneration Report.

FSA advisory committees

During the year, the membership of the food advisory committees was:

Northern Ireland member

Colm McKenna [Chair]

Fiona Hanna

Lorraine Crawford

Cathal McDonnell

Ellen Finlay

Greg Irwin

Dr Lynne McMullan

Ciaran McCartan

Wales member

Peter Price [Chair]

Alan Gardner

Dr Philip Hollington

Georgia Taylor

Christopher Brereton OBE

Helen Taylor

Jessica Williams

Dr John Williams

Audit and risk assurance committee

Membership of the FSA Audit and Risk Assurance Committee:

Non-executive members

Colm McKenna

Dr Ruth Hussey CB OBE

Timothy Riley

